

Rhaglen Gyflawn

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 18fed Mai, 2021
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Cyfarfod Rhithiol
PWYNT CYSWLLT	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Amgylchedd
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Catrin Wager	Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Cemlyn Rees Williams	Aelod Cabinet Addysg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWDYD AR 20 EBRILL 2021			3 - 5
6	YSGOL NEWYDD YNG NGHRICIETH	Cyng. Cemlyn Williams	Gwern ap Rhisiart	6 - 50
7	CYNLLUN PRENTISIAETHAU A CYNLLUN RHEOLWYR AC ARBENIGWYR YFORY	Cyng. Nia Jeffreys	Geraint Owen	51 - 60
8	GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS - RHEOLI CWN	Cyng. Catrin Wager	Steffan Jones	61 - 102
9	AWDURDOD LLETYA PARTNERIAETH CHWARAEON GOGLEDD CYMRU	Cyng. Gareth Thomas	Sioned Williams	103 - 106
10	LLYTHYR ARCHWILIAD SICRWYDD AROLYGIAETH GOFAL CYMRU	Cyng. Dafydd Meurig ac y Cyng. Dilwyn Morgan	Morwena Edwards	107 - 118
11	CYFRIFON TERFYNOL 2020-21 - ALLDRO REFENIW	Cyng. Ioan Thomas	Ffion Madog Evans	119 - 148
12	RHAGLEN GYFALAF 2020-21 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2021)	Cllr. Ioan Thomas	Ffion Madog Evans	149 - 157
13	BLAEN RAGLEN Y CABINET	Cyng. Dyfrig Siencyn		158 - 159

Y CABINET DYDD MAWRTH, 20 EBRILL 2021

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Griffith, Nia Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thoamas, Catrin Wager a Cemlyn Williams.

Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol Adran Gyllid - Refeniw a Risg) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Dafydd Gibbard (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo) a Hedd Tomos (Rheolwr Cyflenwad Tai).

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Dyfrig Siencyn.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWDYD AR 30 MAWRTH 2021

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2021 fel rhai cywir.

6. SICRHAU FOD Y GRANT CYMORTH TAI YN ARWAIN AT Y GEFNOGAETH

ORAU POSIB I'R DIGARTREF YNG NGWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago

PENDERFYNIAD

- a. Cefnogwyd blaenoriaethu'r defnydd o'r Grant Cymorth Tai fel yr amlinellwyd ym mharagraff 36 o'r adroddiad.
- b. Cefnogwyd yr egwyddor i barhau i gydweithio gyda darparwyr allanol er mwyn cynnig gwasanaethau cefnogol arbenigol ychwanegol i'r hyn y gellir ei ddarparu'n fewnol.
- c. Nodwyd y risg ynghlwm i'r grant refeniw yn y dyfodol (fel pob grant refeniw arall) a'r mesur lliniaru a nodwyd ym mharagraff 39 o'r adroddiad hwn.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cabinet wedi bod yn amlygu nad yw'r ddwy Lywodraeth wedi bod yn gwneud digon i dacio'r problemau tai sydd i'w gweld yn y sir. Amlygwyd y camau mae'r Cyngor wedi ei wneud i dacio'r broblem tai megis adroddiad am ail dai o fewn y sir, edrych ar y maes twristiaeth ac adfywio cymunedau. Pwysleisiwyd mai un o flaenoriaethau'r Adran Tai ac Eiddo yw tacio digartrefedd, gan ychwanegu fod rhan fawr o'r Cynllun Gweithredu Tai yn edrych ar y mater.

Ymhelaethwyd fod penderfyniad heddiw yn amlinellu cynlluniau'r adran i ddefnyddio arian Grant Cymorth Tai er mwyn tacio digartrefedd.

Ychwanegodd Pennaeth yr Adran Tai ac Eiddo fod niferoedd digartrefedd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Mynegwyd yn ystod y blynyddoedd cynnar o gynnydd yn nigartrefedd fod y Cyngor wedi bod yn ymateb yn araf ac wedi methu a chreu cynllun hir dymor. Bellach, nodwyd fod cynllun hir dymor yn ei le ac amlinellwyd y cynllun.

Pwysleisiwyd dros y flwyddyn ddiwethaf fod cynnydd o 26% wedi bod yn y niferoedd sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref, cynnydd o 71% dros bum mlynedd. Amlygwyd ei bod yn gyfnod o argyfwng ac nad yw'r ffordd bresennol o weithio yn ddigonol. Mynegwyd fod y Grant Cymorth Tai am gynorthwyo'r adran i symud ymlaen gyda cham 2 a 3 o'r cynllun sef i adeiladu unedau tai dros dro i'r digartref ac i gynyddu'r staff cefnogol i'r unigolion.

Nodwyd yn 2019 fod y Llywodraeth wedi rhagrybuddio y byddant yn edrych ar leihau'r grant hwn. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddigartrefedd yn cael ei amlygu yn ystod cyfnod covid-19, bu i ddyfodol y grant newid yn llwyr. Mynegwyd fod dyraniad ychwanegol o £1.6m ac o ganlyniad i hyn y bydd modd i'r Adran fynd yn syth i adeiladu 50 o unedau tai dros dro. Ategwyd y bydd yr arian yn ogystal yn galluogi'r Cyngor i ddyblu'r tîm cefnogaeth i unigolion digartref i dderbyn cefnogaeth emosiynol ynghyd a sgiliau bywyd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd yr adroddiad gan nodi'r angen am gefnogaeth ar gyfer y digartref. Tynnwyd sylw at ddigartrefedd cudd.
- Pwysleisiwyd yr angen i wneud gwaith ataliol gan holi os oedd modd ddefnyddio'r arian grant ar gyfer y gwaith hwn. Nodwyd fod gwaith ymyrraeth gynnar yn rhan o'r annatod o gynnig cefnogaeth fel bod modd cefnogi'r unigolion i ddal gafael eu llety yn ogystal.
- Diolchwyd am y cynllun hirdymor ynghyd â chynyddu capasiti o fewn yr adran i wneud y gwaith sydd ei angen i gefnogi'r unigolion.
- Mynegwyd ei bod yn dda cael newyddion da i gefnogi unigolion a bod yn rhagweithiol wrth symud ymlaen.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 1.30 y.h.

CADEIRYDD

Eitem 6

CYFARFOD	Cabinet Cyngor Gwynedd
DYDDIAD	18 Mai 2021
AELOD CABINET	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams
SWYDDOG	Gwern ap Rhisiart
TEITL YR EITEM	Ysgol newydd yng Nghricieth

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet gadarnhau'n derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gynyddu capasiti Ysgol Trefferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen y cyfeirir ato fel safle A497 ar 1 Medi 2023, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd i'r Cabinet yn dilyn cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Trefferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen, Y cyfeirir ato fel safle A497 ar 1 Medi 2023.

3. CYFLWYNIAD

- 3.1 Cyflwynodd Cyngor Gwynedd 'Cais Strategol Amlinellol' am gyllid o'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif (Band B) i Lywodraeth Cymru yn 2017. Ynndo, clustnodwyd cyllideb o £4.97m ar gyfer adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth fel rhan o raglen gyfalaf gwerth £56.14m gyda chyfraniad o £37.46m gan Lywodraeth Cymru a £18.68m o arian cyfatebol gan Gyngor Gwynedd. Roedd y cais am gyllid i adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth yn sgil cyflwr gwael adeilad Ysgol Trefferthyr.
- 3.2 Yn ei gyfarfod ar 2 Ebrill 2019, bu i'r Cabinet ([Adroddiad Cabinet – Eitem 8](#)) gymeradwyo'r hawl i gychwyn trafodaethau lleol er mwyn adnabod opsiynau ar gyfer adeiladu ysgol gynradd newydd yng Nghricieth.
- 3.3 Sefydlwyd Panel Adolygu Lleol ym Mehefin 2019 a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng Mehefin 2019 a Mehefin 2020. Roedd cynrychiolwyr o'r Corff Llywodraethol, pennaeth Ysgol Trefferthyr, Cadeirydd y Corff Llywodraethol a'r Aelod Lleol yn aelodau o'r panel. Yn ystod y cyfarfodydd trafodwyd anghenion yr ysgol a rhoddwyd ystyriaethi nifer o safleoedd posib ar gyfer lleoli'r ysgol newydd, gan gynnwys y safle presennol ynghyd â lleoliadau eraill a oedd wedi eu hadnabod ar y cyd gyda'r Corff Llywodraethol. Yn dilyn cynnal gwerthusiad o'r holl safleoedd, bu i'r Panel gytuno ar safle A497 fel y safle ffafredig.
- 3.4 Yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2020, bu i'r Cabinet ([Adroddiad Cabinet – Eitem 6](#)) gymeradwyo cynnal ymgynghoriad statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Trefferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497 ar 1 Medi 2023, gan adrodd yn ôl i Gabinet yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad.

4. YMGYNGHORIAD STATUDOL

- 4.1 Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 6 Tachwedd 2020 a 18 Rhagfyr 2020.
- 4.2 Lluniwyd [dogfen ymgynghori](#) statudol a dosbarthwyd copi o'r ddogfen i'r holl ymgynghorai perthnasol.
- 4.3 Yn ogystal, crëwyd [dogfen ymgynghori addas i blant cynradd](#) gydag holiaduron cysylltiedig. Trefnwyd fod pennaeth Ysgol Trefferthyr yn hwyluso sesiynau gyda disgyblion yr ysgol er mwyn derbyn eu hymatebion i'r cynnig.
- 4.4 Derbyniwyd 10 ymateb i'r ymgynghoriad statudol gan y cyhoedd, Cyngor Tref, llywodraethwyr, rhieni ac Estyn ynghyd â 78 o ymatebion gan ddisgyblion.
- 4.5 Cyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad i Gabinet ([Adroddiad Cabinet – Eitem 6](#)) ar 26 Ionawr 2021. Bu i'r Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol ynghyd â'r ymatebion i'r sylwadau hynny, a chymeradwywyd cynnal cyfnod gwrthwynebu drwy gyhoeddi Rhybudd Statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Trefferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497 ar 1 Medi 2023.

5. CYFNOD GWRTHWYNEBU

Cyhoeddwyd y [Rhybudd Statudol \(Atodiad A\)](#) ar 24 Chwefror 2021, gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. Rhoddwyd y rhybuddion ar giatiau'r ysgol ac ar wefan y Cyngor. Bu i'r holl ran-ddeiliaid perthnasol dderbyn e-bost gyda chopi o'r rhybudd i'w hysbysu fod y cyfnod gwrthwynebu wedi cychwyn ar 24 Chwefror 2021. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 24 Mawrth 2021, ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad.

6. CYLLID CYFALAF

Rydym bellach wedi cytuno achos fusnes a chyllid cyfalaf terfynol efo Lywodraeth Cymru am gyllid Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif i adeiladu'r ysgol newydd yng Nghricieth. Derbyniwyd cadarnhad ar 24 Mawrth 2021 bod y cais wedi bod yn llwyddiannus ac y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu £3,174,162, sef 65% tuag at gyllideb cyfalaf terfynol o £4,883,326 ar gyfer agwedd datblygu yr ysgol, gyda Chyngor Gwynedd yn cyfrannu'r £1,709,164 sy'n weddill o gyllid sydd wedi ei neilltuo ar gyfer prosiectau sy'n rhan o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif.

Mi fydd uned blynnyddoedd cynnar hefyd yn cael ei gynnwys ar safle'r ysgol newydd. Er yn rhannu'r un safle, mae datblygu yr uned yn cael ei ystyried fel datblygiad ar wahân i'r ysgol a ni fydd yn cael ei ariannu o gyllid Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Mae trafodaethau i sicrhau cyllid ar gyfer yr uned yn parhau.

7. ASESIADAU EFFAITH AR Y NEWID

7.1 Asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw gynig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd asesiad effaith y byddai adleoli'r ysgol i safle newydd yn ei gael ar yr iaith Gymraeg. Gweler yr adroddiad llawn yn **Atodiad B**.

Nodir yn yr asesiad na fyddai adleoli Ysgol Trefferthyr i safle newydd yng Nghricieth yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. I'r gwrthwyneb, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i blant Cricieth ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cyfoedion yn allgyrsiol ac yn gymdeithasol yn sgil y ffaith y bydd gan yr ysgol newydd well adnoddau ar gyfer cynnal rhagor o weithgareddau y tu allan i oriau ysgol.

7.2 Asesiad Cydraddoldeb

Cwblhawyd asesiad cydraddoldeb ar adleoli'r ysgol i safle newydd. Gweler yr adroddiad llawn yn **Atodiad B**. Deuir i gasgliad na fyddai adleoli Ysgol Trefferthyr i safle arall yn effeithio ar gydraddoldeb, boed yn nodweddion neu ddyletswydd gyffredinol.

Rhagwelir y bydd adeiladu ysgol newydd yn cryfhau agweddau cydraddoldeb oherwydd y bydd yn fwy addas ar gyfer addysgu pob plentyn, yn arbennig dysgwyr gydag anableddau, drwy ddilyn canllawiau adeiladu ysgolion modern.

7.3 Asesiad Llesiant

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant ymysg disgyblion ysgolion y sir drwy ei weithgareddau a phrosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrf ff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r dyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn 'Cynllun Gwynedd 2018-23'.

Cwblhawyd asesiad llesiant ar adleoli'r ysgol i safle newydd. Gweler yr adroddiad llawn yn **Atodiad B**.

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i gasgliad bod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i, a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol.

7.4 Asesiad effaith ar y gymuned

Cwblhawyd asesiad effaith ar y gymuned ar adleoli'r ysgol i safle newydd. Gweler yr adroddiad llawn yn **Atodiad B**.

Ni ragwelir unrhyw effaith negyddol ar y gymuned o adleoli Ysgol Trefferthyr i safle newydd. Byddai'r ysgol newydd yn parhau yng nghymuned y dref ac yn gallu cynnig cyfleusterau a fyddai o fudd i'r dysgwyr a'r gymuned ehangach.

Bydd ystafelloedd modern yr ysgol newydd yn cynnig ei hunain ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol. Wrth sefydlu'r ysgol newydd bwriedir hyrwyddo defnydd cymunedol i'r gymuned yn ehangach, er mwyn gwneud defnydd llawn o'r ddarpariaeth newydd a'r adnoddau modern.

Byddai adeiladu'r ysgol newydd ar safle A497 yn sicrhau mwy o le ar gyfer y dysgwyr gan gynnig mwy o opsiynau ar gyfer clybiau a gweithgareddau allgyrsiol.

8. ARGYMHELLIAD

Gan na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyfraniad o arian cyfalaf Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd, argymhellir i'r Cabinet gymeradwyo'r penderfyniad a geisir, sef cadarnhau'n derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gynyddu capasiti Ysgol Trefferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen, Y cyfeirir ato fel safle A497 ar 1 Medi 2023, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

9. CAMAU NESAF

Yn ddarostyngedig ar benderfyniad Y Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol;

Mai - Mehefin 2021	Cyfnod cyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru: Yn unol ag adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet mae posib i'r cynnig gael ei gyfeirio at Weinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.
Mehefin 2021 – Mehefin 2023	Cais cynllunio, prynu tir, gwaith datblygu safle, adeiladu a dodrefnu.
1 Medi 2023	Gweithredu'r cynnig: Ysgol Trefferthyr yn symud o'r safle presennol i safle A497

10. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Dim sylwadau l'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Fel mae rhan 6 o'r adroddiad yn nodi, mae'r Cabinet eisoes wedi darparu ar gyfer ariannu'r cynllun. Rwy'n cefnogi'r argymhelliad i gadarnhau'n derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol.

Yr Aelod Lleol:

Da gweld nad oedd unrhyw wrthwynebiad l'r cynnig o symud Ysgol Trefferthyr l'r safle newydd. Falch hefyd o weld fod y Cyngor wedi sicrhau cyfraniad cyllidol o £3,174,162 gan Llywodraeth Cymru tuag at y datblygiad. Edrychaf ymlaen i weld y gwaith ar safle yn cychwyn yn y dyfodol agos.

Atodiadau

Atodiad A: Rhybudd Statudol

Atodiad B: Aseidiadau Effaith

DOGFENNAU CEFNDIR - Mae holl ddogfennau cefndir perthnasol y cynnig ar gael ar wefan y Cyngor trwy ddilyn y ddolen <http://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg>

CYNGOR GWYNEDD

ADRAN 48 DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

RHYBUDD O GYNNIG I WNEUD NEWIDIADAU A REOLEIDDIR I YSGOL TREFERTHYR

CYNGOR GWYNEDD, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 1SH

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Gwynedd, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig cynyddu capasiti Ysgol Trefertthyr, Cricieth, Gwynedd LL52 0DS i 150 ac adleoli'r ysgol i safle newydd ar ochr orllewinol tref Cricieth, cyfeirir ato fel safle A497 (côd post LL52 0RY). Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Gwynedd.

Cynhaliodd Cyngor Gwynedd gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghorai, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

Cynigir gweithredu'r cynnig ar **1 Medi 2023**.

Nifer y disgyblion yn yr ysgol yw 99 Derbyn – blwyddyn 6, ac 18 Meithrin yn unol â ffigyrau Medi 2020, capasiti disgyblion yr ysgol yw 119, a'r capasiti arfaethedig ar ôl gweithredu'r cynnig fydd 150 Derbyn - blwyddyn 6 a 21 Meithrin. Nifer y disgyblion y derbynir ar 1 Medi 2023 fydd 21 disgybl Derbyn a 21 disgybl Meithrin.

Ni ragwelir bydd adleoli'r ysgol yn golygu unrhyw newid i'r angen am gludiant i'r ysgol. ac y bydd cludiant yn cael ei ddarparu i ddisgyblion yr ysgol yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion Cyngor Gwynedd.

Lluniwyd y cynnig o ganlyniad i gyflwr gwael yr ysgol bresennol a'r angen i adeiladu ysgol newydd yn ei le.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn **24 Mawrth 2021**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau ysgrifenedig at sylw'r Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH neu drwy anfon neges e-bost at sylw'r Pennaeth Addysg i moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru.

Llofnodwyd:



Garem Jackson
Y Pennaeth Addysg, ar ran Cyngor Gwynedd

Dyddiad Cyhoeddi: **24 Chwefror 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r isod yn rhan o'r rhybudd ond mae'n cynnig esboniad o'i bwrpas)

Yn dilyn proses ymgynghori, mae Cyngor Gwynedd yn cynnig cynyddu capasiti Ysgol Trefertthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497, ar 1 Medi 2023.

Atodiad B



Aseidiadau Effaith Ysgol newydd i Gricieth

Aseiad Effaith debygol ar y Gymuned	1
Aseiad Effaith leithyddol	11
Aseiad Llesiant	21
Aseiad Cydraddoldeb	30



Adroddiad Asesu Effaith ar y Gymuned Ysgol Trefferthyr

- Medi 2020

- 1. CYFLWYNIAD**
- 2. OPSIYNAU**
- 3. CRYNODEB O'R DALGYLCH**
- 4. YSGOLION Y DALGYLCH**
- 5. ASESIAD O'R EFFAITH DEBYGOL AR Y GYMUNED**
- 6. CASGLIADAU**

1. CYFLWYNIAD

Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cychwyn ail wedd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) bydd yn cychwyn yn Ebrill 2019 ac yn rhedeg hyd at 2026. Cyflwynodd Cyngor Gwynedd gais yn dilyn cynnal ymarferiad blaenoriaethu yn seiliedig ar anghenion yr Awdurdod a gofynion Llywodraeth Cymru a arweiniodd at adnabod 5 prosiect ar gyfer cais yr Awdurdod.

Adnabuwyd yr angen i wella darpariaeth gynradd yng Nghricieth fel rhan o'r cais hwn ar y sail fod arolygon wedi adnabod fod cyflwr adeiladau Ysgol Trefferthyr yng nghategori C, golygir hyn fod nifer o ddiffygion yng nghyflwr yr adeiladau, a'u bod yn aneconomaidd parhau ceisio cynnal yr adeiladau yn y dyfodol.

Ar yr 2il o Ebrill 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg 'gychwyn trafodaethau lleol er mwyn adnabod opsiynau ar gyfer adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth, fel canlyniad i gyflwr gwael adeiladau presennol Ysgol Trefferthyr.'


Golyga hyn, fel rhan o'r broses statudol, fod angen asesu'r effaith debygol ar y gymuned, yn achos pob opsiwn rhesymol, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Mae'r asesiad hwn yn deillio o ganllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion.

Mae Ysgol Trefferthyr wedi'i lleoli yng nghanol tref Cricieth. Mae gan yr ysgol capasiti o 119, gyda 114 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd (Medi 2019) a cheir pum dosbarth oed cymysg yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion (104) yn dod o ddalgylch Ysgol Trefferthyr, gyda 10 disgybl ychwanegol yn dod o ddalgylchoedd eraill cyfagos. Cafwyd arolygiad Estyn yn 2018, gyda'r 5 maes arolygu craidd wedi ei asesu yn "Da". Mae'r adolygiad hefyd yn nodi bod y disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned gyda chyfraniad brwdfrydig ganddynt tuag at gyngherddau lleol a Gŵyl Cricieth.

2. OPSIYNAU

Yn ystod y trafodaethau lleol, bu i Panel Adolygu Lleol, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o Gorff Llywodraethol Ysgol Trefferthyr, ystyried nifer o safleoedd posib ar gyfer adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth. Ar ddechrau'r drafodaeth roedd 11 safle wedi eu hadnabod i'w ystyried ar gyfer adeiladu ysgol newydd, gyda chapasiti ar gyfer 150 disgybl, i gymryd lle ysgol bresennol Ysgol Trefferthyr.

Mae lleoliad y safleoedd posib i'w gweld yn y map isod:



Canlyniad y trafodaethau oedd y bu i'r aelodau gyntuno rhestr fer o 4 safle i'w ystyried ymhellach yn dilyn PAL2. Gwnaed asesiadau manylach o'r safleoedd rheini yn PAL 3 gan gyntuno i wneud gwaith pellach ar 2 safle posib, sef Safle Capel Uchaf a Safle A497.

Yn dilyn ystyried archwiliadau a gwaith pellach ar y 2 safle yma cytunwyd ar Safle A497 fel safle ffafredig yng nghyfarfod PAL4.

3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

3.1 Yr Ardal

Tref glan y môr yw Cricieth yn ardal Eifionydd o Wynedd. Mae'r dref 5 milltir i'r gorllewin o Borthmadog, 8 milltir i'r dwyrain o Bwlheli ac 18 milltir i'r de o Gaernarfon. Hen dref yw Cricieth ac mae'r castell hynafol sydd yno yn dyst i hynny.

Mae'r dalgyrch sy'n cwmpasu tref Cricieth yn cynnwys pentrefi Llanystumdwy, Rhoslan, a Phentrefelin.

3.2 Yr Economi

Mae economi'r ardal yn ddibynnol iawn ar nifer fechan o sectorau amlwg, sef y sector masnach gyfanwerthu a manwerthu, gwestai ac arlwy a'r sector iechyd dynol a gwaith cymdeithasol. O ran cyfleodd cyflogaeth mae 17.4% o'r boblogaeth sydd mewn cyflogaeth (boed yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig) yn cael eu cyflogi yn y sector a nodir gyntaf uchod, 17.1% yn gweithio yn yr ail a 13.2% yn y trydydd.

3.3 Amddifadedd

Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (Malc) mae Cricieth wedi'i raddio 1685 allan o 1909 AGEHI yng Nghymru, sy'n ei roi yn y 50% lleiaf difreintiedig yng Ngwynedd.

Mae crynodeb isod o sut mae dalgyrch Cricieth wedi ei leoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014):

Maes	Safle yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd. 1 = mwyaf difreintiedig 1909 = lleiaf difreintiedig	Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru
Cyflogaeth	1530	Yn y 50% lleiaf difreintiedig
Incwm	1415	Yn y 50% lleiaf difreintiedig
Iechyd	1433	Yn y 50% lleiaf difreintiedig
Addysg	1533	Yn y 50% lleiaf difreintiedig
Tai	1237	Yn y 50% lleiaf difreintiedig
Amgylchedd ffisegol	1909	Yn y 50% lleiaf difreintiedig
Mynediad i wasanaethau	1221	Yn y 50% lleiaf difreintiedig
Diogelwch cymunedol	1033	Yn y 50% lleiaf difreintiedig

3.4 Y Gymuned

Dengys y tabl isod pa fath o wasanaethau sydd yn y gymuned yn nalgylch Ysgol Trefferthyr:

	Dalgylch Ysgol Trefferthyr (Cricieth)
Canolfan Gymuned Neuadd Bentref	✓
Capel/Eglwys	✓
Trafnidiaeth Gyhoeddus	✓
Siop	✓
Caffi/Tafarn	✓
Swyddfa Bost	✓
Meddygfa/Fferyllfa	✓
Llyfrgell	✓
Cae Chwarae Plant	✓
Banc	x
Cartref Henoed	✓
Canolfan Hamdden	x
Garej	✓
Atyniad Twristaidd	✓
Cylch Ti a Fi + Meithrin	✓

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yng Nghricieth, gan gynnwys;

- Canolfan dydd henoed
- Merched y Wawr
- Gweithgareddau a pherfformiadau amrywiol yn y Neuadd Goffa
- Cae Chwarae
- Gŵyl Gricieth
- Clwb Bowlio
- Ffair Cricieth
- Golff

3.5 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol

Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)	x
Aelwyd yr Urdd	✓
Dramâu	x
Grwpiau Gwirfoddol	✓
Bore/Noson Goffi	x
Arwerthiant Cymunedol	x
Llyfrgell Gymunedol	x
Ymarfer Côr	✓
Cymraeg i Oedolion	x
Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned	x
Cylch/Ysgol Feithrin	✓

4. YSGOLION Y DALGYLCH

4.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn bydd awduron yr adroddiadau, sef yr arolygwyr, yn gosod yr ysgolion o fewn cyd-destun ac yn manylu ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Trefferthyr gan arolygwyr Estyn yn dilyn arolwg yn Ebrill 2018.

Ysgol Trefferthyr

'Mae Ysgol Trefferthyr yn nhref glan y môr Cricieth yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 112 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 14 oed meithrin rhan-amser. Fe'u rhennir yn 5 dosbarth oedran cymysg.'

4.2 Gwybodaeth ystadegol Ysgol Trefferthyr ac ysgolion cyfagos

Dengys y tabl isod niferoedd Ysgol Trefferthyr a'r ysgolion cyfagos eraill, o Flwyddyn Meithrin i Flwyddyn 6. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti'r ysgolion, a'r nifer o lefydd gweigion. Mae dwy o'r ysgolion hyn yn ysgolion cymunedol ac un yn ysgol Eglwysig ac maent oll yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgol	Capasiti	Nifer ar y gofrestr Ionawr 2020 (M – BI6)	Categori Cyfreithiol
Trefferthyr	119	116	Ysgol Gymunedol
Llanystumdwy	53	22	Ysgol Eglwysig
Garndolbenmaen	73	45	Ysgol Gymunedol
Gorlan, Tremadog	103	119	Ysgol Gymunedol

Ffynhonnell: PLASC Ionawr 2020

4.3 Gwybodaeth lleoliad annedd a dewis ysgolion disgyblion

Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae'n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddisgyblion fynychu eu hysgol dalgylch, mae'r dewis i fyny i rieni (yn unol â'r polisi mynediad).

Dengys data diweddaraf o gartrefi disgyblion fod 130 o blant yn byw yn nalgylch Trefferthyr llynedd (*data Medi 2019*), ac roedd 114 ohonynt yn mynychu'r ysgol. Golyga hyn fod 12% o blant oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Trefferthyr yn mynychu ysgolion all-dalgylch.

		Dalgyrch Cartref Home Catchment					
	Ysgol School	Treferythyr	Llanystumdwy	Garndolben- maen	Y Gorlan	Arall Other	Cyfanswm (M-BI6) Total (N – Yr6)
Ysgol / School	Treferythyr	104	3	2	2	3	114
	Llanystumdwy	9	9	0	0	3	21
	Garndolbenmaen	2	0	34	1	10	47
	Y Gorlan	9	1	5	57	47	119
	Arall / Other	6	3	3	25		
	Cyfanswm (M-BI6) Total (N – Yr6)	130	16	44	85		

Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2019

4.6 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw:

	Cricieth
Cylchoedd Meithrin/Ti a Fi	✓
Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)	✓
Adrannau'r Urdd	✓
Ymweliadau a Glan Llyn / Llangrannog / Caerdydd	✓
Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)	✓

Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Medi 2019

4.7 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau?

Ysgol	Ble darparir cyfleusterau pe bai'n cau
Treferythyr	Rhagwelir y bydd yr ysgol newydd yn cynnwys cyfleusterau gwell a fydd yn galluogi i unrhyw weithgaredd cymunedol barhau.

5. ASESIAD O EFFAITH DEBYGOL ADEILADU YSGOL NEWYDD AR SAFLE A497 AR Y GYMUNED

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd greu meini prawf yn unol â argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

Positif	Niwtral	Negyddol
---------	---------	----------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a Llesiant	Byddai'r ysgol newydd yn cynnwys mwy o ofod chwarae y tu allan sy'n cynyddu'r cyfleon i gynnig amrywiaeth o glybiau chwaraeon a mwy o le i gadw'n heini a chwarae yn ystod oriau'r ysgol.	Positif
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Dim newid	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Mae'r ysgol newydd yn cynnwys cyfleusterau ac adnoddau newydd sy'n gwella'r amgylchedd addysgu ac sy'n cynnig ei hun fel gofod addas ar gyfer defnydd all-gyrsiol o'r adeilad.	Positif
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Dim newid	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Teuluoedd yn fwy tebygol o symud i mewn i'r ardal ac yn llai tebygol o symud allan o'r ardal.	Positif
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Y tebygrwydd yw y byddai'r ysgol yn cynnig ei hun fel gofod delfrydol ar gyfer gwasanaethau cymunedol eraill megis lle i ymarfer côr neu i ddarparu gwersi Cymraeg i oedolion.	Positif
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Dim newid	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Cyfle i ddefnyddio'r ysgol fel adnodd cymunedol a fyddai'n addas ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau.	Positif

6. CASGLIADAU

Bydd yr ysgol newydd yn parhau yng nghymuned y dref ac yn gallu cynnig cyfleusterau a fyddai o fudd i'r dysgwyr a'r trigolion. Bydd arwynebedd mwy yr ysgol newydd yn cynnig ei hun ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol yn yr adeilad. Ni rhagwelir unrhyw effaith negyddol ar y ddarpariaeth bresennol ac bydd yr adeilad newydd yn creu cyfleoedd cadarnhaol i'r dyfodol. Wrth weithredu'r cynnig o sefydlu'r ysgol newydd bwriedir hyrwyddo defnydd cymunedol i'r gymuned yn ehangach, gan gynnig mwy o opsiynau ar gyfer clybiau a gweithgareddau all-gyrsiol er mwyn gwneud defnydd llawn o'r ddarpariaeth newydd a'r adnoddau modern.



Adroddiad Aseiad Effaith Ieithyddol Ysgol Trefferthyr

- Medi 2020

1.	CYFLWYNIAD
1.1	Y Sefyllfa yng Ngwynedd
1.2	Polisi Iaith
1.3	Cefndir Addysgol
2.	PROFFIL IEITHYDDOL DALGYLCH TREFERTHYR
2.1	Cefndir Proffil Iaith Gwynedd
2.2	Wardiau
2.3	Ysgol Trefertthyr
2.4	Lefelau Cyrhaeddiad
2.5	Gweithgareddau ar ôl ysgol
2.6	Gweithgareddau Cymunedol
2.7	Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020
2.8	Tystiolaeth Ychwanegol
3.	EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG
3.1	Opsiwn
3.2	Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith
4.	CASGLIAD

1. CYFLWYNIAD

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau iaith yn allweddol bwysig i strategaethau addysg y Sir.

1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

Mae ffigyrau yng Nghyfrifiad 2011 yn nodi fod 65,900 (56%) o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2011 hefyd yn nodi bod 65% yn siarad Cymraeg sydd yn ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, pan oedd y ffigwr yn 69%.

Yng Ngwynedd, fel mewn sawl Awdurdod Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Ar un eithaf, mewn wardiau megis Aberdyfi, Tywyn a ward Menai ym Mangor, mae rhwng 18% a 38% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bod cymaint â 78% yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymreig e.e. Llanrug.

1.2 Polisi Iaith

Cynradd

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

Uwchradd

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef lefel 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11.

Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyfedr ddwyieithog.

1.3 Cefndir Addysgol

Mabwysiadwyd strategaeth "Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" gan y Cyngor yn Ebrill 2009. Datblygwyd a chefnogwyd uwch strategaeth "Rhaglen Strategol - Tuag at 2025" gan y Cyngor yn Hydref 2010. Darparwyd y ddogfen fel sylfaen strategol i osod cyfeiriad i ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd am y 15 mlynedd nesaf. Cyflwynwyd y rhaglen yng nghyd-destun y polisiâu a chynlluniau sydd ar y gweill, yn lleol a chenedlaethol i drawsnewid gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Cyhoeddwyd "Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017-2020" yn Rhagfyr 2017 sydd yn gosod gweledigaeth, ymrwymiad a chyfeiriad ar gyfer sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

2. PROFFIL IAITH DALGYLCH TREFERTHYR

2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

Mae bron i dri chwarter poblogaeth y Sir wedi eu geni yng Nghymru (66.8%). Mae 65.4% o'r boblogaeth sydd dros dair oed yn siaradwyr Cymraeg – sylweddol uwch na'r ffigwr trwy Gymru gyfan o 19%. Yn gyffredinol, ceir cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a'r rheini a gaiff eu geni yng Nghymru tuag at y gorllewin a symud yn fewndirol o'r ardaloedd mwy poblog ar yr arfordir. Yng Ngwynedd, mae'r gallu i siarad Cymraeg uchaf yn ward Llanrug (mae 87.8% yn siarad Cymraeg), ac ar ei isaf yn ardal Menai o Fangor (18.6%).

2.2 Wardiau

Mae dalgyrch Ysgol Trefferthyr yn cynnwys cartrefi plant dros 3 ward, sef ward Cricieth yn ei chyfanrwydd a darn o wardiau Llanystumdwy a Garndolbenmaen.

Mae proffil ieithyddol y wardiau hyn wedi ei grynhoi yn y tabl isod:

	Cricieth	Dolbenmaen	Llanystumdwy
Hunaniaeth Gymreig yn unig	968 (55%)	725 (59%)	1,392 (66.9%)
Dim hunaniaeth Gymreig	669 (38%)	436 (36%)	580 (27.9%)
Aelwydydd ble mae gan o leiaf un person iaith gyntaf arall i Gymraeg neu Saesneg	16 (0.9%)	8 (0.7%)	6 (0.3%)
Poblogaeth 3+ mlwydd oed	1,716 (98%)	1,181 (97%)	2,017 (97%)
Gallu siarad Cymraeg	1101 (63%)	798 (65%)	1,553 (77%)
Dim sgiliau Cymraeg	446 (25%)	307 (25%)	347 (17.2%)
Gallu deall Cymraeg ar lafar yn unig	141 (8%)	63 (5%)	100 (5%)
Gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg	96 (5%)	65 (5%)	76 (3.8%)
Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg	53 (3%)	35 (2.9%)	64 (3.2%)
Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	949 (54%)	695 (57%)	1,406 (69.7%)
Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg	31 (1.8%)	16 (1.3%)	24 (1.2%)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegol Gwladol

2.3 Ysgol Trefferthyr

Ysgol Cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Trefferthyr.

Dengys y tabl isod bod 45 o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, sydd yn 39% o'r disgyblion (PLASC 2020).

Gwybodaeth ieithyddol ar gyfer Ysgol Trefferthyr

Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl gartref	Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl	Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg o gwbl	Cyfanswm
Trefferthyr	45 (39%)	3 (3%)	10 (9%)	38 (33%)	19 (16%)	116

Ffynhonnell: Data gan Benaethiaid PLASC Ionawr 2020

2.5 Lefel Cyrhaeddiad

Ysgolion	% y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefel disgwylidig – Cymraeg (iaith gyntaf)					
	Cyfnod Sylfaen (Cyrraedd canlyniad 5+)			CA2 (cyrraedd o leiaf lefel 4)		
	2017	2018	2019	2017	2018	2019
Trefferthyr	64.3%	90.9%	78.6%	90.5%	93.3%	88.2%

Ffynhonnell: GwE (Medi 2019)

Gwelwn fod cyrhaeddiad ieithyddol Ysgol Trefferthyr yn 2019 wedi bod yn 88.2% yn CA2 a 78.6% yn y Cyfnod Sylfaen.

Fel rhan o weithredu'r Siarter Iaith, mae holl ddisgyblion CA2 pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn cwblhau holiadur gwe iaith am eu defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol ddwywaith y flwyddyn. Dyma ystadegau Hydref 2018 am y defnydd mae'r disgyblion yn ei wneud o'r Gymraeg gyda'u athrawon:

Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r athrawon (ar wahân i wersi Saesneg)					
	Bob Amser	Yn Aml	Weithiau	Ychydig lawn	Byth
Ysgol Trefferthyr	85%	11%	2%	0%	2%

Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r cymhorthyddion (ar wahân i wersi Saesneg)					
	Bob Amser	Yn Aml	Weithiau	Ychydig lawn	Byth
Ysgol Trefferthyr	79%	13%	4%	2%	2%

Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo gweddill staff yr ysgol					
	Bob Amser	Yn Aml	Weithiau	Ychydig lawn	Byth
Ysgol Trefferthyr	85%	13%	2%	0%	0%

Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo plant yn y dosbarth					
	Bob Amser	Yn Aml	Weithiau	Ychydig lawn	Byth
Ysgol Trefferthyr	30%	26%	34%	8%	2%

Canran y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r plant ar y coridor ac yn y neuadd ginio					
	Bob Amser	Yn Aml	Weithiau	Ychydig iawn	Byth
Ysgol Trefferthyr	19%	23%	34%	19%	7%

Canran y plant sy'n siarad Cymraeg ar iard yr ysgol					
	Bob Amser	Yn Aml	Weithiau	Ychydig iawn	Byth
Ysgol Trefferthyr	13%	26%	26%	13%	22%

Canran y plant sy'n hyderus wrth siarad Cymraeg					
	Hyderus iawn	Hyderus	Gweddol hyderus	Ddim yn hyderus	Ddim yn hyderus o gwbl
Ysgol Trefferthyr	53%	28%	6%	4%	9%

Canran y plant sy'n meddwl ei bod hi'n bwysig siarad Cymraeg					
	Pwysig iawn	Pwysig	Gweddol bwysig	Ddim yn bwysig	Ddim yn bwysig o gwbl
Ysgol Trefferthyr	85%	15%	0%	0%	0%

Nifer o ymatebion: 53

Gwelwn yn ôl y data uchod fod defnydd o'r Gymraeg gyda staff ac yn y dosbarth yn uchel tra fod defnydd anffurfiol o'r iaith – ar yr iard a gyda disgyblion eraill, yn dipyn llai.

2.6 Gweithgareddau ar ôl ysgol

Dyma grynodedb o'r hyn mae Ysgol Trefferthyr yn ei gynnig ar ôl ysgol:

	Trefferthyr
Aelwyd yr Urdd	✓
Bore/Noson Goffi	✓
Cylch Meithrin	✓
Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon	✓

Gwelir yn y tabl uchod fod yr ysgol yn cynnal gweithgareddau Urdd ar ôl ysgol, y gallai'r disgyblion fanteisio arnynt fel cyfle ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg.

2.7 Gweithgareddau Cymunedol

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau tu allan i'r ysgol gan gynnwys Gŵyl Gricieth, cyngherddau yn y Neuadd Goffa, canu mewn cartrefi'r henoed ac Eisteddfodau.

2.8 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020

Mae Ysgol Treferthyr yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar, gan sicrhau bod disgyblion o gefndir Saesneg yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosib.
- Yn y cyfnod sylfaen, adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg fel pwnc yn y tymor olaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gan roi sylw i ddatblygu sgiliau darllen, siarad ac ysgrifennu yn yr iaith honno. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Yn CA2, parhau i ddatblygu meistrolaeth disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Fe fyddai'r gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cyd-fynd ac amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20.

2.9 Tystiolaeth Ychwanegol

Mae gwefan yr ysgol yn nodi:

Gweledigaeth y Llywodraethwyr yw: *"Bod pob disgybl yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n ddinasyddion dwyieithog hyderus, sy'n ymfalchïo yn eu diwylliant Cymreig ac yn eu cenedligrwydd."*

Gweledigaeth y disgyblion yw: *"Mabwysiadwyd cymeriad unigryw ar gyfer y Siarter iaith yn Ysgol Treferthyr. Ei enw yw lei ac mae'n annog disgyblion i fod yn ddwyieithog. Llwyddodd Ysgol Treferthyr i dderbyn achrediad Wobr Aur y Siarter iaith yn nhymor yr haf 2017. Mae'r ysgol yn gweithio er mwyn derbyn ail achrediad Aur yng nghynllun Siarter iaith ym Mehefin 2019."*

Mae adroddiad Estyn yn 2018 yn nodi: *"Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae tua hanner y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref."*

<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Treferthyr.pdf>

3. EFFAITH Y CYNNIG ARFAETHEDIG AR YR IAITH GYMRAEG

Rhagwelir na fyddai symud Ysgol Treferthyr i safle newydd oddi ar y Ffordd A497 ddim yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai cadw'r drefn bresennol gyda'r un strwythur staffio.

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn cynnwys asesiad o effaith adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth ar yr iaith Gymraeg. Mae'r tabl hefyd yn amlinellu'r cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cryfhau'r iaith Gymraeg a dulliau lliniaru unrhyw effaith negyddol a allai ddeillio o'r model.

ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH

	Positif	Niwtral	Negyddol			
Meini Prawf Effaith	Disgrifiad			Statws o'r effaith a'r gwaith	Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif	Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru)
Iaith yr ysgol	Mae Ysgol Treferthyr yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng. Ni fyddai ail-leoli'r ysgol ar safle arall yn cael effaith ar iaith yr ysgol.			Niwtral Dim effaith ar sefyllfa iaith yr ysgol	Amherthnasol	Amherthnasol
Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg	Mae'r ysgol eisoes yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fyddai ail-leoli'r ysgol ar safle arall yn newid hyn.			Niwtral Dim effaith ar sefyllfa'r iaith	Amherthnasol	Amherthnasol
Darpariaeth anstatudol	Rhagwelir byddai ysgol newydd gyda adnoddau modern yn golygu fydd gan ddisgyblion fynediad at ystod ehangach o adnoddau addas ar gyfer gwneud gweithgareddau amrywiol.			Positif	Cyfle i ddatblygu mwy o weithgareddau allgyrsiol ac i annog y disgyblion i gymryd rhan.	Positif
Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol	Rhagwelir byddai ysgol newydd gyda adnoddau modern yn golygu fydd gan ddisgyblion fynediad at ystod ehangach o gyfleusterau addas tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mi all ysgol fwy gyda chyfleusterau newydd modern gynnig mwy o amrediad o weithgareddau allgyrsiol.			Positif Mwy o gyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg	Cyfle i ddatblygu mwy o weithgareddau cyn ac ar ôl ysgol ac i annog y disgyblion i gymryd rhan.	Positif
Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned	Gallai gynyddu'r cyfleon i'r disgyblion gymdeithasu yn y Gymraeg a gall mynediad at fwy o weithgareddau gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg tu allan i'r ysgol ac yn y gymuned. Byddai gweithgareddau cymunedol ar gyfer aelodau o'r gymuned yn gallu cymryd lle yn yr ysgol hefyd.			Positif Mwy o gyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg	Mae potensial i ysgol newydd allu cynnig y cyfle i ddatblygu gweithgareddau ar ôl ysgol i oedolion a phlant fydd yn golygu cyfleoedd ychwanegol iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.	Positif

4. CASGLIAD

Wedi ystyried yr hyn sydd yn yr asesiad hwn, rydym o'r farn y byddai adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg, yn bennaf, oherwydd byddai mwy o gyfleoedd i blant Cricieth ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn addysgiadol, gan bydd yr ysgol newydd yn cynnig gwell adnoddau ar gyfer cynnal mwy o weithgareddau tu allan i oriau ysgol.



Adroddiad Aseiad Llesiant Ysgol Trefferthyr

- Medi 2020

1. **CYFLWYNIAD**
2. **SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?**
3. **A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?**
4. **EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY**
5. **CASGLIAD**

1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Gweledigaeth y Cyngor yw:

Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:	Llewyrchus	Cydnerth	Iachach	Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Yn gyfrifol ar lefel byd-eang
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel							
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau							
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd							
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud							
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl							
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg							
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.							

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r dyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".


1.1 Cyd-destun Ysgol Trefferthyr

Mae Ysgol Trefferthyr wedi'i lleoli yng nghanol tref Cricieth. Mae gan yr ysgol capasiti o 119, gyda 114 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed ar y gofrestr (Medi 2019) a cheir pum dosbarth oed cymysg yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion (104) yn dod o ddalgylch Ysgol Trefferthyr, gyda 10 disgybl ychwanegol yn dod o ddalgylchoedd eraill cyfagos. Cafwyd arolygiad Estyn yn 2018, gyda'r 5 maes arolygu craidd wedi ei asesu yn "Da". Mae'r adolygiad hefyd yn nodi bod y disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned gyda chyfraniad brwdfrydig ganddynt tuag at gyngherddau lleol a Gŵyl Cricieth.

Mae Cyngor Gwynedd wedi sicrhau buddsoddiad mewn egwyddor o 65% gan Lywodraeth Cymru, tuag at brosiect gwerth dros £4.9 miliwn i adeiladu ysgol gynradd newydd yng Nghricieth. Mae hyn yn dilyn arolygon o gyflwr yr adeilad presennol sydd wedi adnabod nifer o ddiffygion sylweddol i adeiladau Ysgol Trefferthyr y byddai angen sylw buan.

Ar ddechrau'r drafodaeth roedd 11 safle posib wedi eu hadnabod i'w ystyried ar gyfer adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth, gyda capasiti ar gyfer 150 disgybl, i gymryd lle ysgol bresennol Ysgol Trefferthyr.

Mae'r lleoliadau y safleoedd i'w gweld yn y map isod:



Bu i'r Adran Addysg a'r Adran Eiddo gyfarfod a chynrychiolaeth o Ysgol Trefferthyr mewn cyfres o gyfarfodydd Panel Adolygu Lleol (PAL) i drafod manteision ac anfanteision y safleoedd ac adnabod unrhyw broblemau oedd yn codi gyda rhai o'r safleoedd.

Canlyniad y trafodaethau oedd y bu i'r aelodau gytuno rhestr fer o 4 safle i'w ystyried ymhellach yn dilyn cyfarfod PAL 2. Gwnaed asesiadau manylach o'r safleoedd rheini yng nghyfarfod PAL 3 gan gytuno i wneud gwaith pellach ar ddau safle posib, sef Safle Capel Uchaf a Safle A497.

Yn dilyn ystyried archwiliadau a gwaith pellach ar y 2 safle yma cytunwyd ar Safle A497 fel safle ffafredig yng nghyfarfod PAL 4.

Mae'r asesiad hwn yn ymwneud ag effaith adleoli Ysgol Trefarthyr i'r safle ffafredig, sef Safle A497 (1) gan hefyd wneud yr un asesiad ar gyfer y safle presennol (10) a safle Capel Uchaf (11) fel cymhariaeth.

2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

Adeiladu ar y Safle Presennol	
Amcanion	Manylion:
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel	Dim effaith
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau	Dim effaith
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd	Dim effaith
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud	Mi fydda adeiladu ysgol newydd modern yn gwella addysg y plant gan fydd adnoddau newydd pwrpasol yn cynnig amgylchedd ddysgu addas ar gyfer cyflwyno'r cwriciwlwm newydd.
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl	Dim effaith
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg	Dim effaith
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir	Dim effaith.

Adeiladu ar y Safle Capel Uchaf.	
Amcanion	Manylion:
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel	Dim effaith
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau	Dim effaith
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd	Dim effaith
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud	Mi fydda adeiladu ysgol newydd modern yn gwella addysg y plant gan fydd adnoddau newydd pwrpasol yn cynnig amgylchedd ddysgu addas ar gyfer cyflwyno'r cwriciwlwm newydd.
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl	Dim effaith
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg	Dim effaith
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir	Dim effaith.

Adeiladu ar Safle A497.

Amcanion	Manylion:
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel	Dim effaith
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau	Dim effaith
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd	Dim effaith
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud	Mi fydda adeiladu ysgol newydd modern yn gwella addysg y plant gan fydd adnoddau newydd pwrpasol yn cynnig amgylchedd ddysgu addas ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd.
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl	Dim effaith
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg	Dim effaith
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir	Dim effaith.

3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

Nod	Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma?	Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma:
<p>Cymru lewyrchus Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith.</p>	<p>Byddai'r cynnig yn golygu fod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau modern fydd yn cynnwys adnoddau newydd cyfoes.</p> <p>Byddai mwy o ofod yn yr ysgol newydd yn cynnig ei hun ar gyfer gallu cynnig mwy o weithgareddau all-gyrsiol yn yr ysgol. Rhagwelir felly y byddai'n cyfoethogi profiadau dysgu a chymdeithasol y disgyblion.</p> <p>Mi fydd yr ysgol newydd yn cyflwyno cyfleoedd i'r gymuned ehangach ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau tu allan i oriau'r ysgol.</p>	<p>Yn ystod y cyfnod ymgynghori bydd cyfle i staff, plant, rhieni a'r gymuned ehangach ddeall mwy am y cynlluniau ac i gynnig sylwadau ar ddyluniad a lleoliad yr ysgol newydd.</p>
<p>Cymru gydnherth Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).</p>	<p>Mae cyfle i ddatblygu ardaloedd ar y safle fydd yn cymhorthi disgyblion i ddysgu am bioamrywiaeth ac ecosystemau iach e.e gardd wyllt.</p>	<p>Dim effaith</p>
<p>Cymru iachach Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol poblystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd.</p>	<p>Mi fydd datblygu ysgol newydd yn gyfle i annog disgyblion i deithio i'r ysgol ar droed neu ar feic.</p> <p>Mi fydd y caeau chwarae a'i hadnoddau yn creu amgylchedd wych i blant gael ymarfer corff.</p>	<p>Dim effaith</p>
<p>Cymru sy'n fwy cyfartal Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).</p>	<p>Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod yma.</p>	<p>Dim effaith</p>
<p>Cymru o gymunedau gydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.</p>	<p>Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod yma.</p>	<p>Dim effaith</p>
<p>Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.</p>	<p>Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn clybiau all-gyrsiol megis yr Urdd a gweithgareddau hamdden.</p> <p>Cyfle i'r gymuned ehangach ddefnyddio'r ysgol ar gyfer gweithgareddau cymunedol e.e côr.</p>	<p>Yn ystod y cyfnod ymgynghori bydd cyfle i staff, plant, rhieni a'r gymuned ehangach gynnig sylwadau ar ddefnydd amgen yr ysgol.</p>
<p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.</p>	<p>Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod yma.</p>	<p>Dim effaith.</p>

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.		
--	--	--

4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

Egwyddorion Datblygu cynaliadwy	A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor?
Hirdymor Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.	Mi fydd creu ysgol newydd yn sicrhau addysg tymor hir mewn ysgol addas i bwrpas yng Nghricieth. Mi fydd yr ysgol yn sicrhau digon o le ar gyfer holl blant y dalgylch i'r dyfodol.
Atal Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.	
Integreiddio Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.	Bydd lleoli gwasanaethau eraill e.e Uned ABC, Anhwylder iaith a blynyddoedd cynnar ar safle'r ysgol newydd yn rhoi cyfle i integreiddio gwasanaethau. Mi fydd y ddarpariaeth newydd hefyd yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i ddatblygu gwasanaethau ar y cyd i'r dyfodol ar gyfer y gymuned ehangach.
Cydweithio Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.	Mi fydd yr adeilad newydd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu mwy o gydweithio gyda chyrff lleol er lles y plant a'r gymuned ehangach.
Cynnwys Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn gwasanaethu.	Bydd y cynnig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus gyda staff, rhieni, plant a'r gymuned ehangach. Mae'r broses hyd yma wedi cynnwys cyfarfodydd adolygu lleol er mwyn ymgysylltu a budd-ddeiliaid perthnasol yr ysgol. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi cynnwys y Corff Llywodraethu, staff, a rhieni Ysgol Trefferthyr. Mi fyddwn yn parhau i gynnwys cynrychiolwyr Ysgol Trefferthyr ar hyd y daith o greu'r ysgol newydd.

5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf Llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf Llesiant ac amcanion Llesiant y Cyngor a deuir i gasgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu Llesiant i'r dyfodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn golygu bydd plant y dalgylch yn cael eu haddysgu mewn ysgol newydd gydag adnoddau fydd yn addas i'r 21ain Ganrif. Rhagwelir fydd yr adnodd yma yn golygu gwell addysg i plant y dalgylch a gwell adnoddau i ddefnydd y gymuned ehangach.



Adroddiad Asesiad Cydraddoldeb Ysgol Trefferthyr

- Medi 2020

1. CYFLWYNIAD
2. OPSIYNAU
3. EFFAITH UNRHYW NEWID
4. DADANSODDI'R CANLYNIADAU
5. CASGLIAD

CYFLWYNIAD


1.1 Cyd-destun Ysgol Trefferthyr

Mae Ysgol Trefferthyr wedi'i lleoli yng nghanol tref Cricieth. Mae gan yr ysgol gapasiti o 119, gyda 114 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd (Medi 2019) a cheir pum dosbarth oed cymysg yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion (104) yn dod o ddalgylch Ysgol Trefferthyr, gyda 10 disgybl ychwanegol yn dod o ddalgylchoedd eraill cyfagos. Cafwyd arolygiad Estyn yn 2018, gyda'r 5 maes arolygu craidd wedi ei asesu yn "Da". Mae'r adolygiad hefyd yn nodi bod y disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned gyda chyfraniad brwdfrydig ganddynt tuag at gyngherddau lleol a Gŵyl Cricieth.

2. OPSIYNAU

2.1 Canlyniad trafodaethau'r cyfarfodydd Panel Adolygu Lleol

Ar ddechrau'r drafodaeth roedd 11 safle wedi eu hadnabod i'w hystyried ar gyfer adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth, gyda chapasiti ar gyfer 150 disgybl i gymryd lle'r ysgol bresennol - Ysgol Trefferthyr.



Bu i'r Adran Addysg a'r Adran Eiddo gyfarfod a chynrychiolaeth o Ysgol Treferthyr mewn cyfres o gyfarfodydd Panel Adolygu Lleol (PAL) i drafod manteision ac anfanteision y safleoedd ac adnabod unrhyw broblemau oedd yn codi gyda rhai o'r safleoedd.

Canlyniad y trafodaethau oedd y bu i'r aelodau gytuno rhestr fer o 4 safle i'w ystyried ymhellach yn dilyn cyfarfod o'r Panel Adolygu Lleol 2. Gwnaed asesiadau manylach o'r safleoedd rheini ac oherwydd problemau nad oedd modd eu goresgyn cytunwyd i ganolbwyntio ar ddau safle posib, sef Safle Capel Uchaf a Safle A497, yn nghyfarfod Panel Adolygu Lleol 3.

Yn dilyn ystyried archwiliadau a gwaith pellach ar y ddau safle yma cytunwyd ar Safle A497 fel y safle ffafredig yng nghyfarfod Panel Adolygu Lleol 4.

Mae'r asesiad hwn yn ymwneud ag effaith adleoli Ysgol Treferthyr i'r safle ffafredig, sef Safle A497.

3. EFFAITH UNRHYW NEWID

Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn?

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Dim	<p>Polisiâu yn eu lle gan yr ysgolion.</p> <p>Ni fyddai gweithredu y cynnig yn effeithio ar bobl ar sail hil. Bydd gweithredu unrhyw gynnig yn golygu fod pawb o unrhyw hil yn cael eu trin yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Treferthyr yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi eu bod yn:</p> <p><i>"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i></p>
Yr iaith Gymraeg	Dim	<p>Ni rhagwelir unrhyw effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg (gweler asesiad ieithyddol ar wahân)</p>
Anabledd	Positif	<p>Polisiâu yn eu lle gan ysgolion.</p> <p>Byddai adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth ar safle A497 yn golygu bydd yr ysgol newydd yn cynnwys adnoddau modern fydd yn addas ar gyfer disgyblion a staff sydd ag unrhyw amhariadau corfforol penodol. Mae rheolau adeiladu ysgolion modern yn datgan fod yn rhaid adeiladu ysgol a fyddai'n addas ar gyfer disgyblion a staff sydd ag amhariadau penodol.</p> <p>Fel awdurdod bydd gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw ddisgyblion sydd ag amhariadau corfforol ar gofnod gan yr Adran Addysg. Byddai asesiad o hygyrchedd y safle arfaethedig yn cael ei gynnal yn unol â sefyllfaoedd penodol.</p>
Rhyw	Dim	<p>Polisiâu yn eu lle gan ysgolion.</p> <p>Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail rhyw. Mae Ysgol Treferthyr yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:</p> <p><i>"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i></p>
Oedran	Dim	<p>Bydd yr ysgol newydd ar gael i'r un ystod oed a'r un presennol. Er fydd yr ysgol yn symud safle mi fydd yr ysgol newydd dal wedi ei leoli yn nhref Cricieth ac o fewn cyrraedd hawdd i plant a rhieni. Mi fydd angen i rai rhieni ddod lawr allt i gyrraedd ond mae hyn yn wir am yr ysgol bresennol hefyd. Credir fydd mynediad i'r ysgol yn mwy hwylus i bobl ar droed a char i gymharu a'r ysgol bresennol gan fod rhaid mynd drwy stad o dai ar hyn o bryd. Mi</p>

		fydd cyrraedd darpariaeth blynyddoedd cynnar cyn-ysgol sydd ar safle yr ysgol newydd llawn mor hwylus a chyrraedd yr ysgol.
Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim	Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Bydd gweithredu'r cynnig yn golygu fod pawb o unrhyw gyfeiriadedd rhywiol yn cael eu trin yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Trefarthyr yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: <i>"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>
Crefydd neu Gred (neu ddiffyg cred)	Dim	Ysgol gymunedol yw Ysgol Trefarthyr ac nid oes bwriad i newid hyn wrth symud i Safle A497. Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail crefydd neu gred. Mae Ysgol Trefarthyr yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: <i>"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>
Ailbennu Rhywedd	Dim	Polisiâu yn eu lle gan ysgolion. Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail ailbennu rhywedd. Bydd gweithredu y cynnig yn sicrhau fod pawb yn cael eu trin yn deg. Mae Ysgol Trefarthyr yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: <i>"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Dim	Dim yn berthnasol.
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Dim	Dim yn berthnasol.

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham- wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	<p>Ni fydd y cynnig yn newid dyletswydd statudol yr ysgol i amddiffyn disgyblion rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Y nod yw rhoi cyfle i'r disgyblion leisio'u barn mewn ffordd sy'n addas ac yn briodol wrth ystyried unrhyw ffactorau sy'n effeithio arnynt.</p> <p>Byddant yn parhau i ddefnyddio Cyngor yr Ysgol, gwersi ABCh, polisiâu gwrth-fwlio a dulliau eraill i sicrhau fod yr ysgol yn gwahardd gwahaniaethau anghyfreithlon aflonyddu ac erledigaeth.</p>
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Nac ydi	Mae gwersi ABCh yn digwydd yn yr ysgol fydd yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.
Meithrin perthnasau da	Nad ydi	Mae gwersi ABCh yn digwydd yn yr ysgol fydd yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.

4. DADANSODDI'R CANLYNIADAU

- 4.1 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Rhagwelir bydd yr effaith yn bositif gan y bydd ysgol newydd yn cynnwys adnoddau modern ar gyfer yr 21ain ganrif fydd yn hwyluso cyfleoedd cyfartal a gwella'r cyfleoedd i feithrin perthynas dda rhwng yr ysgol a'r gymuned.
Mi fydd yr ysgol newydd yn cynnwys adnoddau modern fydd yn addas ar gyfer disgyblion a staff sydd ag unrhyw amhariadau corfforol penodol.
Rhagwelir fydd lleoliad yr ysgol yr un mor hwylus a'r ysgol bresennol ac y bydd cyrraedd yr ysgol newydd yr un mor rwydd, os nad haws.

- 4.2 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nac ydi

- 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau â'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

- 4.4 Os yn parhau gyda'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Er nad ydym yn gweld unrhyw effaith negyddol, byddem yn monitro ac yn gweithredu yn ôl y galw.

- 4.5 Monitro - pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Byddem yn monitro effaith unrhyw newid er mwyn sicrhau fod y deilliannau yn bositif a ddim yn cael unrhyw effaith negyddol.

5. CASGLIAD

Deuir i gasgliad na fyddai adleoli Ysgol Trefferthyr i safle newydd A497 yn effeithio ar gydraddoldeb, boed yn nodweddion neu ddyletswydd cyffredinol.

Rhagwelir y byddai adeiladu ysgol newydd yn cryfhau agweddau cydraddoldeb oherwydd y byddai'n fwy addas ar gyfer addysgu pob plentyn, yn enwedig y rhai ac anableddau, drwy ddilyn canllawiau adeiladu ysgolion modern.

Gweithredir Ysgol Trefferthyr polisiau cydraddoldeb a gwrth-fwlio gadarn fyddai'n parhau i gael eu gweithredu yn yr ysgol newydd.

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	Mai 18, 2021
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Nia Jeffreys
Swyddog Cyswllt:	Geraint Owen
Rhif Ffon Cyswllt:	32335
Teitl yr Eitem:	Cynllun Prentisiaethau A Cynllun Rheolwyr Ac Arbenigwyr Yfory

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Fod y Cabinet yn parhau i gefnogi y Cynllun Prentisiaethau yn ogystal a'r Cynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory drwy briodoli cyfanswm o £1.1m ar gyfer ariannu y cynlluniau i'w dosrannu yn unol a'r adroddiad.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1 A oes cefnogaeth i gyllido'r Cynllun Prentisiaethau dros y dair blynedd nesaf?
- 2.2 A oes cefnogaeth i ganiatáu cyllid ychwanegol er mwyn parhau i ddenu graddedigion fel rheolwyr ac arbenigwyr yfory?

3. CEFNDIR

CYNLLUN PRENTISIAETHAU

Ar 22 Ionawr 2019, fe gymeradwyodd y Cabinet gais i sefydlu Cynllun Prentisiaethau gan ddyrannu cronfa o £300,000 i gyfrannu tuag at recriwtio hyd at 20 o brentisiaid i'r Cyngor.

Pwrpas y Cynllun Prentisiaethau yw hyrwyddo prentisiaethau, recriwtio a prentisiaid a sicrhau ansawdd y prentisiaethau rheini ar draws adrannau'r Cyngor. Mae'r cynllun yn rhan annatod o gynllunio'r gweithlu ac yn cael ei gydnabod yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2021/22 fel rhan o'r flaenoriaeth o gynllunio'r gweithlu.

Yn dilyn yr ymgyrch recriwtio cyntaf yn 2019, cafodd 17 o brentisiaid eu penodi mewn 10 maes gwahanol (Atodiad 1).

Mae un ar ddeg o ferched a chwech o ddynion wedi eu recriwtio. Yr amrediad oed yw - dau brentis o dan 18, un ar ddeg prentis rhwng 18 i 24 a phedwar prentis dros 25.

Erbyn hyn, mae naw prentis wedi derbyn swydd o fewn y Cyngor ond yn parhau i gwblhau eu cymwysterau. Mae un prentis wedi gadael y cynllun yn wirfoddol.

Mae'r niferoedd uchod yn benodiadau mewn meysydd blaenoriaeth gan gynnwys prentisiaethau gradd yn y maes Technoleg Gwybodaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r maes peirianeg sifil, ble rydym wedi recriwtio dwy ferch.

Ar gyfer 2021, bydd y Cyngor yn recriwtio 18 prentis ychwanegol mewn 9 maes (Atodiad 2). Bydd y rhain hefyd yn cael eu cyllido yn rhannol gan y £300,000 gwreiddiol a ddyrannwyd yn 2019. Golyga hyn y bydd y Cyngor wedi recriwtio 35 o brentisiaid efo'r buddsoddiad gafodd ei wneud yn 2019. Mae'r niferoedd yn llawer uwch na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Y prif reswm dros hyn yw bod gwasanaethau ar draws y Cyngor wedi gallu cyfrannu symiau uwch na'r disgwyl tuag at y cyflog ac hynny am resymau amrywiol e.e. tanwariant blynyddol.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dalu cyflog teg i'n prentisiaid, sy'n gyfystyr â'r isafswm cyflog cenedlaethol (Atodiad 3). Mae amcangyfrif cost o gyflogi prentis oddeutu £35,000 dros gyfnod llawn prentisiaeth unigol ac o ganlyniad gellir datgan bod y buddsoddiad o £300,000 wedi bod yn sbardun i fuddsoddiad gwirioneddol o dros £1 miliwn ar y sail bod 35 prentisiaeth wedi'u sefydlu .

Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol wedi buddsoddi arian ychwanegol i'r hyn a ddyfarnwyd hefyd er mwyn sicrhau adnodd digonol i gefnogi'r prentisiaid yn ogystal a gweinyddu'r Cynllun. Golyga hyn oll bod pob ceiniog o'r £300,000 a ddyrannwyd wedi mynd i gyflogi prentisiaid ers lawnsiad y Cynllun yn 2019.

Fel y byddwch yn ymwybodol, cyflwynwyd yr Ardoll Prentisiaethau yn Ebrill 2017 er mwyn annog cyflogwyr a busnesau i fuddsoddi mewn prentisiaethau. Mae pob cyflogwr o fewn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector sydd â bil cyflog o fwy na £3 miliwn y flwyddyn yn talu'r ardoll sydd yn cyfateb a 0.5% o gyfanswm bil cyflog blynyddol y Cyngor.

Mi fydd y Cyngor yn cyfrannu o gwmpas £700,000 i'r ardoll prentisiaethau ar gyfer 2021/22. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfraniad o'r ardoll tuag at gostau cyflogi prentisiaid ond mae'r ardoll yn rhoi mynediad at gostau'r cymwysterau a'r hyfforddiant canlynol:

Prentis - Swyddi newydd sydd wedi eu creu yn benodol ar gyfer bod yn brentis.

Dysgu wrth weithio - Gall yr ardoll ariannu elfennau datblygol swyddi cyfredol.

Yn nyddiau cynnar yr ardoll, roedd pryder nad oedd y Cyngor yn gallu ad-ennill cost yr ardoll trwy hyfforddiant a drefnwyd. Fodd bynnag yn 2019/20, ple cyfrannodd y Cyngor oddeutu £685,000 i'r Ardoll Prentisiaethau, amcangyfrifir bod gwerth swm o £680,000 wedi'i ad-ennill yn sgil cyflwyniad y Cynllun Prentisiaethau a'r hyfforddiant mewn swydd a drefnwyd. Er na fydd y swm gaiff ei hadennill yr un mor uchel ar gyfer 2020/21, rydym yn ffyddiog y gallwn ad-hawlio symiau a fyddai'n o leiaf cyfateb a'r ardoll i'r dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgyrch hyrwyddo llwyddiannus drwy nifer o ddulliau gwahanol gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, erthyglau yn y papurau lleol, wythnos brentisiaethau, paneli prentisiaid a'r ffair prentisiaethau. Yn ystod y cyfnod mae nifer o bobol a grwpiau dylanwadol wedi dangos diddordeb a gwerthfawrogiad o'r Cynllun gan gynnwys y Cabinet, aelod seneddol, Penaethiaid Adran, rheolwyr lleoliad a sefydliadau addysg.

Mae'r adborth gan y rheolwyr a thimau am ein prentisiaid wedi bod yn bositif ac mae'r ymatebion i holiadur a gwblhawyd gan y prentisiaid i asesu eu bodlonrwydd efo'r Cynllun wedi cynnwys disgrifiadau megis "Agoriad llygaid", "Paratoi fi yn dda at swydd", "diddorol, llwyth o brofiadau" a "Heriol".

Er bod diffyg darpariaeth ddwyieithog o ansawdd ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru, yn enwedig ar y lefelau uwch, mae'r Cyngor wedi bod yn flaenllaw yn annog y darparwyr i gynnig y rhan fwyaf o'u darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. I'r perwyl hwn, rydym wedi cyflwyno'r "Datganiad o Uchelgais yr Iaith Gymraeg ar gyfer Prentisiaethau Cyngor Gwynedd" sy'n amlinellu'r disgwyliadau ieithyddol sydd ar y prentis, y Cyngor a'r darparwr. Mae pob darparwr a phrentis wedi arwyddo'r datganiad ac yn ymrwmo i'r disgwyliadau.

CYNLLUN RHEOLWYR AC ARBENIGWYR YFORY

Mae'r Cynllun yma yn bodoli yn ei wahanol ffurf ers blynyddoedd lawer ac wedi'i adnabod fel Cynllun Hyfforddeion Proffesiynol cyn ei ail-frandio yn Gynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory yn 2017. Mae'n rhoi cyfle i raddedigion ddatblygu arbenigedd mewn maes allweddol a dod i ddeall mwy am weithio mewn llywodraeth leol. Mae cystadleuaeth frwd yn flynyddol ar gyfer yr ychydig o gyfleoedd a ddarperir.

Fodd bynnag, yn ôl yn 2015, penderfynwyd dileu y gyllideb refeniw ar gyfer cynnal y Cynllun hwn, hynny fel rhan o'r ymdrech gorfforaethol i wireddu arbedion sylweddol. Mae'r Cynllun wedi parhau ers hynny ar sail yr arbedion a gronwyd oherwydd bod cynifer o'r graddedigion hyn wedi'u penodi i swyddi o fewn y Cyngor cyn i'w cyfnod fel hyfforddeion ddod i ben. Gweler, fel enghraifft, ddadansoddiad yn Atodiad 4 o'r cyfleon a gynigwyd i 14 o raddedigion o dan y Cynllun hwn ers 2017.

Erbyn hyn, mae'r gronfa wrth-gefn wedi gostwng yn sylweddol ac mae'n mynd yn fwy o her yn flynyddol i gynnal y cyfleoedd arbennig yma. Yn bresennol, 'rydym yn hysbysebu 6 cyfle arall fel rhan o'r Cynllun hwn gyda golwg i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddechrau fel hyfforddeion ym mis Gorffennaf eleni. Ni fydd modd cynnig yr un lefel o gyfleoedd i'r dyfodol oni ellir sicrhau buddsoddiad pellach i gynnal y Cynllun.

Mae cost cyfartalog y cyfleon hyn yn fwy costus na'r gost cyfatebol ar gyfer prentisiaid gyda chost cyflogi oddeutu £100,000 yr un dros gyfnod o dair blynedd. Cofier yma eto mai cyfraniad a wneir i gyfanswm y gost ar gyfer y rhan helaethaf o'r hyfforddeion hyn ac felly na fyddai pob hyfforddai yn costio'r swm uchod i'r gronfa ei hun. Gweler dadansoddiad o gost cyflogi un hyfforddai yn Atodiad 5.

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

O ystyried llwyddiant y naill gynllun a'r llall a'u cyfraniad, nid yn unig i gynnig cyflogaeth ac hyfforddiant i bobl ifanc lleol ond hefyd i lenwi bylchau yn ein gweithlu fel Cyngor, cyflwynir cais i glustnodi'r symiau a ganlyn er mwyn sicrhau parhad a datblygiad pellach y Cynllun Prentisiaethau a Chynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory;

Cynllun Prentisiaethau – swm o **£600,000** dros 3 blynedd a fydd yn anelu i gynnig o leiaf 20 prentisiaeth y flwyddyn dros gyfnod yr ariannu ac yn ein galluogi i ddarparu'r gefnogaeth a'r gweinyddiaeth sydd bellach yn mynd yn gynyddol anodd i'w ddarparu o fewn adnoddau. Byddai hyn oll yn ychwanegol i'r 35 prentisiaeth a grewyd eisoes ac yn ein galluogi i ddatblygu ymhellach drwy weithio mwy gyda busnesau bach, contractwyr lleol a mentrau cymunedol i sefydlu a chefnogi swyddi prentisiaethau newydd.

Cynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory – swm o **£500,000** er mwyn atgyfnerthu'r gronfa fyddai'n sicrhau parhad ein gallu i gynnal rhaglen flynyddol o ddenu graddedigion i ddatblygu sgiliau ac ennill cymhwyster ôl-radd gyda'r Cyngor.

Mae'r Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 4 Fawrth eleni, wedi cymeradwyo Cynllun Busnes ar gyfer 2021/22 sydd yn adnabod "Cynllunio'r Gweithlu" fel un o'i flaenoriaethau. Mae'r Cynllun Prentisiaethau yn ogystal a'r Cynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory yn cael eu hystyried yn allweddol i'n gallu i wireddu amcanion y flaenoriaeth honno.

Mae'r cynigion hyn yn cael eu cyflwyno yn sgîl trafodaeth efo'r Pennaeth Cyllid a'r Prif Weithredwr ynglŷn a'r ffynhonnell gyllido. Cadarnhawyd fod modd sicrhau y cyllid un-tro angenrheidiol pe byddai aelodau'r Cabinet yn awyddus, ac yn gefnogol, i'r cais am gyfanswm o £1.1 miliwn er mwyn cynnal ac adeiladu ar y llwyddiant sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad.

Fel nodir yn y rhan 'Corfforaethol' o Atodiad 2 i'r adroddiad 'Alldro Refeniw 2020/21', sy'n eitem arall ar raglen y cyfarfod hwn, derbyniwyd grantiau penodol sylweddol yn sgîl yr argyfwng Covid-19. Gan fod y Cyngor eisoes wedi ariannu amryw elfennau o'r gwariant mewn ymateb i'r argyfwng, mae rhan o'r derbyniad grant yn rhydd a gellid ymrwymo £1.1m ohono i ariannu'r Cynllun Prentisiaethau a Chynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Pe byddai'r Cabinet yn cymeradwyo rhyddhau'r arian yma i bwrpas parhad y naill gynllun a'r llall, byddai'r cyfleon cyntaf yn cael eu cynnig yn ddiweddarach y flwyddyn hon, o ganlyniad i gwblhau'r penodiadau i'r cyfleon sy'n cael eu hysbysebu yn bresennol, yn ogystal a chaniatáu i'r Cyngor ymestyn y ddarpariaeth bresennol am o leiaf y dair blynedd nesaf.

6. UNRHYW YMGYNGHORIAD A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Y Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

Y Pennaeth Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r ffeithiau ariannol ar ddiwedd rhan 4 uchod. Pe byddai'r Cabinet yn blaenoriaethu'r 2 Gynllun, yna gellid ymrwymo £1.1m o'r derbyniad grant i'w ariannu.

ATODIAD 1 – Rhestr Prentisiaethau Cyfredol Cyngor Gwynedd

RHIF	TEITL	ADRAN	LEFEL	PENODIAD
1	Prentis Gradd Ddigidol	Cyllid	Gradd (Lefel 6)	2
2	Prentis Peirianeg Sifil	YGC	Prentisiaeth (Lefel 3)	2
3	Prentis Cyswllt Cwsmer a Chofrestru	Cefnogaeth Gorfforaethol	Prentisiaeth (Lefel 3)	2
4	Prentis Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata	Byw'n Iach	Prentisiaeth (Lefel 3)	1
5	Prentis Maes Gofal Oedolion	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Sylfaenol (Lefel 2)	2
6	Prentis Maes Gofal Oedolion Uwch	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Uwch (Lefel 5)	2
7	Prentis Maes Gofal Plant	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Sylfaenol (Lefel 2)	2
8	Prentis Peirianeg Sifil	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Prentisiaeth (Lefel)	1
9	Prentis Gwaith Ieuenctid	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Sylfaenol (Lefel 2)	1
10	Prentis Busnes a Gweinyddiaeth	Cefnogaeth Gorfforaethol	Prentisiaeth (Lefel 3)	2

ATODIAD 2 – Rhestr Prentisiaethau Newydd 2021

RHIF	TEITL	ADRAN	LEFEL	CYTUNDEB	SWYDDI
1	Prentis Cyswllt Cwsmer a Chofrestru	Cefnogaeth Gorfforaethol	3	2	1
2	Prentis Gofal Plant	Plant a Theuluoedd	3	2	2
3	Prentis Maes Gofal Oedolion (Gogledd)	Oedolion, Iechyd a Llesiant	2	2	1
4	Prentis Maes Gofal Oedolion (De)	Oedolion, Iechyd a Llesiant	2	2	1
5	Prentis Busnes a Gweinyddiaeth	Cefnogaeth Gorfforaethol	3	2	1
6	Prentis Maes Anableddau Dysgu – Preswyl	Oedolion, Iechyd a Llesiant	3	2	1
7	Prentis Maes Anableddau Dysgu – Cefnogol	Oedolion, Iechyd a Llesiant	5	2	1
8	Prentis Peirianeg Sifil	YGC	3	2	1
9	Prentis Gradd Ddigidol	Cyllid	6	3	1
10	Prentis Trydanwr Golau Stryd	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	3	3	2
11	Prentis Peirianeg Sifil	NMWTRA	3	2	2
12	Prentis Busnes ac Ansawdd	NMWTRA	3	3	1
13	Prentis Gradd Diogelwch Seibr	NMWTRA	6	3	1
14	Prentis Peirianeg Sifil	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	3	2	1
15	Prentis Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol	Byw'n Iach	3	2	1

ATODIAD 3 – Graddfa Prentis Cyngor Gwynedd 2021/22



Oed y Prentis	Tal yr awr	Cyflog Blynyddol i'r Unigolyn	Cyfraniad Pensiwn Blynyddol	Cyfraniad NI Blynyddol	Cyfanswm Cost Flynyddol i'r Cyngor	Cyfanswm Cost Cytundeb 2 flynedd	Cyfanswm Cost Cytundeb 3 flynedd
16 – 18	£4.62	£8,913.27	£1,818.31	Dim Talu NI	£10,731.58	£21,463.16	£32,194.74
18 – 20	£6.56	£12,656.08	£2,581.84	Dim Talu NI	£15,237.92	£30,475.84	£45,713.76
21 – 22	£8.36	£16,128.78	£3,290.27	£1,005.85	£20,424.90	£40,849.80	£61,274.70
23+	£8.91	£17,189.88	£3,506.74	£1,152.28	£21,848.90	£43,697.80	£65,546.70

Mae'r raddfa uchod yn gyfwerth â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

ATODIAD 4 – Rheolwyr / Arbenigwyr Yfory ers 2017

Nifer o Hyfforddeion - 14

Enw a Swydd	Adran / Gwasanaeth	Cyfnod	Cymhwyster(au)	Sefyllfa
Hyfforddai Rheoli	Corfforaethol	2017 – 2019	Diploma CMI Lefel 7 mewn Rheoli ac Arweinyddiaeth Strategol Prifysgol	Mewn swydd Arweinydd Trawsffurfio Iechyd a Gofal (Gorllewin) Adran Oedolion
Hyfforddai Rheoli	Corfforaethol	2017 – 2019	Diploma CMI Lefel 7 mewn Rheoli ac Arweinyddiaeth Strategol Prifysgol Bangor	Mewn swydd Cymhorthydd Technegol YGC
Hyfforddai Rheoli	Corfforaethol	2018 – 2021	Diploma CMI Lefel 7 mewn Rheoli ac Arweinyddiaeth Strategol Prifysgol Bangor	Ar secondiad Uwch Swyddog Prosiect OI-16 Adran Addysg
Hyfforddai Rheoli	Corfforaethol	2018 – 2021	Diploma CMI Lefel 7 mewn Rheoli ac Arweinyddiaeth Strategol Prifysgol Bangor	Mewn swydd Swyddog Data Gwastraff/ Ailgylchu
Hyfforddai Caffael	Cefnogaeth Gorfforaethol Caffael	2018 - 2020	Diploma CIPS Lefel 4, 5 a 6 Grwp Llandrillo	Mewn swydd Arbenigwr Categori Corfforaethol
Hyfforddai Gwybodaeth	Cefnogaeth Gorfforaethol Ymchwil a Gwybodaeth	2018 - 2021	Cyfraith ac Ymarfer Hawliau Gwybodaeth (LLM) – Gradd Meistr Prifysgol Northumbria	Ar y cynllun
Hyfforddai Nyrs	Cefnogaeth Gorfforaethol Iechyd, diogelwch a Lles	2019 - 2021	Diploma Nyrs Iechyd Galwedigaethol Prifysgol Birmingham	Mewn swydd Nyrs Iechyd Galwedigaethol
Hyfforddai Cofrestru	Cefnogaeth Gorfforaethol Cyswllt Cwsmer a Chofrestru	2019 - 2021	NAP Rhaglen wedi'i achredu yn genedlaethol ar gyfer Swyddogion Cofrestru	Ar y cynllun Cytundeb wedi ymestyn i 2022
Hyfforddai Llesiant	Oedolion, Iechyd a Llesiant Anabledau Dysgu	2019 - 2022	Gradd Meistr mewn Gweinyddiaeth Cyhoeddus(MPA) Prifysgol Birmingham	Ar y cynllun
Hyfforddai Cyllid	Cyllid	2019 - 2022	CIPFA Lefel 7	Ar y cynllun
Hyfforddai Iechyd, Diogelwch a Llesiant	Cefnogaeth Gorfforaethol Iechyd a Diogelwch	2020 - 2022	NEBOSH Iechyd a Diogelwch	Ar y cynllun Wedi derbyn swydd newydd
Hyfforddai Rheolaeth Cefn Gwlad	Amgylchedd Traffig a Phrosiectau	2020- 2023	MSc Rheoli Bywyd Gwyllt a Chadwraeth Prifysgol Glasgow	Ar y cynllun
Hyfforddai Syrfëwr Diogelwch Eiddo	Tai ac Eiddo Diogelwch Eiddo	2020- 2023	MSc Archwilio Adeiladau Masnachol John Moores	Ar y cynllun
Hyfforddai Cyfreithiol	Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol Gwasanaeth Gyfreithiol	2020 - 2022	Cwrs Sgiliau Proffesiynol Prifysgol y Gyfraith	Ar y cynllun

ATODIAD 5 – Cost Cyflogi Rheolwr Neu Arbenigwr Yfory (2020/21)

GRADDFA	S2	PENSIWN	NI	CYFANSWM BLYNYDDOL
Blwyddyn 1	£24,982.00	£5,595.97	£2,023.54	£32,601.51
Blwyddyn 2	£25,481.00	£5,707.74	£2,063.96	£33,252.71
Blwyddyn 3	£25,991.00	£5,821.98	£2,105.27	£33,918.26

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y Cyfarfod: 18 Mai 2021
Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Catrin Wager
Swyddog Cyswllt: Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Rhif Ffôn Cyswllt: 32402
Teitl yr Eitem: Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet:

- Gymeradwyo ymgymryd â'r broses o ystyried cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) mewn perthynas â rheoli cŵn ledled y Sir yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig drafft a atodir (atodiad 1).
- Awdurdodi'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol i ymgymryd â phroses ymgynghori am gyfnod o 28 diwrnod gan gychwyn ar 24 Mai 2021, gan ddychwelyd y mater i'r Cabinet am benderfyniad ynghylch a cyflwyno GDMC rheoli cŵn, yn ogystal ag unrhyw ddirprwyaeth gysylltiol.

Y rheswm pam bod angen penderfyniad:

- Swyddogaeth Awdurdodau Lleol a neb arall yw creu GDMC. Yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod Lleol, mae creu gorchymyn o'r fath yn swyddogaeth weithredol a'r Cabinet sy'n gyfrifol amdano.

2. CYFLWYNIAD

Mae Deddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 ("Deddf 2014") yn darparu fframwaith o rymoedd i unigolion a sefydliadau er mwyn gallu taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus. Mae'r Deddf yn rhoi'r grym i Awdurdodau Lleol gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ("GDMC") i ymdrin â niwsans(au) neu broblem(au) penodol mewn mannau penodol. Ymddygiadau y pennir eu bod yn cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd cymunedau lleol yw'r ymddygiadau problemus hyn. Gall gorchymynion o'r fath barhau am hyd at 3 blynedd.

Mae ymddygiadau o'r fath yn gallu cwmpasu, ymhlith materion eraill, ymddygiadau yn gysylltiedig â rheoli cŵn.

Cyn gwneud gorchymyn o'r fath rhaid i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon –

- bod sail resymol dros gredu fod y gweithgareddau hyn mewn man cyhoeddus wedi cael, neu yn debygol o gael, effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn y cyffiniau;
- bod y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod yn fynych ac yn barhaus eu natur;
- bod y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod yn afresymol; a
- eu bod yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a nodir.

Yn ogystal, cyn gwneud gorchymyn mae rhaid i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â'r Heddlu a'r gymuned ehangach.

Mae GDMC yn gweithio drwy alluogi i ymddygiadau gael eu herio a rhoi cyfle i'r unigolyn ddod â'r gweithgaredd i ben yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Os nad oes modd gwneud hyn mae modd cymryd camau gorfodaeth, gan gynnwys cyflwyno rhybudd cosb benodedig a/neu dwyn erlyniad am y drosedd o fethu â chydymffurfio â gofyniad neu waharddiad mewn GDMC.

3. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Argymhellir cyflwyno GDMC rheoli cŵn o'r newydd fel y gall yr Awdurdod ddefnyddio'r hyblygrwydd ehangach i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol o dan Ddeddf 2014 i'w llawn botensial yng nghyswllt rheoli cŵn.

Cyn i ddarpariaethau Ddeddf 2014 ddod i rym, roedd grymoedd yr Awdurdod Lleol i daclo problemau yn ymwneud â rheoli cŵn yn tarddu o'r Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 ("Deddf 2005") a'r Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) OS 2007/702. Yn unol â'r darnau hyn o ddeddfwriaeth, ar 13 Mawrth 2013 gwnaeth yr Awdurdod y Gorchmynion Rheoli Cŵn canlynol:

- Gorchymyn Gwahardd Cŵn (Cyngor Gwynedd) 2013
- Gorchymyn Baeddu Tir Gan Gŵn (Cyngor Gwynedd) 2013
- Gorchymyn Cŵn ar Dennyn drwy Gyfarwyddyd (Cyngor Gwynedd) 2013

O dan y Gorchmynion Rheoli Cŵn hyn cyflwynwyd cyfyngiadau a gofynion amrywiol ledled y Sir mewn perthynas â rheoli cŵn. Roedd rhain yn cynnwys gwahardd cŵn o ardaloedd penodol ar adegau penodol o'r flwyddyn, gwahardd baeddu tir gan gŵn gydol y flwyddyn, a gwneud hi'n orfodol cadw ci ar dennyn mewn manau penodol gydol y flwyddyn. Gorfodwyd diffyg cydymffurfiaeth â'r gorchmynion hyn drwy gyflwyno rhybudd cosb benodedig ac erlyn am y drosedd o ddiffyg cydymffurfiaeth â'r gorchymyn.

Argymhellir bod angen GDMC gan nad yw'r hen Orchmynion Rheoli Cŵn bellach yn cyrraedd safonau'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf. Yn benodol, mae cynnwys yr ymddygiadau rheoli cŵn y mae'r gorchmynion o 2013 yn rheoli wedi eu cyfyngu i'r ymddygiadau penodol a ragnodwyd yn OS 2007/702; yn achos Gwynedd yr ymddygiadau dan sylw oedd gadael i gi fynd ar ddarn o dir penodol, gadael i gi faeddu, a gadael ci i grwydro heb fod ar dennyn pan fo swyddog wedi rhoi cyfarwyddyd fel arall.

Bydd GDMC o'r newydd yn rhoi cyfle i'r Awdurdod ailddiffinio a rheoli'r ymddygiadau rheoli cŵn yn unol â'r hyn sydd wir yn achosi problemau gwrthgymdeithasol yn y Sir.

Mae'r Adran wedi bod yn ymgynghori'n fewnol am y bwriad i gyflwyno GDMC sy'n cydfynd â'r trefniadau a oedd yn y Gorchmynion Rheoli Cŵn. Mae mewnbwn cychwynnol wedi dod i law oddi wrth yr Adrannau Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Addysg, Amgylchedd, Economi a Chymuned (Morwrol) ac oddi wrth gwmni Byw'n Iach Cyf. Ar y cyfan, mae nifer o'r adrannau yn hapus gyda natur yr hen Orchmynion ac yn gofyn i'r un amodau gael eu cynnwys mewn GDMC. Fodd bynnag, mae ceisiadau wedi dod i law yn gofyn am rai trefniadau gwahanol i'r rhai fu yn y Gorchmynion Rheoli Cŵn, sef:

Lleoliad	Trefniadau o dan y Gorchmynion Rheoli Cŵn	Trefniadau arfaethedig
Traeth Tywyn	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng man i'r gorllewin o Ffordd Warwig (Warwick Place Road) a man i'r gorllewin o ben gogleddol Plas Edwards	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng man i'r gorllewin o Ffordd Warwig (Warwick Place Road) a man i'r gorllewin o Ffordd y Pier (Pier Road)
Friog	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng 'pillbox' yn ne'r traeth a man i'r gorllewin o'r maes golff	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng man i'r de o'r 'pillbox' yn ne'r traeth a man i'r gorllewin o gyffordd Ffordd y Traeth
Criccieth - Marine	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y cyfan o'r traeth	Dim gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth
Abersoch	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng yr harbwr a man i'r dwyrain o Lôn Golff	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng Pen Bennar a man i'r dwyrain o Lôn Golff
Porthor	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y cyfan o Draeth Porthor	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar Draeth Porthor i'r dwyrain o Gaffi Porthor

Mae'r Gorchmyn Drafft yn ymgorffori'r trefniadau arfaethedig yn y tabl uchod; fel arall y mae'r cynnwys yn seiliedig ar gynnwys yr hen Orchmynion Rheoli Cŵn. Mae mapiau yn arddangos yr ardaloedd gwahardd cŵn arfaethedig wedi eu cynnwys gyda'r Gorchmyn Drafft yn atodiad 1.

Mae asesiad cydraddoldeb a baratowyd yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi ei atodi (atodiad 2). Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn dilyn yr ymgynghoriad statudol a chyn dychwelyd i Gabinet am benderfyniad terfynol.

Yn unol ag argymhellion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'r adroddiad hwn wedi ystyried egwyddorion y ddeddfwriaeth, ac yn benodol y cysyniad o'r pum ffordd o weithio fel y dangosir isod:

Hirdymor: Bydd y GDMC yn parhau mewn lle am 3 blynedd gyda'r bwriad o newid agweddau pobl tuag at eu hymddygiad mewn mannau cyhoeddus o ran rheoli cŵn. Yn y tymor hirach gobeithir y bydd hyn yn cyfrannu tuag at agweddau a pharch mwy cyfrifol tuag at warchodaeth o'n cymunedau a dealltwriaeth o'r angen i ystyried yr effaith ar eraill.

Atal: Bydd GDMC yn helpu i leihau'r niferoedd o ymddygiadau gwrthgymdeithasol o ran rheoli cŵn ac yn help i atal y sefyllfa rhag dirywio yn y dyfodol.

Integreiddio: Mae'r GDMC yn cyfarch nodweddion nifer o sefydliadau (Adran Priffyrdd, Adran Addysg, cynghorau cymuned). Bydd hefyd yn cyfrannu at amcanion yr Heddlu sef lleihau troseddau a gwneud y strydoedd a llefydd cyhoeddus yn fwy diogelu i drigolion ac ymwelwyr ac at uchelgais yr Awdurdod o weld cymunedau sy'n llwyddo a ffynnu.

Cydweithio: Byddai'r datblygiad yma yn rhan o gydweithio drwy ymgynghori gydag aelodau'r Awdurdod, adrannau o'r Awdurdod, yr Heddlu, cynghorau cymuned a grwpiau cymunedol.

Cynnwys: Mae adrannau amrywiol o'r Awdurdod wedi bod ynghlwm â thrafodaethau cychwynol, a bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn digwydd cyn penderfyniad terfynol ar y cais.

Bydd angen ystyried effaith y gorchmynion newydd ar gapasiti y Tîm Gorfodaeth a gall olygu cyflogi Warden parhaol ychwanegol. Bydd yr Adran yn ystyried hyn ymhellach gan adrodd yn ôl i'r Cabinet am benderfyniad.

Mae'r Gorchymyn Arfaethedig drafft ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r union fesurau fu mewn lle o dan yr hen Orchmynion Rheoli Cŵn. Fodd bynnag, mae'r drafft yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu (ac os cynghorir felly, ei diwygio) yn dilyn yr ymgynghoriad a chyn dychwelyd i Gabinet am benderfyniad terfynol.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Y Cabinet i gymeradwyo mewn egwyddor i barhau â'r broses o ystyried cyflwyno GDMC rheoli cŵn i'r Sir yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig.

Os cymeradwyir yr uchod, rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal ymgynghoriad.

Rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r Gorchymyn Arfaethedig, a bydd angen i hwn fod yn ei le am 28 diwrnod. Cynhelir yr ymgynghoriad hwn drwy amryw ddulliau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ohebu yn uniongyrchol gyda rhan-ddeiliaid allweddol (e.e. Heddlu, cynghorau cymuned), a thrwy safle we'r Awdurdod.

Wedi'r ymgynghoriad bydd swyddogion yr Awdurdod Lleol yn cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad i'r Cabinet, yn argymhell unrhyw ddiwygiadau i'r drafft gorchymyn ar sail yr ymgynghoriad hwnnw, ac yn cynghori a ydynt yn dal i argymhell y Gorchymyn Arfaethedig.

Bydd rhaid ail osod arwyddion er adlewyrchu y gorchymyn newydd a rhagweler cost un tro o £15k - £20k i'w ail osod. Sut bynnag, gall yr ymgynghoriad amlygu gofynion ychwanegol pellach ac o bosib bydd hyn yn golygu cost cyflogi swyddog parhaol er mwyn eu gwireddu. Byddwn yn gallu cadarnhau a chyflwyno sylw pellach yn yr adroddiad fydd yn dilyn y gwaith hwn.

Os ydynt yn dal i argymhell y Gorchymyn Arfaethedig, bydd yr Awdurdod Lleol yn mynd ati i wneud y Gorchymyn Arfaethedig a chodi arwyddion.

5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A WNAED CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Mae'r ymgynghoriadau hyd yma yn unol â'r hyn a nodir yn yr adroddiad. Bydd angen ymgynghoriad cyhoeddus statudol pellach cyn dychwelyd i'r Cabinet am benderfyniad terfynol.

Atodiadau

Atodiad 1 - Gorchymyn Arfaethedig Drafft

Atodiad 2 - Asesiad Cydraddoldeb

6. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi cynorthwyo gyda'r adroddiad yma, dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Y penderfyniad a geisir yw lansio ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â sut dylai'r Cyngor arddel ei rym i osod cyfyngiadau yn unol â deddfwriaeth. Yn hynny o beth, nid oes gennyf sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol, gan ddisgwyl y byddai unrhyw gostau ynghlwm â'r ymgynghoriad yn cael eu hariannu o gyllidebau presennol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, os bydd y Cabinet yn ystyried y mater ymhellach er mwyn dod i benderfyniad ar osod gorchymynion, bydd angen ystyriaeth lawn o'r costau gweithredu ychwanegol bryd hynny.

CYNGOR GWYNEDD

DEDDF YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL, TROSEDD A PHLISMONA 2014

GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CYNGOR GWYNEDD (RHEOLI CŴN) 2021

Mae Cyngor Gwynedd (“y Cyngor”), drwy arfer y grym a roddwyd iddo gan adran 59 o’r Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014 (“y Ddeddf”), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Enw’r Gorchymyn hwn yw y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd (Rheoli Cŵn) 2021.
2. Daw y Gorchymyn hwn i rym ar [XXXX] a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o 3 blynedd tan [XXXX] oni bai y caiff yn y cyfamser ei ddiwyo, ei ddiwygio, neu ei ymestyn gan Orchymyn pellach yn unol â grymoedd statudol y Cyngor.

Gwahardd cŵn

3. Mae erthygl 4 yn gymwys i’r tir a bennir yn Atodlen 1.
4. (1) Yn ystod yr amserau a bennir yn Atodlen 2, gwaherddir person sydd â chyfrifoldeb dros gi rhag mynd â’r ci hwnnw ar unrhyw dir y mae’r erthygl hon yn gymwys iddo, neu rhag caniatáu i’r ci fynd ar neu aros ar y tir hwnnw, oni bai –
 - (a) bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros wneud hynny; neu
 - (b) bod y perchennog, meddiannydd neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu yn benodol) i’r person hwnnw wneud hynny.
- (2) Nid oes unrhywbeth yn yr erthygl hon yn gymwys i berson –
 - (a) sydd wedi ei gofrestru fel person dall mewn cofrestr a luniwyd o dan adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948; neu
 - (b) sydd yn fyddar, mewn perthynas â chi wedi ei hyfforddi gan Hearing Dogs for Deaf People (elusen gofrestredig rhif 293358) ac y mae’r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth; neu
 - (c) sydd ag anabledd sydd yn effeithio ar ei symudedd, ei ddehurwydd llaw, ei gydlynedd corfforol neu ei allu i godi, i gario, neu symud fel arall teclynnau pob dydd, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen ragnodedig ac y mae’r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.

(3) At ddibenion yr erthygl hon –

(a) cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar unrhyw deg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;

(b) mae pob un o'r canlynol yn "elusen ragnodedig" –

(i) Dogs for the Disabled (elusen gofrestrdig rhif 700454);

(ii) Support Dogs (elusen gofrestrdig rhif 1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (elusen gofrestrdig rhif 803680).

Baeddu tir gan gŵn

5. Mae erthygl 6 yn gymwys i'r tir a bennir yn Atodlen 3.

6. (1) Os yw person sydd â chyfrifoldeb dros gi yn achosi neu yn gadael i'r ci hwnnw fawa ar unrhyw adeg ar dir y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo, bydd gofyn i'r person hwnnw symud y baw ci oddi ar y tir ar unwaith, oni bai –

(a) bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu

(b) bod y perchennog, meddiannydd neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu yn benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud hynny.

(2) Nid oes unrhywbeth yn yr erthygl hon yn gymwys i berson –

(a) sydd wedi ei gofrestru fel person dall mewn cofrestr a luniwyd o dan adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948; neu

(b) sydd ag anabledd sydd yn effeithio ar ei symudedd, ei ddeheurwydd llaw, ei gydlynedd corfforol neu ei allu i godi, i gario, neu symud fel arall teclynnau pob dydd, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen ragnodedig ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.

(3) At ddibenion yr erthygl hon –

(a) cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar unrhyw deg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;

(b) bydd gosod y baw ci mewn cynhwysydd a ddarperir ar y tir at y diben hwnnw, neu ar gyfer gwaredu gwastraff, yn symud ymaith digonol oddi ar y tir;

(c) ni fydd bod yn anymwybodol o'r baw (p'un ai oherwydd peidio â bod yn y cyffiniau ai peidio), na bod heb declyn i symud y baw ci ymaith neu ddull arall addas o wneud hynny yn esgus rhesymol dros fethu â symud y baw ci ymaith;

(d) mae pob un o'r canlynol yn "elusen ragnodedig" –

(i) Dogs for the Disabled (elusen gofrestrdig rhif 700454);

(ii) Support Dogs (elusen gofrestrdig rhif 1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (elusen gofrestrdig rhif 803680).

Cŵn ar dennyn drwy gyfarwyddyd

7. Mae erthygl 8 yn gymwys i'r tir a bennir yn Atodlen 3.

8. (1) Ar bob adeg ac ar dir y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo, bydd gofyn i berson sydd â chyfrifoldeb dros gi gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan berson awdurdodedig i roi a chadw'r ci ar dennyn nad yw yn hwy na 2 o fetrau, oni bai –

(a) bod gan y person hwnnw esglus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu

(b) bod y perchennog, meddiannydd neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu yn benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud hynny.

(2) At ddibenion yr erthygl hon –

(a) cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar unrhyw deg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;

(b) ni chaiff person awdurdodedig roi cyfarwyddyd dan yr erthygl hon i roi ci ar dennyn a'i gadw arno oni fo'r cyfryw lyffethair yn rhesymol angenrheidiol i atal niwsans neu ymddygiad gan y ci sydd yn debygol o beri aflonyddwch i unrhyw berson arall neu o darfu arno ar unrhyw dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo neu beri trafferth i unrhyw anifail neu unrhyw aderyn neu o aflonyddu arnynt.

(3) Yn yr erthygl hon ystyr "person awdurdodedig" yw person sydd wedi ei awdurdodi yn ysgrifenedig gan y Cyngor at ddibenion rhoi cyfarwyddiadau o dan yr erthygl hon.

Cosb

9. Bydd person sydd yn gwneud unrhywbeth y gwaherddir ef rhag ei wneud gan y Gorchymyn hwn, neu yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad oddi tano, yn euog o drosedd o dan adran 67 o'r Ddeddf ac yn agored, o'i gollfarnu yn ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Herio'r Gorchymyn

10. Yn unol ag adran 66 o'r Ddeddf, gall unrhyw berson â diddordeb sydd yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y grym i wneud y Gorchymyn neu bod diffyg cydymffurfiad â gofyniad o'r Ddeddf wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o'r dyddiad y gwnaethpwyd y Gorchymyn.

DRAFFET

GWYNEDD COUNCIL

ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR, CRIME AND POLICING ACT 2014

GWYNEDD COUNCIL (DOG CONTROL) PUBLIC SPACES PROTECTION ORDER 2021

Gwynedd Council (“the Council”), in exercise of the powers conferred upon it by section 59 of the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014 (“the Act”), makes the following Order:

1. The name of this Order is the Gwynedd Council (Dog Control) Public Spaces Protection Order 2021.
2. This Order comes into force on [XXXX] and shall remain in force for a period of 3 years until [XXXX] unless in the meantime it is revoked, amended or extended by further Order in accordance with the Council’s statutory powers.

Dogs exclusion

3. Article 4 applies to the land specified in Schedule 1.
4. (1) During the times specified in Schedule 2, a person in charge of a dog shall be prohibited from taking that dog on to land to which this article applies, or from allowing the dog to enter or to remain on that land, unless –
 - (a) that person has a reasonable excuse for doing so; or
 - (b) the owner, occupier or other person or authority having control of the land has consented (generally or specifically) to that person doing so.
- (2) Nothing in this article applies to a person who –
 - (a) is registered as a blind person in a register compiled under section 29 of the National Assistance Act 1948; or
 - (b) is deaf, in respect of a dog trained by Hearing Dogs for Deaf People (registered charity number 293358) and upon which that person relies for assistance; or
 - (c) has a disability which affects that person’s mobility, manual dexterity, physical coordination or ability to lift, carry or otherwise move everyday objects, in respect of a dog trained by a prescribed charity and upon which that person relies for assistance.
- (3) For the purposes of this article –
 - (a) a person who habitually has a dog in their possession is taken to be in charge of the dog at any time unless at that time some other person is in charge of the dog;

(b) each of the following is a “prescribed charity” –

(i) Dogs for the Disabled (registered charity number 700454);

(ii) Support Dogs (registered charity number 1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (registered charity number 803680).

Fouling of land by dogs

5. Article 6 applies to the land specified in Schedule 3.

6. (1) If a person who is in charge of a dog causes or allows that dog to defecate at any time on land to which this article applies, that person shall remove the faeces from the land forthwith, unless —

(a) that person has a reasonable excuse for failing to do so; or

(b) the owner, occupier or other person or authority having control of the land has consented (generally or specifically) to that person failing to do so.

(2) Nothing in this article applies to a person who –

(a) is registered as a blind person in a register compiled under section 29 of the National Assistance Act 1948; or

(b) has a disability which affects that person’s mobility, manual dexterity, physical coordination or ability to lift, carry or otherwise move everyday objects, in respect of a dog trained by a prescribed charity and upon which that person relies for assistance.

(3) For the purposes of this article –

(a) a person who habitually has a dog in their possession is taken to be in charge of the dog at any time unless at that time some other person is in charge of the dog;

(b) placing the faeces in a receptacle on the land which is provided for the purpose, or for the disposal of waste, shall be a sufficient removal from the land;

(c) being unaware of the defecation (whether by reason of not being in the vicinity or otherwise), or not having a device for or other suitable means of removing the faeces shall not be a reasonable excuse for failing to remove the faeces;

(d) each of the following is a “prescribed charity” –

(i) Dogs for the Disabled (registered charity number 700454);

(ii) Support Dogs (registered charity number 1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (registered charity number 803680).

Dogs on lead by direction

7. Article 8 applies to the land specified in Schedule 3.
8. (1) At all times and on land to which this article applies, a person in charge of a dog shall be required to comply with any direction given by an authorised person to put and keep the dog on a lead of not more than 2 metres in length, unless –
 - (a) that person has a reasonable excuse for failing to do so; or
 - (b) the owner, occupier or other person or authority having control of the land has consented (generally or specifically) to that person failing to do so.
- (2) For the purposes of this article –
 - (a) a person who habitually has a dog in their possession is taken to be in charge of the dog at any time unless at that time some other person is in charge of the dog;
 - (b) an authorised person may only give a direction under this article to put and keep a dog on a lead if such restraint is reasonably necessary to prevent a nuisance or behaviour by the dog likely to cause annoyance or disturbance to any other person on any land to which this article applies or the worrying or disturbance of any animal or bird.
- (3) In this article an “authorised person” means a person who is authorised in writing by the Council for the purpose of giving directions under this article.

Penalty

9. A person who does anything that he is prohibited from doing by this Order, or fails to comply with any requirement therein, shall be guilty of an offence under section 67 of the Act and shall be liable, upon summary conviction, to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

Challenging the Order

10. In accordance with section 66 of the Act, any interested person who wishes to challenge the validity of this Order on the grounds that the Council did not have the power to make the Order or that a requirement under the Act has not been complied with may apply to the High Court within 6 weeks from the date upon which the Order is made.

Llofnodwyd y diwrnod o 2021
Signed the day of 2021

GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR GWYNEDD)

AR HWN YM MHRESENOLDEB)

)

THE COMMON SEAL OF GWYNEDD COUNCIL)

WAS HEREUNTO FIXED IN THE PRESENCE OF)

)



Llofnodydd awdurdodedig

Authorised signatory

DRAFT

ATODLENNI

ATODLEN 1

Tir a bennir yn Atodlen 1:

1. Yr holl dir a ddisgrifir yn yr Atodlen ganlynol sydd yn dir yn gorwedd o fewn ardal weinyddol y Cyngor –
 - (i) sydd yn agored i'r awyr (sydd yn cynnwys unrhyw dir dan do os yw yn agored i'r awyr ar o leiaf un ochr); ac
 - (ii) y mae gan y cyhoedd hawl neu ganiatâd i gael mynediad iddo (gyda neu heb daliad); ac
 - (iii) sydd wedi ei arwyddo wrth ei fynedfa/mynedfeydd fel "Ardal Eithrio Cŵn" (os yw'r arwydd yn defnyddio'r geiriau penodol hynny neu eiriau ac/neu symbolau gyda'r un effaith).
2. Pob lle chwarae plant.
3. Pob tir hamdden o fewn ffiniau ysgolion, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch.
4. Pob maes chwarae wedi ei marcio ble mae gan y cyhoedd ganiatâd neu hawl mynediad a thir o fewn 2 fetr i'r chwaraefa.
5. Yr holl gyfleusterau chwaraeon yn y sir, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) canolfannau hamdden, parciau pêl aml-ddefnydd, cyrtiau tenis, lawntiau bowlio, traciau seiclo a rhedeg, cyrtiau pêl-rwyd a phêl-fasged a pharciau sglefrio.
6. Yr holl draethau gan gynnwys glan y môr, y blaendraeth ac unrhyw lethr neu risiau sydd yn arwain at y traethau yn y lleoliadau a nodir isod ac a amlinellir yn fanylach mewn coch yn y cynlluniau perthnasol atodedig:

Lleoliad

Cyfeirnod

Aberdyfi

6.01

Tywyn

6.02

Y Friog

6.03

Abermaw

6.04

Bennar	6.05
Llandanwg	6.06
Harlech	6.07
Morfa Bychan – Traeth y Greigddu	6.08
Criccieth – Traeth y Promenâd	6.09
[Heb ei ddefnyddio]	6.10
Pwllheli – Glan Don	6.11
Pwllheli – Marian-y-De	6.12
Abersoch	6.13
Aberdaron	6.14
Porth Oer	6.15
Porth Towyn	6.16
Morfa Nefyn	6.17
Dinas Dinlle	6.18
Nefyn	6.19

ATODLEN 2

Amseroedd a bennir yn Atodlen 2:

Paragraffau 1 i 5 o Atodlen 1: Bob amser.

Paragraff 6 o Atodlen 1: Rhwng 1 Ebrill a 30 Medi, gan gynnwys y dyddiadau hynny, mewn unrhyw flwyddyn.

ATODLEN 3

Tir a bennir yn Atodlen 3:

Yr holl dir sydd wedi ei ddisgrifio yn yr Atodlen ganlynol sydd yn dir yn gorwedd o fewn ardal weinyddol y Cyngor –

- (i) sydd yn agored i'r awyr (sydd yn cynnwys unrhyw dir dan do os yw'n agored i'r awyr ar o leiaf un ochr) ac
- (ii) y mae gan y cyhoedd hawl neu ganiatâd i gael mynediad iddo (gyda neu heb daliad).

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Land specified in Schedule 1:

1. All land described in the following Schedule being land which lies within the administrative area of the Council –
 - (i) which is open to the air (which includes any land which is covered if it is open to the air on at least one side); and
 - (ii) to which the public are entitled or permitted to have access (with or without payment); and
 - (iii) which is signed at its entrance(s) as a “Dog Exclusion Area” (whether the sign uses those particular words or words and/or symbols having like effect).
2. All children’s play areas.
3. All recreational land within the boundaries of schools, further and higher education establishments.
4. All marked sports pitches to which the public are permitted or entitled to have access and land within 2 metres of the pitches.
5. All sports facilities in the county, including (but not limited to) leisure centres, multi-purpose ball parks, tennis courts, bowling greens, cycling and running tracks, netball and basketball courts and skate parks.
6. All beaches including the seashore, foreshore and any slope or staircase leading onto the beaches at the locations noted below and more particularly delineated in red on the relevant attached plans:

<u>Location</u>	<u>Reference</u>
Aberdyfi	6.01
Tywyn	6.02
Fairbourne	6.03

Barmouth	6.04
Bennar	6.05
Llandanwg	6.06
Harlech	6.07
Morfa Bychan – Black Rock Sands	6.08
Criccieth – Promenade Beach	6.09
[Not used]	6.10
Pwllheli – Glan Don	6.11
Pwllheli – Marian-y-De	6.12
Abersoch	6.13
Aberdaron	6.14
Porth Oer	6.15
Porth Towyn	6.16
Morfa Nefyn	6.17
Dinas Dinlle	6.18
Nefyn	6.19

SCHEDULE 2

Times specified in Schedule 2:

Paragraphs 1 to 5 of Schedule 1: All times.

Paragraph 6 of Schedule 1: Between 1 April and 30 September inclusive in any year.

SCHEDULE 3

Land specified in Schedule 3:

All land described in the following Schedule being land which lies within the administrative area of the Council –

- (i) which is open to the air (which includes any land which is covered if it is open to the air on at least one side) and
- (ii) to which the public are entitled or permitted to have access (with or without payment).

DYDDIEDIG / DATED:

2021

**DEDDF YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL, TROSEDD A PHLISMONA 2014
GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CYNGOR GWYNEDD (RHEOLI CŴN) 2021**

**ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR, CRIME AND POLICING ACT 2014
GWYNEDD COUNCIL (DOG CONTROL) PUBLIC SPACES PROTECTION ORDER 2021**

IWAN G D EVANS

PENNAETH GWASANAETHAU CYFREITHIOL / HEAD OF LEGAL SERVICES

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

STRYD Y JÊL

CAERNARFON

GWYNEDD LL55 1SH

CYFEIRNOD / REFERENCE: PBR-477 GE1

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

I Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) mewn perthynas â rheoli cŵn ledled y Sir.

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Disodlwyd y sail gyfreithiol ar gyfer Gorchmynion Rheoli Cŵn gwreiddiol y Cyngor gan ddeddfwriaeth fwy diweddar sy'n golygu bod angen datblygu Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer Rheoli Cŵn o'r newydd.

Roedd Gorchmynion Rheoli Cŵn 2013 yn ymwneud ag atal baeddu cŵn, gwahardd cŵn o rai ardaloedd sensitif fel caeau chwarae, cyfleusterau chwaraeon gyda chyfyngiadau tymhorol ar rai traethau ymdrochi a'r gofyniad am gŵn ar dennyn o dan gyfarwyddyd swyddog awdurdodedig.

I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

I.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

01/04/2021 – fersiwn cyntaf.

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Pobl Gwynedd
Staff y Cyngor
Yr Heddlu
Cadwch Gymru Daclus (Faner Las)
Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
Assistance Dogs UK
Dogs Trust
Kennel Club
Fforwm Mynediad

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig?

Rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r Gorchymyn Arfaethedig, a bydd angen i hwn fod yn ei le am 28 diwrnod yn dilyn yr etholiad i Senedd Cymru ar 6 Mai 2021.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

I'w gwblhau yn dilyn yr ymgynghoriad.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

- Mae nifer y cwynion am effaith baeddu cŵn wedi bod yn cynyddu'n lleol ac mae pryderon o'r fath yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfryngau cenedlaethol.
- Mae effaith y pandemig presennol wedi cyfrannu at waethygu'r sefyllfa bresennol. Mae mwy o gŵn yn cael eu cerdded yn amlach ac mae cynnydd sylweddol ym mherchnogaeth cŵn wedi cael ei adrodd yn eang.
- Gall rhai grwpiau, fel plant, y rhai â nam ar eu golwg a defnyddwyr cadeiriau olwyn fod yn fwy agored i gyswllt damweiniol â baw cŵn a'r pathogenau y gallai eu cynnwys.

2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei ychwanegu at y dystiolaeth yn 2.4

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi neu wasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	-	Nid oes effaith wedi ei adnabod
Yr iaith Gymraeg	-	Nid oes effaith wedi ei adnabod
Anabledd	Positif	Gall pathogenau o faw cŵn effeithio rhai pobl hefo cyflyrau penodol yn waeth. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn cynnwys eithriadau priodol i berchenogion cŵn gydag anableddau.
Rhyw	-	Nid oes effaith wedi ei adnabod
Oedran	Positif	Amgylchedd chwarae glan a diogel.
Cyfeiriadedd rhywiol	-	Nid oes effaith wedi ei adnabod
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	-	Nid oes effaith wedi ei adnabod
Ailbennu rhywedd	-	Nid oes effaith wedi ei adnabod
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif	Amgylchedd glan a diogel.
Priodas a phartneriaeth sifil	-	Nid oes effaith wedi ei adnabod

* Dileu yn ôl y gofyn

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Cyfle cyfartal i blant gael lle addas i chwarae, ac i ddefnyddwyr cadair olwyn
Meithrin perthnasau da	Dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod
Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol	Ydi	Mae amgylchedd glân a diogel yn fuddiol i les yr economi.

* Dileu yn ôl y gofyn

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Effeithiau positif wedi eu hadnabod ar iechyd, yn arbennig i blant, a bydd angen gweld os yw'r ymgynghoriad yn dangos effeithiau positif eraill.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid oes effaith sylweddol negyddol wedi ei adnabod ond byddwn yn cael mwy o wybodaeth o'r ymgynghoriad.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Parhau hefo'r ymgynghoriad er mwyn casglu mwy o wybodaeth	X

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Byddwn yn ymgymryd â'r ymgynghoriad ac yn gweld pa effeithiau negyddol fydd yn cael eu hamlygu


4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Mae'n gynamserol i adnabod unrhyw effeithiau.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Byddwn yn adnabod y camau i'w cymryd wedi'r ymgynghoriad



**Cyngor Gwynedd
Gorchmynion Rheoli Cŵn**

**Gwynedd Council
Dog Control Orders**

Lleoliad
Location

Traeth Aberdyfi

Aberdyfi Beach

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1af - Medi 30ain
Between 1st April - 30th September**


Rhif Cyfeirnod
Reference Number

6.01




Traeth Tywyn - Cynllun 6.02
Tywyn Beach – Map 6.02

Tud. 86




May 5, 2021





Traeth Fairbourne /Friog – Cynllun/Map 6.03

Tud. 87



May 5, 2021





Gogledd North



**Cyngor Gwynedd
Gorchmynion Rheoli Cŵn**

**Gwynedd Council
Dog Control Orders**

Lleoliad
Location

Traeth Abermaw

Barmouth Beach


**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1af - Medi 30ain
Between 1st April - 30th September**

Rhif Cyfeirnod
Reference Number

6.04





**Cyngor Gwynedd
Gorchmynion Rheoli Cŵn**

**Gwynedd Council
Dog Control Orders**

Lleoliad
Location

Traeth Bennar


Bennar Beach

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**
**Rhwng Ebrill 1af - Medi 30ain
Between 1st April - 30th September**

Rhif Cyfeirnod
Reference Number
6.05


Tud. 89

Gogledd
North



1:6,000





**Cyngor Gwynedd
Gorchmynion Rheoli Cŵn**

**Gwynedd Council
Dog Control Orders**

Lleoliad
Location

**Traeth Llandanwg
Llandanwg Beach**

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**


**Rhwng Ebrill 1af - Medi 30ain
Between 1st April - 30th September**

**Rhif Cyfeirnod
Reference Number**

6.06

Tud. 90





**Cyngor Gwynedd
Gorchmynion Rheoli Cŵn**

**Gwynedd Council
Dog Control Orders**

Lleoliad
Location

**Traeth Harlech
Harlech Beach**


**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1af - Medi 30ain
Between 1st April - 30th September**

**Rhif Cyfeirnod
Reference Number**

6.07





Gogledd North



**Cyngor Gwynedd
Gorchmynion Rheoli Cŵn**

**Gwynedd Council
Dog Control Orders**

Lleoliad
Location

**Traeth Morfa Bychan
(Black Rock Sands)**

**Morfa Bychan Beach
(Black Rock Sands)**


**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1af - Medi 30ain
Between 1st April - 30th September**

**Rhif Cyfeirnod
Reference Number**

6.08





CRICCIETH

**Cyngor Gwynedd
Gorchmynion Rheoli Cŵn**

**Gwynedd Council
Dog Control Orders**

Lleoliad
Location

**Traeth Y Promenad
Criccieth**

**Promenade Beach
Criccieth**



**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1af - Medi 30ain
Between 1st April - 30th September**

Rhif Cyfeirnod
Reference Number

6.09





**Cyngor Gwynedd
Gorchmynion Rheoli Cŵn**

**Gwynedd Council
Dog Control Orders**

Lleoliad
Location

**Traeth Glan y Don
Pwllheli**

**Glan y Don Beach
Pwllheli**

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1af - Medi 30ain
Between 1st April - 30th September**


Rhif Cyfeirnod
Reference Number

6.11

www.gwynedd.gov.uk

01766 771 000





Gogledd
North



**Cyngor Gwynedd
Gorchmynion Rheoli Cŵn**

**Gwynedd Council
Dog Control Orders**

Lleoliad
Location

**Traeth Marian-y-De
Pwllheli**

**Marian-y-De Beach
Pwllheli**


**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1af - Medi 30ain
Between 1st April - 30th September**

Rhif Cyfeirnod
Reference Number


6.12






Traeth Abersoch - Cynllun 6.13
Abersoch Beach – Map 6.13

May 5, 2021





**Cyngor Gwynedd
Gorchmynion Rheoli Cŵn**

**Gwynedd Council
Dog Control Orders**

Lleoliad
Location

**Traeth Aberdaron
Aberdaron Beach**

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1af - Medi 30ain
Between 1st April - 30th September**


Rhif Cyfeirnod
Reference Number

6.14





Traeth Porth Oer - Cynllun 6.15
Porth Oer Beach – Map 6.15

Tud. 98



May 5, 2021





**Cyngor Gwynedd
Gorchmynion Rheoli Cŵn**

**Gwynedd Council
Dog Control Orders**

Lleoliad
Location

Traeth Porth Towyn

Porth Towyn Beach

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1af - Medi 30ain
Between 1st April - 30th September**

Rhif Cyfeirnod
Reference Number

6.16



Gogledd
North



**Cyngor Gwynedd
Gorchmynion Rheoli Cŵn**

**Gwynedd Council
Dog Control Orders**

Lleoliad
Location

Traeth Morfa Nefyn


Morfa Nefyn Beach

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1af - Medi 30ain
Between 1st April - 30th September**


Rhif Cyfeirnod
Reference Number

6.17



Tud. 100





**Cyngor Gwynedd
Gorchmynion Rheoli Cŵn**

**Gwynedd Council
Dog Control Orders**

**Lleoliad
Location**

Traeth Dinas Dinlle

Dinas Dinlle Beach

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**


**Rhwng Ebrill 1af - Medi 30ain
Between 1st April - 30th September**

**Rhif Cyfeirnod
Reference Number**

6.18

Tud. 101





Gogledd North



**Cyngor Gwynedd
Gorchmynion Rheoli Cŵn**

**Gwynedd Council
Dog Control Orders**

Lleoliad
Location

Traeth Nefyn

Nefyn Beach

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1af - Medi 30ain
Between 1st April - 30th September**

Rhif Cyfeirnod
Reference Number

6.19

www.gwynedd.gov.uk

01766 771 000



CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	18 Mai 2021
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Gareth Thomas
Swyddog Cyswllt:	Sioned E Williams, Pennaeth Adran Economi a Chymuned
Rhif Cyswllt:	32547
Pwnc:	Awdurdod Lletya Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyaeth y Cabinet i Gyngor Gwynedd fod yr awdurdod lletya ar gyfer Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru.

Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Phennaeth Cyllid i gytuno a chwblhau cytundeb cyd-weithio addasedig

RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Cais i adolygu trefniadau lletya'r Bartneriaeth gan newid yr awdurdod lletya o Gyngor Conwy i Gyngor Gwynedd.

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Bu i'r Cabinet gymeradwyo adroddiad ar 15/12/2020 i Gyngor Gwynedd fod yn rhan o Bartneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru (ChGC) ynghyd â deuddeg partner arall. Y bwriad bryd hynny oedd mai Cyngor Conwy oedd yr awdurdod lletya.
- 1.2 Yn sgil trafodaethau pellach gyda Chwaraeon Cymru dros y misoedd diwethaf, daeth i'r amlwg na fyddai Cyngor Conwy bellach mewn sefyllfa i gynnig bod yr awdurdod lletya. Y prif reswm am hyn yw gallu'r Awdurdod i gwrdd â gofynion gyflogi swydd Cyfarwyddwr Rhanbarthol fel y cytunwyd rhwng Bwrdd Chwaraeon Gogledd Cymru a Chwaraeon Cymru yn yr achos busnes.
- 1.3 Gan fod model newydd cydweithio Chwaraeon Gogledd Cymru yn ddibynnol ar gael awdurdod lletya a chan nad oedd unrhyw bartner arall mewn sefyllfa i gynnig cyflawni'r rôl

o fewn gofynion y rhaglen, mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cais i weithredu fel yr awdurdod lletya.

Awdurdod Lletyol

1.4 Cydnabuwyd yn gynnar y byddai angen cefnogaeth sefydliad lletya ar gyfer y cyfnod trosglwyddo a blynyddoedd cynnar ChGC. Mae hyn oherwydd tri phrif reswm:

- Bydd yn galluogi i ChGC, trwy'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol, i ganolbwyntio ar sefydlu'r bartneriaeth a'r deilliannau sydd i'w cyflawni, yn hytrach na recriwtio staff i ddarparu cefnogaeth 'swyddfa gefn'
- Bydd yn galluogi i ni ddysgu am ChGC fel partneriaeth er mwyn datblygu dysg mewnol ynghylch natur a graddau'r adnoddau sydd eu hangen yn fewnol, a pha rai y gellir eu cael yn allanol
- Bydd yn galluogi dealltwriaeth o'r cychwyn cyntaf ynghylch y gyllideb ar gyfer gweithredu'r sefydliad fel rhywbeth ar wahân i hwnnw sy'n canolbwyntio ar gydweithredu i gyflawni deilliannau sydd wedi eu hadnabod.

1.5 Cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd fel awdurdod lletya fydd cynnal ChGC ar y cychwyn.

1.6 Cytunodd Aelodau ChGC mai Cyngor Gwynedd fydd yr awdurdod arweiniol ar gyfer pum mlynedd gyntaf y Bartneriaeth. Rôl Cyngor Gwynedd yn benodol yw:

- Bod yn awdurdod lletya ac arweiniol, a chorff atebol, i Gydweithrediad Chwaraeon Gogledd Cymru;
- Bod yn gyfrifol am benodiad a chyflogaeth y Cyfarwyddwr Rhanbarthol;
- Fel awdurdod lletya ac arweiniol, derbyn cyfran gytunedig o arian Chwaraeon Cymru i gyfrannu at swydd y Cyfarwyddwyr Rhanbarthol a swyddogaeth fel yr awdurdod lletya - £159,119 yn y flwyddyn gyntaf, £115,000 yn flynyddol am y 4 blynedd ddilynol (bydd y gwahaniaeth yn cael ei ariannu o ddenu incwm allanol ychwanegol) ;
- Fel awdurdod lletya'r Cydweithrediad, bod yn brif gyswllt ar gyfer ymgysylltu â Chwaraeon Cymru mewn perthynas ag arian Chwaraeon Cymru, ac ymlyniad at ofynion llywodraethu Chwaraeon Cymru ar ran y Cydweithrediad;
- Rheoli Cyfrif ChGC a bod yn gyfrifol am ddyrannu arian o Gyfrif ChGC yn unol â phenderfyniadau'r Bwrdd Llywodraethu;
- Ymgysylltu â gweithwyr mewn swyddi sy'n ymwneud â rheoli a gweithredu'r Cydweithrediad;
- Sicrhau y caiff cyfarfodydd Bwrdd y Bartneriaeth a'r Bwrdd Llywodraethu eu cynnal yn unol â'r darpariaethau ar gyfer y bwrdd.

1.7 Yn ychwanegol i'r uchod, bydd Cyngor Gwynedd yn cynnig cefnogaeth weinyddol i ChGC.

Cyllid

1.8 Ar hyn o bryd, mae Chwaraeon Cymru yn darparu cyllid ar wahân yn uniongyrchol i'r chwe awdurdod lleol, sydd wedyn yn gyfrifol am wario yn eu priod ranbarthau. Bydd ChGC yn derbyn cyllid cronus gan Chwaraeon Cymru (amcangyfrifir oddeutu £2.7 miliwn y flwyddyn ar gyfer y rhanbarth) yn cael ei gyfarwyddo trwy ChGC a bydd penderfyniadau ar fuddsoddiad â blaenoriaeth yn cael eu gwneud gan y Bwrdd Partneriaeth gyda gorolwg gan y Bwrdd Llywodraethu.

1.9 Cyfanswm y cyllid dangosol 5 mlynedd ar gyfer ChGC rhwng 2021/22 a 2025/26 yw £13,529,494. Mae hyn ar gyfer chwaraeon cymunedol; nofio am ddim; cynllun grant lleol y Loteri; cronfa arloesi; a chymorth gweithredu strategol. (Bydd y Cronfeydd Loteri ac Arloesi yn cael eu dal a'u gweinyddu gan Chwaraeon Cymru ond byddant ar gael i ChGC dynnu yn eu herbyn).

1.10 Nid oes unrhyw risg ariannol i Gyngor Gwynedd - bydd ein Hadrannau Hamdden a Phobl Ifanc yn dal i allu gwneud cais am y cyllid i gyflawni prosiectau rhanbarthol arwyddocaol.

2 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

2.1 O gymeradwyo'r cynllun, bwriedir ei fabwysiadu yn syth.

3 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Rydym wedi ymgysylltu gyda'r partneriaid / budd-ddeiliaid canlynol:

- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Wrecsam
- Chwaraeon Cymru.

3.2 Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

Fe nodir yn yr adroddiad fod y Cabinet wedi cytuno i fod yn rhan o'r bartneriaeth eisoes felly y newid yn y fan yma yw fod Gwynedd yn ysgwyddo cyfrifoldebau yr awdurdod lletyol. Nid oes Cyd Bwyllgor statudol fel rhan o'r trefniadau llywodraethu felly, mae'r gofynion adnoddau yn is o ran yr agweddau yma na phrosiectau cyd-weithio eraill.

ii. Y Pennaeth Cyllid:

Mae'r rhestr o weithrediadau awdurdod lletya ac arweiniol sy'n rhan 1.6 o'r adroddiad yma'n amlygu bydd rôl i Cyllid a chyfrifoldebau i Gyngor Gwynedd yn cyflogi swyddogion, derbyn incwm a dyrannu arian o gyfrif Chwaraeon Gogledd Cymru. Fodd bynnag, tra bydd y cyllid gan Chwaraeon Cymru oddeutu £2.7 miliwn y flwyddyn ar gyfer y rhanbarth,

rwy'n fodlon bydd y gwaith lletya a llywodraethu'r trefniadau llai ffurfiol yma ddim mor sylweddol â'r gwaith cyffelyb gyda rhai o'r cydbwyllgorau cyfredol.

Deallaf bydd cyfraniad ar gael i'r Cyngor fel awdurdod lletya, a bydd angen cyfarch costau'r gefnogaeth, gan gynnwys TG ac yswiriant. Nodaf rhan 1.10 o'r adroddiad yn datgan nad oes unrhyw risg ariannol i Gyngor Gwynedd, ac er mwyn gwireddu hynny mi fydd angen i'r gytundeb berthnasol sicrhau fod risgiau cyflogi ac unrhyw ymrwymadau perthnasol, fel colledion posib neu bensiynau, wedi'u rhannu rhwng y partneriaid. Yn amodol ar hynny, rwy'n fodlon i'r Cabinet gymeradwyo'r penderfyniad a geisir.

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 18 Mai 2021
Aelod Cabinet: Y Cyngorwyr Dafydd Meurig a Dilwyn Morgan
Swyddog Cyswilt: Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Teitl yr Eitem: Llythyr Archwiliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Gofynnir i aelodau'r Cabinet dderbyn cynnwys y Llythyr Archwiliad Sicrwydd a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ynghylch eu canfyddiadau am wasanaethau cymdeithasol Cyngor Gwynedd yn dilyn archwiliad ar 18-22 Ionawr 2021.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1. Mae'n briodol i'r Cabinet ystyried cynnwys y llythyr er mwyn ennyn hyder ym mherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan hefyd fod yn ymwybodol o'u cryfderau a'u meysydd blaenoriaeth.

3. CYFLWYNIAD

- 3.1. Ddechrau'r flwyddyn, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru arolwg Sicrwydd Ansawdd ar Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd. Prif ddiben yr archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant.
- 3.2. Fel rhan o'r archwiliad, roedd AGC yn ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Roedd ei brif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac, yn y llythyr, mae AGC wedi cofnodi ei farnau a'i ganfyddiadau yn unol â'r rhain: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, a Llesiant.
- 3.3. Mae AGC wedi anfon llythyr i Gyngor Gwynedd yn egluro ei ganfyddiadau – gweler yr atodiad. Fel Cyngor, rydym yn hapus iawn gyda'n perfformiad ac yn croesawu'r argymhellion i wella at y dyfodol.

4. Y PRIF NEGESEUON YN DEILLIO O'R LLYTHYR

4.1. Pobl – Llais a Rheolaeth

- 4.2. Mae'n amlwg bod ein staff wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd uchel yng Ngwynedd. Gwelwyd tystiolaeth gref ein bod yn cadw mewn cysylltiad â phobl yn ystod y pandemig er mwyn cynnig cymorth, gyda'r gwasanaethau i blant ac oedolion wedi cofnodi llawer o weithgarwch.
- 4.3. Wedi dweud hynny, roedd rhai o'r asesiadau a welwyd yn canolbwyntio gormod ar angen o hyd, gyda diffyg eglurder wrth gofnodi canlyniadau personol. O ganlyniad, mae angen i ni sicrhau bod lleisiau'r bobl yn cael eu clywed a bod y rhain ync ael eu cofnodi'n gyson.
- 4.4. O fewn gwasanaethau plant, gwelwyd enghreifftiau da o ddefnyddio modelau ymarfer arloesol, megis y prosiect peilot amddiffyn plant effeithiol, i alluogi teuluoedd ac ymarferwyr i gyfleu pryderon a nodau ymyrryd yn glir. Roedd canlyniadau'r arolwg staff yn dangos bod hyn yn cael ei werthfawrogi gan ymarferwyr.
- 4.5. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth yn newis iaith yr unigolyn, gydag asesiadau a gofal parhaus yn cael eu darparu yn y Gymraeg fel mater o drefn.
- 4.6. Mae gennym ddull cadarnhaol o recriwtio a chadw staff heb ddefnyddio staff asiantaeth, gyda thystiolaeth o fuddiannau'r sefydlogrwydd hwn i blant ac oedolion.
- 4.7. Mae gan uwch-reolwyr a swyddogion ddealltwriaeth dda o broffil plant sy'n derbyn gofal, ac mae cymorth da ym maes rhiantu corfforaethol ym mhob rhan o'r Cyngor. Roedd nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu yn ystod y cyfnod 12 mis yr edrychodd CIW arno, ond bellach wrth edrych yn ôl ar flwyddyn ariannol 20/21, rydym yn gweld bod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

4.8. Atal

- 4.9. Mae uwch-reolwyr yn deall bod mynediad at drefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol i gynnal llesiant a lliniaru'r galw ar wasanaethau statudol, a roedd yr ymatebion i'r arolwg staff yn adlewyrchu'n gryf y farn bod gwasanaethau ataliol yn gweithio'n dda ac yn cael eu gwerthfawrogi am leihau'r angen am gymorth statudol. Fodd bynnag, byddai mwy o fuddsoddiad yn cael ei groesawu.
- 4.10. O fewn gwasanaethau oedolion, roedd ymatebion amserol i geisiadau am fân gymhorthion neu addasiadau yn y cartref. Fodd bynnag, mae angen gwella'r amseroedd aros am gymorth therapi galwedigaethol, megis asesiadau ymolchi. I liniaru hyn, mae gwaith cynllunio'r gweithlu yn mynd rhagddo i gynyddu nifer y therapyddion galwedigaethol sydd ar gael pan fydd pobl yn cysylltu â'r Cyngor.

- 4.11. Mewn perthynas â chefnogi teuluoedd, roedd yr arolwg staff yn adlewyrchu'n gryf y farn bod gwasanaethau plant yn fodlon arloesi a chyflwyno syniadau newydd i wella'n barhaus. Roedd tystiolaeth o hyn yn ystod y pandemig drwy hwb gwybodaeth i blant a theuluoedd a oedd yn darparu gwybodaeth i bobl ar-lein a dros y ffôn am faterion megis galaru ac iechyd meddwl, yn ogystal â chyfeirio pobl at gymorth amgen fel y bo angen.
- 4.12. Partneriaethau ac Integreiddio
- 4.13. Yn y rhan fwyaf o ffeiliau, gwelwyd tystiolaeth o ymarferwyr yn meithrin cydberthynas waith broffesiynol â phobl yn seiliedig ar gydweithredu a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Mae gwaith partneriaeth da rhwng gweithwyr proffesiynol, teuluoedd a gofalwyr.
- 4.14. Mae gennym heriau cefnogi anghenion emosiynol plant a diffyg gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r Bwrdd Iechyd a ninnau fel Cyngor wedi'i chael hi'n anodd cysoni gwasanaethau, gyda Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn canolbwyntio'n bennaf ar anghenion plant sydd â salwch meddwl. I lawer o blant sy'n gweithio gyda'r gwasanaethau plant, nid yw'r diffiniad clinigol hwn yn gymwys, ac mae pryder nad oes gwasanaethau ar gael i rai plant sydd ag anghenion emosiynol cymhleth iawn. Nid yw'r mater hwn yn benodol i ni fel awdurdod lleol.
- 4.15. Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr a sampl fach o sefydliadau trydydd sector a ymatebodd i harolwg AGC eu bod wedi meithrin cydberthynasau gwaith ac wedi derbyn cymorth rhagorol yn ystod y pandemig. Cawsant ganmoliaeth ganddynt am ein defnydd amserol o ffyrdd digidol newydd o weithio i sicrhau ein bod yn gallu cyfathrebu saith diwrnod yr wythnos. Bu i ni ddsbarthu cyfarpar diogelu personol mewn ffordd ragorol, blaenoriaethu diogelwch gweithwyr gofal, ac eirioli ar ran unigolion er mwyn i asiantaethau eraill eu cefnogi. Mae'r gwasanaethau oedolion wedi bod yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl yn dychwelyd adref o'r ysbyty cyn gynted â phosib.
- 4.16. I blant a oedd mewn gofal, cafodd yr holl adolygiadau ac ymweliadau statudol eu cynnal mewn modd amserol. Roedd yr adolygiadau yn adlewyrchu safbwynt y plant, y gofalwyr a'r rhieni gyda naratifau da yn ymwneud â llesiant. Roedd cynlluniau hefyd yn cael eu rhannu â Swyddogion Adolygu Annibynnol a phartneriaid eraill, gan gynnwys iechyd ac addysg, mewn modd amserol i sicrhau dull cydlynus o ddarparu gofal. Nododd ein gofalwyr maeth eu bod wedi derbyn cymorth rhagorol gan y tîm maethu. Er mwyn cefnogi lleoliadau sefydlog, mae adnodd ychwanegol pellach wedi cael ei nodi yn y tîm maethu.
- 4.17. Roedd grŵp o bobl ifanc a oedd wedi gadael gofal wedi datgan y gefnogaeth dda a gawsant gan y tîm 16+ a'u cynorthwywyr personol. Gwnaethant ddisgrifio'r ffordd roeddent wedi cael cymorth i ddod o hyd i waith a rhywle addas i fyw. Roedd tystiolaeth bod sgysiau 'Pan Fydda i'n Barod' yn cael eu cynnal ond gallai'r rhain fod wedi dechrau'n gynt mewn nifer bach o achosion. Roedd pobl ifanc mewn gofal yn cael eu cefnogi i feithrin sgiliau byw'n annibynnol, ond gall diffyg llety addas fod yn rhwystr. Yn gryno, o'r achosion a welodd AGC, roedd plant yn cael budd o leoliadau sefydlog sy'n diwallu eu hanghenion gyda chanlyniadau hirdymor da.

4.18. Llesiant

- 4.19. Mae'r gwasanaethau i oedolion a phlant yn cael budd o gymorth corfforaethol da, a thîm uwch-reolwyr sefydledig sy'n ceisio ymdrin â gofal a chymorth o safbwynt gydol oes.
- 4.20. O fewn gwasanaethau oedolion, roedd y rhan fwyaf o'r ffeiliau yn cofnodi sgysiau am yr hyn sy'n bwysig a oedd yn adlewyrchu amgylchiadau'r bobl.
- 4.21. Roedd rhestr aros ar gyfer adolygiadau ffurfiol mewn gwasanaethau oedolion, ond cafwyd tystiolaeth o ymarferwyr yn cadw mewn cysylltiad â phobl ac yn diwygio eu dull adolygu fel y bo angen. Mae angen i ni wella amseroldeb adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth am ei fod yn bosibl nad yw rhai pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.
- 4.22. Mynegodd ymarferwyr adborth cadarnhaol am ddiogelu oedolion ac roedd yr hyder hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn ymatebion i'r arolwg darparwyr.
- 4.23. I blant anabl a'u teuluoedd, mae Tîm Aml-ddisgyblaethol Derwen wedi cysylltu â phobl yn aml yn ystod y pandemig i gynnig cymorth. Mae hyn wedi cynnwys cymorth ymarferol gyda chymhorthion ac addasiadau, cymorth emosiynol gyda galwadau ffôn gan seicolegydd a hefyd amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer plant yn ystod y gwyliau haf.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 5.1. Mae'r materion sydd wedi codi yn llythyr AGC wedi eu cynnwys yn rhaglenni gwaith yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion, lechyd a Llesiant. Bydd gwaith yn mynd rhagddo i gyflawni'r gwelliannau perthnasol. Mae'r Pwyllgor Craffu perthnasol hefyd wedi derbyn copi o'r llythyr hwn, a bydd y pwyllgor yn ystyried materion i'w craffu yn unol â'i raglen waith.

6. Barn y Swyddogion Statudol:

Y Swyddog Monitro:

Mae'n briodol fod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad yma er darparu sicrwydd yn y maes allweddol yma. Fe nodir yn yr adroddiad fod canfyddiadau cadarnhaol, ac mae hyn i'w groesawu.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi derbyn cadarnhad gan yr awdur na fyddai'r penderfyniad a geisir yma'n creu ymrwymadau ariannol newydd.

Morwena Edwards
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
Caernarfon
LL55 1SH

Ein cyf / Our ref:

Dyddiad / Date: 22/03/2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

Archwiliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021: Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein archwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 18 Ionawr ac 22 Ionawr 2021. Prif pwrpas y archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Trosolwg

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae eu llesiant yn cael ei hyrwyddo yn ystod y pandemig. Pwrpas yr archwiliad sicrwydd hwn oedd adolygu pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant. Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac rydym wedi cofnodi ein barnau a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, Llesiant.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Offices
Sarn Mynach
Llandudno Junction
Conwy
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tud. 1/1

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom ofyn:

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hyrwyddo eu llesiant, yn ystod y pandemig?
2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?
3. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth cynnar, gofal a chyfnodau pontio di-dor rhwng gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd?

Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella:

Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn: Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, wrth hefyd gydbwysu'r argymhellion a'r gofynion a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar Iedaeniad COVID-19?

Gwelsom dystiolaeth gref fod yr awdurdod lleol yn cadw mewn cysylltiad â phobl yn ystod y pandemig i gynnig cymorth. Roedd y gwasanaethau i blant ac oedolion wedi cofnodi llawer o weithgarwch. Gwelsom enghreifftiau o bobl yn cael cynnig help ymarferol ac emosiynol a oedd yn cael ei werthfawrogi gan unigolion. Dangosodd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hyderus bod plant ac oedolion yn ddiogel. Roedd dystiolaeth o ymarferwyr yn cydweithio ac yn gweithio mewn partneriaeth â phobl er mwyn sicrhau bod eu barn a'u dymuniadau yn cael eu nodi. Mae angen ffocws ychwanegol i gadarnhau bod lleisiau pobl bob amser yn cael eu clywed yn llawn a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am y gofal a'r cymorth sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau gorau posib. Nid yw'r awdurdod lleol wedi ymgorffori un model dewisol o ymarfer gwaith cymdeithasol. Fodd bynnag, mae hyfforddiant sgysrsiau cydweithredol yn cael ei gynnig o fewn gwasanaethau oedolion a phlant yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014).

Mewn ymateb i'n harolwg staff, mae'r mwyafrif helaeth o ymarferwyr mewn gwasanaethau oedolion yn dweud eu bod yn gallu ymdopi â'u llwythi achosion. Roeddent yn amlwg yn deall amgylchiadau'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw a'u cymunedau yn dda. Roedd pobl yn cael gwybod am eu hawliau a'u hawliadau gan gynnwys eiriolaeth ac roedd y staff yn amlwg wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd uchel yng Ngwynedd. Roedd dystiolaeth o hyn yn yr ymatebion empathetig, caredig a gofalgar. Roedd rhai o'r asesiadau a welwyd yn canolbwyntio gormod ar angen o hyd ac roedd diffyg eglurder wrth gofnodi canlyniadau personol. Ar adegau roedd yn anodd dilyn penderfyniadau a deall y rhesymeg yn glir ar adegau gwneud penderfyniadau allweddol ym mywydau pobl, megis pan mae unigolyn yn symud i mewn i gartref gofal. Yn anaml iawn yr oedd sesiynau goruchwyllo yn cael eu cofnodi yn ffeiliau gwasanaethau oedolion. Byddai

gwneud hynny yn rhoi cyfle i reolwyr sicrhau bod canlyniadau y cytunwyd arnynt a phenderfyniadau perthnasol yn cael eu cyfleu'n glir. Mae'n galonogol gweld bod yr awdurdod lleol eisoes wedi nodi bod angen rhoi sylw i gofnodi ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn rhaglen waith gwasanaethau oedolion. Yn gryno, mae angen i reolwyr sicrhau bod lleisiau'r bobl yn cael eu clywed a bod y rhain yn cael eu cofnodi'n gyson.

O fewn gwasanaethau plant, dangosodd asesiadau a chynlluniau gofal drefniadau casglu gwybodaeth da ar y cyfan, gyda dadansoddiad o gryfderau a rhwystrau yn anelu at gefnogi gwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff dymuniadau ac anghenion pob plentyn eu nodi'n unigol, yn enwedig os oes grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd. Yn ystod y pandemig, gwnaeth ymarferwyr gadw mewn cysylltiad â phlant, wyneb yn wyneb ac yn rhithwir, er mwyn sicrhau eu diogelwch. Gwelsom fod gweithwyr proffesiynol yn gwneud atgyfeiriadau amserol a phriodol at y gwasanaethau plant a oedd yn sbarduno dulliau amlddisgyblaethol hirsefydledig. Gwelsom enghreifftiau da o'r awdurdod lleol yn defnyddio modelau ymarfer arloesol, megis y prosiect peilot amddiffyn plant effeithiol, i alluogi teuluoedd ac ymarferwyr i gyfleu pryderon a nodau ymyrryd yn glir. Dangosodd canlyniadau ein harolwg staff fod hyn yn cael ei werthfawrogi gan ymarferwyr a roddodd nifer o enghreifftiau o fuddiannau'r dull hwn i blant a theuluoedd.

Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth yn newis iaith yr unigolyn. Gwelsom fod asesiadau a gofal parhaus yn cael eu darparu yn Gymraeg fel mater o drefn. Mae'r awdurdod lleol yn falch o wneud y Cynnig Rhagweithiol a sicrhau y caiff hawliau pobl eu diogelu. Hefyd, gwelsom y defnydd o gyfieithiadau i ieithoedd eraill i helpu pobl i gymryd rhan. Mewn rhai achosion, roedd y ffeiliau a welwyd yn cael eu cynnal mewn cymysgedd o Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff dogfennau eu darparu yn newis iaith yr unigolyn.

Mae gan Gyngor Gwynedd ddull gadarnhaol recriwtio a chadw staff heb ddefnyddio staff asiantaeth. Gwelsom dystiolaeth o fuddiannau'r sefydlogrwydd hwn i blant ac oedolion. Dywedodd y mwyafrif helaeth o ymarferwyr a ymatebodd i'n harolwg fod y gweithlu wedi cael ei gefnogi'n dda yn ystod y pandemig. Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith bod rheolwyr a chymorth cyfoedion gan gydweithwyr ar gael yn hawdd, yn anffurfiol a thrwy sesiynau goruchwyllo ffurfiol. O fewn gwasanaethau plant, roedd penderfyniadau goruchwyllo yn cael eu cofnodi mewn ffeiliau gyda champau gweithredu clir a dadansoddiad da o risgiau yn amlwg. Soniodd ymarferwyr am gyfleoedd dysgu a datblygu cadarnhaol sy'n eu helpu i deimlo'n fwy hyderus yn eu rolau. Roedd hyn yn cynnwys pobl yn eu tair blynedd gyntaf o ymarfer, a fynegodd eu diolch am y cymorth a ddarparwyd a'r hyder y byddent yn aros gyda'r awdurdod lleol i gamu ymlaen yn eu gyrfa.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel yn flaenoriaeth. Mae gan uwch-reolwyr a swyddogion ddealltwriaeth dda o broffil plant sy'n derbyn gofal a gwybodaeth dda amdano, ac maent wedi ymrwymo'n gryf i'r agenda ataliol. Clywsom fod cymorth da ym maes rhianta corfforaethol ym mhob rhan o'r cyngor. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf, ond mae

gan yr awdurdod lleol wybodaeth dda am y rhesymau dros hyn. Mae'n rhoi mesurau ar waith i ddiddymu gorchmynion gofal, gan gynnwys panel craffu trylwyr lle y caiff lleoliad pob plentyn ei herio a gwneir pob ymdrech i weithio gyda theuluoedd. Er enghraifft, clywsom am baru sgiliau ymarferwyr ag anghenion y teulu er mwyn gwella cydberthnasau ac ymgysylltu. Gwelsom enghreifftiau eraill o fentrau cadarnhaol i leihau nifer y plant mewn gofal yn ddiogel, gan gynnwys adnodd ychwanegol yn y tîm trothwy gofal, a swyddi penodol ar gyfer cefnogi rhieni maeth yn y gwasanaeth maethu.

Atal – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Mae uwch-reolwyr yn deall bod mynediad at drefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol i gynnal llesiant a lliniaru'r galw ar wasanaethau statudol. Pwysleisiodd ymarferwyr wydnwch y cymunedau lleol a'r cymorth a gynigir ganddynt. Clywsom enghreifftiau cadarnhaol o brosiectau cymunedol arloesol i wella ansawdd bywyd pobl yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys rhoi bocs Nadolig i bawb dros 70 oed mewn un pentref, a chynllun ffrindiau gohebol i gysylltu plant â phobl hŷn sy'n fuddiol i'r ddwy genhedlaeth. Clywsom hefyd am fanciau bwyd sydd ar agor i bawb mewn angen heb feini prawf, ac enghreifftiau o lawer o weithgareddau ar-lein i gysylltu pobl drwy ddiddordebau a rennir, megis gŵyl gyrfaoedd ar-lein.

Roedd yr ymatebion i'n harolwg staff yn adlewyrchu'n gryf y farn bod gwasanaethau ataliol yn gweithio'n dda ac yn cael eu gwerthfawrogi am leihau'r angen am gymorth statudol, ond byddai mwy o fuddsoddiad yn cael ei groesawu. O fewn gwasanaethau oedolion, gwelsom ymatebion amserol i geisiadau am fân gymhorthion neu addasiadau yn y cartref. Fodd bynnag, nid yw rhai amseroedd aros am gymorth therapi galwedigaethol, megis asesiadau ymolchi, yn cyflawni nodau Deddf 2014 ac mae'n rhaid i hyn wella. I liniaru hyn, mae gwaith cynllunio'r gweithlu yn mynd rhagddo i gynyddu nifer y therapyddion galwedigaethol sydd ar gael pan fydd pobl yn cysylltu â'r awdurdod lleol. Clywsom am fuddiannau'r pum pwynt gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n galluogi ymatebion lleol i anghenion. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod ganddo ddata digonol am waith gwasanaethau ataliol i fonitro eu heffeithiolrwydd ledled Gwynedd, a'i alluogi i gynllunio ar lefel leol ar gyfer anghenion yn y dyfodol.

Nod y strategaeth cefnogi teuluoedd yw cyfuno'r holl wasanaethau ataliol i blant a theuluoedd i gynig gwasanaeth di-dor. Aeth ymarferwyr o'r gwasanaethau cymorth cynnar ati i gysylltu â theuluoedd i gynig cymorth. Gwelsom enghreifftiau o blant a theuluoedd yn cael cymorth ymarferol cynnar, megis lle mewn meithrinfa a oedd yn helpu mam i ofalu am ei baban newydd. Roedd yr ymatebion i'n harolwg staff yn adlewyrchu'n gryf y farn bod gwasanaethau plant yn fodlon arloesi ac cyflwyno syniadau newydd i wella'n barhaus. Roedd tystiolaeth o hyn yn ystod y pandemig drwy hwb gwybodaeth i blant a theuluoedd a oedd yn darparu gwybodaeth i bobl ar-lein a dros y ffôn am faterion megis galaru ac iechyd meddwl, yn ogystal â chyfeirio pobl at gymorth amgen fel y bo angen. Clywsom am gyfnodau pontio didrafferth rhwng timau cymorth cynnar a gwasanaethau plant, gyda rheolwyr yn cynyddu neu'n lleihau cymorth fel y bo angen mewn modd hyblyg.

Partneriaethau ac Integreiddio - Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu sicrhau ei hun ei fod yn achub ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn gwneud y gorau o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig a'u bod yn gynaliadwy?

Yn y rhan fwyaf o ffeiliau, gwelwyd tystiolaeth o ymarferwyr yn meithrin cydberthynas waith broffesiynol â phobl yn seiliedig ar gydweithredu a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Gwelsom waith partneriaeth da rhwng gweithwyr proffesiynol, teuluoedd a gofalwyr. Clywsom gan sampl fach o ofalwyr o fewn gwasanaethau oedolion am gefnogaeth ragorol gan yr awdurdod lleol, gydag enghreifftiau arloesol o focsys crefft yn cael eu dosbarthu ac yna weithgaredd crefft rhithwir ar y cyd er mwyn lleihau ynyswch.

Clywsom am enghreifftiau cadarnhaol o waith amlasiantaeth i reoli risgiau pobl â'r anghenion mwyaf cymhleth, a'u gweld ar waith. Ar lefel ymarfer o fewn gwasanaethau plant, mae'r Tim Emrallt wedi cael ei ddatblygu a'i ddarparu yn aml asiantaethol i hwyluso dealltwriaeth a datblygu ymarfer ym maes ymddygiad rhywiol problemus ac anaddas ymysg plant a phobl ifanc. Gwelsom enghreifftiau o rannu gwybodaeth yn amserol â'r heddlu, y gwasanaeth prawf a phartneriaid eraill lle roedd hyn yn ofynnol. Dywedodd rheolwyr a staff gwaith cymdeithasol wrthym am heriau cefnogi anghenion emosiynol plant a diffyg gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd wedi'i chael hi'n anodd cysoni gwasanaethau, gyda Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn canolbwyntio'n bennaf ar anghenion plant sydd â salwch meddwl. I lawer o blant sy'n gweithio gyda'r gwasanaethau plant, nid yw'r diffiniad clinigol hwn yn gymwys, ac mae pryder nad oes gwasanaethau ar gael i rai plant sydd ag anghenion emosiynol cymhleth iawn. Nid yw'r mater hwn yn benodol i'r awdurdod lleol ac roedd uwch-reolwyr wrthi'n gweithio i ddatblygu cymorth amgen.

Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr a sampl fach o sefydliadau trydydd sector a ymatebodd i'n harolwg gydberthnasau gwaith a chymorth rhagorol yn ystod y pandemig. Gwnaethant ganmol yr awdurdod lleol am ei ddefnydd amserol o ffyrdd digidol newydd o weithio i sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu saith diwrnod yr wythnos. Clywsom am gyfarpar diogelu personol yn cael ei ddosbarthu mewn ffordd ragorol, blaenoriaethu diogelwch gweithwyr gofal, a'r awdurdod lleol yn eirioli ar ran unigolion er mwyn i asiantaethau eraill eu cefnogi. Clywsom sut oedd Tîm Cymorth Covid yn bwynt cyswllt i gefnogi a lleihau'r pwysau ar wasanaethau statudol. Yn wasanaethau oedolion gwelsom yr awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl yn dychwelyd adref o'r ysbyty cyn gynted â phosib.

Clywsom am Fwrdd Rheoli Gwasanaethau i blant anabl sy'n cwmpasu dwy ardal awdurdod lleol ac yn darparu mwy o gyfleoedd i gydweithio. Er enghraifft, mae wedi galluogi recriwtio 20 o ofalwyr maeth seibiant byr ar y cyd i helpu gyda diwrnodau allan i'r teulu, cefnogi brodyr a chwiorydd a theithiau dydd. Mae nifer o becynnau cymorth wedi'u comisiynu ar y cyd i blant anabl rhwng y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol, gyda phartneriaid yn cydweithio'n agos i gefnogi plant a'u teuluoedd yn y ffordd orau. Nododd yr ymatebion i'n harolwg staff y

dylid blaenoriaethu gwell cydweithio â'r bwrdd iechyd er mwyn sicrhau y caiff anghenion pobl eu diwallu'n briodol, yn enwedig lle y mae angen trefniadau ariannu ar y cyd. Clywsom fod cael tai addas yn gallu bod yn heriol ac mae'r awdurdod lleol yn parhau i fynd i'r afael â hyn gyda phartneriaid.

I blant a oedd mewn gofal, gwelsom fod yr holl adolygiadau ac ymweliadau statudol yn cael eu cynnal mewn modd amserol. Roedd yr adolygiadau yn adlewyrchu safbwynt y plant, y gofalwyr a'r rhieni gyda naratifau da yn ymwneud â llesiant. Gwelsom enghreifftiau o blant yn cael eu cynnwys ac yn cymryd rhan yn eu cynlluniau. Roedd cynlluniau hefyd yn cael eu rhannu â Swyddogion Adolygu Annibynnol a phartneriaid eraill, gan gynnwys iechyd ac addysg, mewn modd amserol i sicrhau dull cydlynus o ddarparu gofal. Gwnaethom arsylwi'n gadarnhaol waith cynllunio da ar gyfer cyswllt rhwng plant a theuluoedd, gyda chynlluniau ar gyfer cyswllt pan fydd cyfyngiadau'r pandemig yn cael eu llacio. Gwelsom fod ymarferwyr wedi bod yn cysylltu â phlant a gofalwyr yn aml i gynnig help a chefnogaeth. Nododd ofalwyr maeth y gwnaethom gysylltu â nhw gymorth rhagorol gan y tîm maethu. Er mwyn cefnogi lleoliadau sefydlog, mae adnodd ychwanegol pellach wedi cael ei nodi yn y tîm maethu. Clywsom am waith cynllunio ar gyfer trefniadau Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (GGA); mae'r awdurdod lleol wedi bod yn gweithio ar bolisi wedi'i ddiweddarau ac mae'n bwysig y caiff ei gyflwyno ar draws gwasanaethau plant cyn gynted â phosibl er mwyn ehangu opsiynau parhaol i blant.

Clywsom gan grŵp o bobl ifanc a oedd wedi gadael gofal am y gefnogaeth dda a gawsant gan y tîm 16+ a'u cynorthwywyr personol. Gwnaethant ddisgrifio'r ffordd roeddent wedi cael cymorth i ddod o hyd i waith a rhywle addas i fyw. Gwelsom dystiolaeth bod sgysiau 'Pan Fydda i'n Barod' yn cael eu cynnal ond clywsom y gallai'r rhain fod wedi dechrau'n gynt mewn nifer bach o achosion. Roedd pobl ifanc mewn gofal yn cael eu cefnogi i feithrin sgiliau byw'n annibynnol, ond clywsom y gall diffyg llety addas fod yn rhwystr. Yn gryno, o'r achosion a welsom, roedd plant yn cael budd o leoliadau sefydlog sy'n diwallu eu hanghenion gyda chanlyniadau hirdymor da.

Llesiant - Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Mae'r gwasanaethau i oedolion a phlant yn cael budd o gymorth corfforaethol da, a thîm uwch-reolwyr sefydledig sy'n ceisio ymdrin â gofal a chymorth o safbwynt gydol oes. Dangosodd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth o weledigaeth strategol yr awdurdod lleol fel yr amlinellir yn Ffordd Gwynedd.

O fewn gwasanaethau oedolion, roedd y rhan fwyaf o'r ffeiliau a welsom yn cofnodi sgysiau am yr hyn sy'n bwysig a oedd yn adlewyrchu amgylchiadau'r bobl. Roedd y cynlluniau gwell yn cynnwys y cryfderau sydd gan bobl a sut y gall y rhain gyfrannu at ganlyniadau y maent am eu cyflawni. Roedd diffyg ffocws ar yr hyn yr oedd angen iddo ddigwydd er mwyn i'r bobl gyflawni'r hyn roeddent am ei gyflawni mewn rhai cynlluniau; mae hyn yn golygu y gall gwaith cynllunio gofal a chymorth gamgyfleu'r hyn sy'n bwysig i

bobl. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff cryfderau'r unigolyn eu hadlewyrchu mewn modd ystyrlon yn gyson.

Clywsom am restr aros ar gyfer adolygiadau ffurfiol mewn gwasanaethau oedolion, ond gwelsom dystiolaeth o ymarferwyr yn cadw mewn cysylltiad â phobl ac yn diwygio eu dull adolygu fel y bo angen. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wella amseroldeb adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth am ei fod yn bosibl nad yw rhai pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Gwelsom restrau aros ar gyfer cymorth cartref a mynegodd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw bryderon am hyn. Fodd bynnag, gwelsom ymatebion hyblyg a chyflym lle roedd risg uniongyrchol i annibyniaeth unigolyn.

Mynegodd ymarferwyr adborth cadarnhaol am ddiogelu oedolion ac roedd yr hyder hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn ymatebion i'n harolwg darparwyr. Yn y ffeiliau a welsom, defnyddiwyd y broses ddiogelu i ategu sgysiau ag oedolion mewn perygl, ond weithiau nid oedd yn bosibl dilyn y broses gwneud penderfyniadau. Dylid cofnodi'r rhesymeg dros benderfyniadau ym maes diogelu yn glir bob amser, gan gynnwys penderfyniadau i beidio â chymryd camau gweithredu pellach. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff y gweithdrefnau diogelu newydd eu rhoi ar waith gyda dadansoddiad o dystiolaeth a phenderfyniadau yn cael eu cofnodi'n drylwyr. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o alluedd meddyliol a sut y dylid mynd i'r afael â materion diogelu ehangach a gan bwy.

I blant anabl a'u teuluoedd, mae Tîm Aml-ddisgyblaethol Derwen wedi cysylltu â phobl yn aml yn ystod y pandemig i gynnig cymorth. Mae hyn wedi cynnwys cymorth ymarferol gyda chymhorthion ac addasiadau, cymorth emosiynol gyda galwadau ffôn gan seicolegydd a hefyd amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer plant yn ystod y gwyliau haf. Roedd adolygiadau yn cael eu cynnal o fewn amserlenni statudol ac roedd ymarferwyr yn ceisio mynd i'r afael â'r rhain yn rhagweithiol wrth i anghenion godi, er enghraifft, trefnu hyfforddiant ymyrraeth gorfforol i rieni sy'n cael trafferth gydag ymddygiad eu plentyn. Mae nifer o wasanaeth cymorth dydd wedi dod i ben yn ystod y pandemig, ond clywsom am ddefnydd arloesol o'r staff i gefnogi teuluoedd ar yr adeg hon. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob plentyn yn weladwy yn ei ffeil achos ei hun ac yn parhau i fod yn ffocws ei gynllun gofal. Tynnodd ymatebion gan rieni i'n harolwg sylw at ddiffyg cyffredinol gofal plant addas ar gyfer plant anabl a oedd hefyd yn cael ei adleisio gan ymarferwyr.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen iddo gynnig amrywiaeth eang o gymorth a dewisiadau i deuluoedd. Mae defnydd cymharol isel o daliadau uniongyrchol oherwydd heriau recriwtio cynorthwywyr personol ac mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod hyn yn opsiwn i bobl. Clywsom am ddarpariaeth ragorol gan Hafan y Sêr ac rydym yn cydnabod faint mae teuluoedd yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth cymorth hwn. Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud pob ymdrech i ailagor y cyfleuster hwn cyn gynted â phosibl er mwyn dechrau darparu'r gwasanaeth eto, ond ar gyfradd is oherwydd gweithdrefnau diogelwch y pandemig.

Dull

- gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad â gofalwyr a phobl a oedd yn derbyn, neu wedi derbyn, gofal a chymorth
- gwnaethom fwrw golwg dros 40 o ffeiliau
- gwnaethom gynnal 10 o gyfweiliadau olrhain achosion â staff
- gwnaethom gynnal arolwg i weithwyr gwasanaethau cymdeithasol
- gwnaethom gynnal arolwg i ddarparwyr
- gwnaethom gynnal arolwg i sefydliadau trydydd sector
- gwnaethom gynnal arolwg i rieni a gofalwyr plant anabl
- gwnaethom gynnal arolwg i bobl a oedd â phrofiad o ofal a chymorth

Y Camau Nesaf:

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella fel blaenoriaeth, a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal y archwiliad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdod Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru

ADRODDIAD I'R CABINET

18 MAI 2021

Aelod Cabinet: Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Cyfrifon Terfynol 2020/21 – Alldro Refeniw

Swyddog cyswllt: Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

Gofynnir i'r Cabinet:

- 1.1 Ystyried a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2020/21.
- 1.2 **Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen** (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn **Atodiad 1**), sef -

ADRAN	£'000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	(100)
Plant a Theuluoedd	0
Addysg	(100)
Economi a Chymuned	(100)
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	0
Amgylchedd	(100)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	(64)
Tai ac Eiddo	(75)
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	(100)
Cyllid	(86)
Cefnogaeth Gorfforaethol	(100)

- 1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn **Atodiad 2**) –
- Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £1,261k i ddiddymu y gorwariant yn llwyr, o ystyried yr amgylchiadau eithriadol yn ymwneud â'r argyfwng eleni. Fel bod modd i'r adran symud ymlaen i wynebu her 2021/22.
 - Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol argymhellir cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Addysg gadw (£100k) o'i danwariant, gan symud (£159k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adran sydd wedi gorwario yn 2020/21.

- Caniatáu i'r Adran Tai ac Eiddo drosglwyddo (£848k) cynnal a chadw corfforaethol i gronfa cynnal a chadw i ariannu'r gwariant i'r dyfodol.
- Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol argymhellir cadw at y drefn arferol i ganiatau y Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol gadw (£100k) o'i danwariant, gan symud (£6k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adran sydd wedi gorwario yn 2020/21.
- Ar gyllidebau Corfforaethol:
 - defnyddio (£926k) o'r tanwariant net Corfforaethol i gynorthwyo'r Adran Plant sydd wedi gorwario yn 2020/21.
 - fod (£2,047k) cynlluniau cyfalaf sydd i'w hariannu o refeniw i'w trosglwyddo i gronfa i alluogi ailbroffilio'r adnodd.
 - fod £600k yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor.
 - (£4,000k) yn cael ei neilltuo i gronfa Trawsffurfio y Cyngor i gefnogi gwaith trawsffurfiol ac o natur un-tro.
 - (£2,519k) yn cael ei neilltuo i gronfa ar gyfer trefniadau adfer yn sgil Covid19.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel a amlinellir yn **Atodiad 4** yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, gan gynaeafu (£170k) o gronfeydd i gynorthwyo'r Adran Plant sydd wedi gorwario yn 2020/21.

2. Cyflwyniad / Cefndir

2.1 Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn **Atodiad 1**, gyda'r symiau i'w cario 'mlaen (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn 'Gor/(Tan) Wariant Addasedig 2020/21'. Ar ddiwedd y flwyddyn mae 5 adran yn gorwario cyn dyrannu grantiau digolledu am Covid19 gan Lywodraeth Cymru, gan adael dim ond un adran yn gorwario yn derfynol, sef yr Adran Plant a Theulueodd.

2.2 Yn **Atodiad 2**, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion rheiny wedi'u hamlygu er ystyriaeth yn 1.3 uchod.

2.3 Yn yr adolygiad o'r gyllideb refeniw diwethaf a wnaethpwyd ar sefyllfa ddiwedd Tachwedd, nodwyd fod rhagolygon diffyg o £4.7 miliwn ond fod disgwyliad dyraniadau grantiau Covid ychwanegol pellach erbyn diwedd y flwyddyn o dros £3 miliwn, oedd yn lleihau'r bwlch ariannol i £1.7 miliwn. Ers hynny, bu i'r Cyngor dderbyn nifer o grantiau sylweddol gan gynnwys:

- £7.3 miliwn Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru a Chynllun Saib Swyddi
- £1.8 miliwn Cynnal a Chadw Ysgolion

- £1.3 miliwn Cefnogi Adferiad Dysgu a Dilyniant Ysgolion
- £1.04 miliwn Trawsnewid Digidol
- £1.04 miliwn Diffyg Gwireddu Arbedion
- £1.2 miliwn tuag at golledion Treth Cyngor
- £840 mil Gweinyddu Grantiau Busnes

2.4 O ganlyniad i dderbyniad y grantiau uchod ynghyd â grantiau niferus eraill, golyga hyn fod sefyllfa ariannol 2020/21 wedi ei drawsnewid.

2.5 **Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2020/21 er mwyn galluogi'r Adran Gyllid i symud ymlaen i gynhyrchu, ardystio a chyhoeddi'r datganiadau ariannol statudol.**

3. Covid19

3.1 Fel yr ydym eisoes wedi adrodd i Gabinet 26 Ionawr 2021, 19 Mai 2020 a 13 Hydref 2020, mae effaith ariannol yr argyfwng Covid19 yn sylweddol i'r Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol ynghyd â cholledion incwm, sydd werth dros £20 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gweler y manylion yn **Atodiad 3**.

3.2 Bu i Lywodraeth Cymru sefydlu cronfa caledi tuag at ddigolledu costau a cholledion incwm Awdurdodau Lleol. Yng Ngwynedd mae ceisiadau misol gwerth £11.6 miliwn wedi eu cyflwyno gan y Cyfrifwyr i Lywodraeth Cymru, i ddigolledu'r Cyngor am y gwariant ychwanegol am y flwyddyn, gyda chyllid o dros £9.8 miliwn eisoes wedi ei dderbyn.

3.3 O ran y colledion incwm, £7.3 miliwn yw gwerth y ceisiadau am y flwyddyn, gyda'r Cyngor eisoes wedi ei ddigolledu'n llwyr gan Lywodraeth Cymru.

3.4 Mae'r cynllun Saib Swyddi gwerth y dros £1.5 miliwn am y flwyddyn, gyda'r Cyngor wedi hawlio dros £1.1 miliwn ar gyfer Byw'n Iach a £0.4 miliwn ar gyfer Cyngor Gwynedd, gyda'r swm llawn sydd wedi ei hawlio am y flwyddyn eisoes wedi ei dderbyn gan y Cyngor.

3.5 Mae effaith y costau ychwanegol a'r colledion incwm i'w gweld gan yr adrannau yn **Atodiad 1 a 2**, gyda'r gor/tanwariant adrannol yn cael eu hadrodd efo ac heb y cymorth grant gan y Llywodraeth.

3.6 Yn ogystal â'r cronfa caledi a'r cynllun saib swyddi, derbyniwyd y 6 prif grant ychwanegol a restrir yn pwynt 2.3 uchod yn ychwanegol, sydd werth dros £7.2 miliwn, gyda nifer o grantiau eraill hefyd wedi eu derbyn.

4. Sefyllfa Arbedion

- 4.1 Roeddem wedi rhagweld problem gwireddu arbedion yn arbennig felly mewn meysydd megis Gofal a Priffyrdd, rhoddwyd darpariaeth gorfforaethol i'r pwrpas yng nghyllideb 2020/21, gydag £1.6 miliwn ar gael i leddfu'r sefyllfa. Yng Nghabinet 26 Ionawr 2021, dyrannwyd y gyllideb i lithro gwerth £1 miliwn o gynlluniau a dileu £0.8 miliwn.

5. Adrannau'r Cyngor

- 5.1 Yr hyn sydd yn amlwg iawn erbyn diwedd y flwyddyn eleni yw effaith yr argyfwng Covid ar y sefyllfa ariannol. Derbyniadau grantiau yn hwyr yn y flwyddyn yn ogystal yn llwyddo i drawsnewid y sefyllfa ariannol. Pwysau sylweddol yn parhau yn y maes Plant. Mae'r prif faterion fel a ganlyn:

5.2 Adran Oedolion Iechyd a Llesiant

Gwelwyd welliant sylweddol yn sefyllfa ariannol yr adran erbyn diwedd y flwyddyn yn dilyn i werth £1 miliwn o arbedion nad oedd modd eu cyflawni gael eu dileu a'u llithro yn ogystal â derbyniad grantiau cyffredinol ym misoedd olaf y flwyddyn. Mae effaith Covid19 wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni sydd werth dros £4.5 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn.

5.3 Adran Plant a Theuluoedd

Lleihad yn y gorwariant i £1.3 miliwn yn dilyn i werth £688k o arbedion nad oedd modd eu gwireddu gael eu dileu a hefyd dderbyniad grant covid. Y prif feysydd o orwariant ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys lleoliadau all-sirol, maethu mewnol a'r gwasanaeth Ôl-16. Mae bron i £2 filiwn o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r Adran Plant a Theuluoedd yn 2020/21 a £1.8 miliwn pellach ar gyfer 2021/22 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol

5.4 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Cynnydd yn y sefyllfa ariannol erbyn diwedd y flwyddyn sydd yn gyfuniad o nifer o ffactorau sy'n cynnwys cwtogi ar wariant, derbyniadau grant covid a grantiau cyffredinol a dileu arbedion. Y maes Bwrdeistrefol ac yn benodol gwastraff, yn parhau i fod y prif bwysau ar yr adran. Mae'r adran wedi wynebu costau ychwanegol sylweddol yn ymwneud â Covid19 i gydymffurfio efo'r rheolau ac hefyd colledion incwm yn y maes gwastraff masnachol, sydd yn ei gyfanrwydd werth £2.4 miliwn am flwyddyn.

5.5 Corfforaethol

Derbyniad grantiau a rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2020/21 yn gyfrifol am gynnyrch treth ychwanegol ar Dreth Cyngor ac hefyd yn cyfrannu at y tanwariant ar Ostyngiadau Treth Cyngor. Lithriad ar y rhaglen gyfalaf yn golygu fod angen llithro arian refeniw a phwysau ar nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni.

- 5.6 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, fydd yn cymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad

Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Mae yna un cais i'r Cabinet i ddileu diffyg adrannol, a dwy adran gyda sefyllfa tanwariant sydd uwchlaw'r trothwy £100,000 ar gau cyfrifon 2020/21, ac felly gyda thanwariant i'w gynaeafu.

- 5.7 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2020/21 yn unig.
- 5.8 Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r cyllidebau sydd dan bwysau yng nghylch cyllidebu 2021/22, ac mae'r mwyafrif o'r materion parhaol hynny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2021/22 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

6. Ysgolion

- 6.1 Mae rhan o **Atodiad 2** yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae'r cyfanswm sirol o falansau'r ysgolion wedi cynyddu o £4.3m yn 2019/20 i £10.7m yn 2020/21. Gwelwyd cynnydd sylweddol ym malansau ysgolion yn sgil effaith Covid a derbyniad grantiau amrywiol, gyda lleihad balansau mewn 3 ysgol gynradd yn unig. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'.
- 6.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb). Yn amlwg mae eleni wedi bod yn flwyddyn eithriadol a bydd rhaid ystyried hyn wrth drafod gyda'r ysgolion.
- 6.3 Nid oes gan yr un ysgol ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21. Cadarnhaf y bydd yr Uned Gyllid berthnasol hefyd yn sicrhau y bydd penaethiaid a chyrrff llywodraethol yr ysgolion sydd â diffygion ariannol yn delio gyda nhw.

7. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol

- 7.1 Am nifer o resymau bu tanwariant un-tro ar nifer o benawdau'r gyllideb Gorfforaethol eleni, fel y nodir yn rhan olaf **Atodiad 2**.
- 7.2 Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd penodol y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid unwaith eto wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd rhai blynyddoedd yn ôl. Llwyddodd yr adolygiad yma i gynaeafu £170k o adnoddau, fel amlinellir yn **Atodiad 4**. Mae'r £170k i'w ddefnyddio i gynorthwyo i gyllido'r sefyllfa gorwariant gan yr Adran Plant a Theuluoedd.

- 7.3 Gyda chefnogaeth y Cabinet, os defnyddir y tanwariant fel yr argymhellir yn rhan 1.3 uchod, ynghyd â defnyddio'r £170k o'r cynaeafu cronfeydd, bydd modd clirio gorwariant yr Adran Plant a Theuluoedd o £1,261k.
- 7.4 Awgrymir y dylid gwneud defnydd o £600k o falansau cyffredinol y Cyngor, gan drosglwyddo £4 miliwn i gronfa gronfa Trawsffurfio y Cyngor i gefnogi gwaith trawsffurfiol ac o natur un-tro, gyda £2.519 miliwn yn cael ei neilltuo i gronfa ar gyfer trefniadau adfer yn sgil Covid19.

8. Camau nesaf ac amserlen

- 8.1 Yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2018, a Chod Ymarfer Cyfrifo CIPFA, rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid ardystio datganiadau ariannol statudol 2020/21 y Cyngor cyn 31 Mai, sydd yn amserlen gynt eleni na dros y blynyddoedd diwethaf. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu yn y broses i gwblhau'r gwaith yn gynt a hynny dan amgylchiadau heriol iawn eleni yn sgil yr argyfwng Covid-19.
- 8.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar y sefyllfa alldro o ran tanwariant neu orwariant adrannau unigol, a gwariant y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2020/21. Byddwn yn ystyried y wybodaeth yn sgil hynny er mwyn medru adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.
- 8.3 Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.
- 8.4 Bydd yr Adran Gyllid yn cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2020/21 i'w ardystio gan y Pennaeth Cyllid cyn y dyddiad statudol o 31 Mai.

Barn yr aelod lleol

Dim yn berthnasol

Barn y swyddogion statudol

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiad 1 - Sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran

Atodiad 2 - Prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol

Atodiad 3 - Grant gan y Llywodraeth yn sgil Argyfwng Covid19

Atodiad 4 - Adnoddau wedi'u cynaeafu o adolygu cronfeydd

Cyfrifon Terfynol 2020/21 Aldro Refeniw - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Terfynol				Argyfwng COVID-19		Amcan Sefyllfa Diwedd Tachwedd
	Cyllideb 2020/21 £'000	Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21 £ '000	Addasiadau a Argymhellir £'000	Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2020/21 £ '000	* Dyrannu Grant digolledu Llywodraeth i'r Adrannau £ '000	Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2020/21 £ '000	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	53,982	1,334	0	1,334	(1,434)	(100)	3,258
Plant a Theuluoedd	17,330	1,699	(1,261)	438	(438)	0	2,451
Addysg	91,681	294	159	453	(553)	(100)	(94)
Economi a Chymuned	3,819	(83)	0	(83)	(17)	(100)	(100)
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	23,708	1,254	0	1,254	(1,254)	0	646
Amgylchedd	3,388	50	0	50	(150)	(100)	369
Ymgynghoriaeth Gwynedd	(234)	(64)	0	(64)	0	(64)	(100)
Tai ac Eiddo	3,349	(79)	848	769	(844)	(75)	140
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,753	(106)	6	(100)	0	(100)	(56)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,242	(92)	0	(92)	(8)	(100)	(52)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	5,852	(86)	0	(86)	0	(86)	(78)
Cyllidebau Corfforaethol <i>(Gwahaniaethau yn unig)</i>	*	(7,139)	8,892	1,753	(1,753)	0	(1,693)
Cyfansymiau (net)	211,870	(3,018)	8,644	5,626	(6,451)	(825)	4,691

* Dyraniad Grant digolledu gwariant/colled incwm Covid19 Llywodraeth Cymru i'r Adrannau uchod, yn ychwanegol i'r £4.5m a ddyrannwyd yn yr adolygiad ar ddiwedd Awst 2020 a £3.1m pellach yn adolygiad diwedd Tachwedd.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb 2020/21	Sefyllfa 2020/21	Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2020
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Oedolion</u>						
Gwasanaethau Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	15,077	15,232	155	0	155	167
Gofal Cartref	7,099	6,828	(271)	0	(271)	57
Eraill	492	832	340	0	340	1,115
	22,668	22,892	224	0	224	1,339
Gwasanaethau Anabledd Corff	2,374	2,334	(40)	0	(40)	97
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	19,558	18,658	(900)	0	(900)	(24)
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	3,547	3,531	(16)	0	(16)	(130)
Gwasanaethau Eraill (Oedolion)	3,021	2,977	(44)	0	(44)	21
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u>	51,168	50,392	(776)	0	(776)	1,303
<u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u>						
Gofal Preswyl	(332)	(1,051)	(719)	0	(719)	(459)
Gofal Dydd	(96)	205	301	0	301	89
Gofal Cymunedol	27	1,190	1,163	0	1,163	563
Eraill	4	(12)	(16)	0	(16)	27
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u>	(397)	332	729	0	729	220

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb 2020/21	Sefyllfa 2020/21	Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2020
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Eraill</u>						
Gwasanaethau Canolog Adrannol (<i>gan gynnwys arbedion yr Adran</i>)	3,211	3,484	273	0	273	456
Gwariant Covid19 ym maes Gofal Oedolion		1,108	1,108	0	1,108	1,508
Defnydd Cronfa Tanwariant yr Adran			0	0	0	(229)
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u>	3,211	4,592	1,381	0	1,381	1,735
<u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>	53,982	55,316	1,334	0	1,334	3,258
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>					(1,434)	
<u>Cyfanswm Addasedig Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>					(100)	

Oedolion, Iechyd a Llesiant

Gwasanaethau Pobl Hŷn - dan 'Eraill' gorwariant ar Lety Cefnogol gyda chostau cynllun Hafod y Gest yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant perthnasol, ond lleihad sylweddol yn y gorwariant a adroddir yn dilyn i £834k o gynlluniau arbedion gyda trafferthion gwireddu gael eu llithro i 2022/23. Lleihad mewn gwariant yn Gofal Cartref, gyda grantiau covid perthnasol i'r maes Gofal Cartref a Phreswyl a Nyrsio eisoes wedi eu derbyn ac eraill eto i'w dyrannu.

Gwasanaethau Anabledd Dysgu - lleihad yn y galw am gynlluniau cefnogol, llety cefnogol a gwasanaethau dydd eleni oherwydd yr amgylchiadau presennol.

Gwasanaethau Darparu - staffio uwchlaw lefel y gyllideb a cholled incwm yn faterion yn Gofal Cymunedol a Gofal Dydd. Tra fod costau ychwanegol cysylltiedig â Covid19 yn amlwg yn y maes Gofal Preswyl, sydd yn cael ei ddigolledu gan y Llywodraeth.

Gwasanaethau Canolog Adrannol - rhai cynlluniau arbedion nad oedd yn cael eu gwireddu yn parhau heb eu gwireddu gydag eraill yn llithro i 2022/23 a'u dileu.

Cyllideb 2020/21 - eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £1.8 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2020/21 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Gofal Preswyl yn Darparu a Phreswyl a Nyrsio Pobl Hŷn.

Gwariant / Grant Covid19 a Grantiau eraill - mae effaith Covid19 wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni gyda dros £4.5 miliwn wedi ei hawlio gan yr adran am y flwyddyn tuag at y pwysau ychwanegol. Derbyniad grantiau cyffredinol eraill ym misoedd olaf y flwyddyn.

Arbedion - heb ystyried ardrawiad Covid19, mae methiant i gyflawni arbedion wedi bod yn ffactor sylweddol yng ngorwariant yr adran yn ystod y flwyddyn. Ond, yn dilyn dileu a llithro gwerth £1 miliwn o arbedion, mae'r arbedion sydd yn parhau heb eu gwireddu wedi lleihau i £0.8 miliwn bellach.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Plant a Theuluoedd	Cyllideb 2020/21	Sefyllfa 2020/21	Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2020
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth Gwasanaeth	588	552	(36)	0	(36)	(5)
Gweithredol	2,187	2,214	27	0	27	9
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	3,564	4,721	1,157	0	1,157	1,608
Maethu Drwy Asiant	1,232	1,523	291	0	291	355
Maethu Mewnol	2,196	2,558	362	0	362	412
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	1,797	1,652	(145)	0	(145)	(159)
	8,789	10,454	1,665	0	1,665	2,216
Ôl-16	1,054	1,396	342	0	342	405
Arbenigol/Derwen	1,825	1,962	137	0	137	220
Cyfiawnder Ieuenctid	240	180	(60)	0	(60)	(61)
Blynyddoedd Cynnar	150	37	(113)	0	(113)	(150)
Ieuenctid	785	569	(216)	0	(216)	(161)
Eraill	1,712	1,665	(47)	0	(47)	(22)
Addasiad Cau Cyfrifon 2020/21				(1,261)	(1,261)	0
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	17,330	19,029	1,699	(1,261)	438	2,451
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>					(438)	
<u>Cyfanswm Addasedig Plant a Theuluoedd</u>					0	

Plant a Theuluoedd

Lleoliadau - er fod £1.8m o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes yma ar gyfer 2020/21 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol, mae'r gorwariant yn parhau. Ond, bu lleihad yn y gorwariant a adroddir ers yr adolygiad diwethaf yn dilyn i werth £688k o arbedion nad oedd modd eu gwireddu gael eu dileu.

Rhan helaeth o'r gorwariant yn deillio o 9 achos lleoliad all-sirol newydd eleni, ynghyd ag effaith flwyddyn lawn 7 achos a ddechreuwyd yn ystod 2019/20, gyda'r nifer lleoliadau cyfartalog bellach wedi cynyddu i 22 o 18 ar gyfer 2019/20. Yn maethu drwy asiant, 4 achos newydd eleni ac effaith blwyddyn lawn 12 achos a gychwynwyd yn 2019/20. Gorwariant yn deillio o gynnydd yn niferoedd lleoliadau maethu mewnol (168 ar 31.3.21, 166 ar 31.3.20, 139 ar 31.3.19). Yn dilyn adolygiad o'r ymrwymadau all-sirol, daeth yn amlwg y bu newid i'r math o achosion dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly i'r costau cysylltiedig.

Ôl-16 - costau cefnogaeth cychwynnol uchel eleni yn deillio o 5 achos o'r newydd ers dechrau'r flwyddyn ariannol ynghyd ag effaith flwyddyn lawn 2 achos y llynedd.

Arbenigol/Derwen – effaith cynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol dros y blynyddoedd diwethaf yn gyfrifol am y gorwariant, ond sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gostau teithio o ganlyniad i gyfyngiadau Covid19.

Cyfiawnder leuenctid - trosiant staff a defnydd o gyfraniadau i ddisodli arian craidd yn golygu bod tanwariant ar y pennawd yma.

Blynyddoedd Cynnar – defnydd o grantiau yn cyllido gwariant craidd a derbyniad grantiau yn y maes gofal plant yn gyfrifol am y tanwariant.

leuenctid – derbyniad grant uwch eleni yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail foddelu'r gwasanaeth.

Argymhellir fod yr Adran Plant a Theuluoedd yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £1,261k i ddiddymu'r gorwariant yn llwyr, o ystyried yr amgylchiadau eithriadol yn ymwneud â'r argyfwng eleni, fel bod modd i'r adran symud ymlaen i wynebu her 2021/22.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Addysg	Cyllideb 2020/21	Sefyllfa 2020/21	Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2020
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion Datganoledig	79,935	79,935	0	0	0	0
Pwysau Ychwanegol Covid-19 Ysgolion (Datganoledig)	0	553	553	0	553	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(858)	(1,095)	(237)	0	(237)	(301)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	4,906	4,437	(469)	0	(469)	(175)
Gwasanaeth Atodol	532	1,296	764	0	764	741
Eraill	433	396	(37)	0	(37)	(108)
	5,871	6,129	258	0	258	458
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,193	2,128	(65)	0	(65)	(64)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	4,540	4,325	(215)	0	(215)	(187)
Addasiad Cau Cyfrifon 2020/21				159	159	0
Cyfanswm Addysg	91,681	91,975	294	159	453	(94)
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>					(553)	
Cyfanswm Addasedig Addysg					(100)	

Addysg

Pwysau ychwanegol Covid-19 Ysgolion (Datganoledig) - cyfuniad o golledion incwm prydau ysgolion uwchradd a chostau ychwanegol gan yr holl ysgolion yn deillio o'r argyfwng Covid19, sydd werth dros £850k ar gyfer y flwyddyn gyfan, i'w hawlio drwy grantiau Covid19 gan y Llywodraeth.

Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion - cyfuniad o dderbyniadau grantiau, trosiant staff, cwtogi ar wariant a lleihad yn y galw ar rai cyllidebau dros y cyfnod clo yn gyfrifol am y tanwariant.

Cludiant - yn groes i'r tueddiad gorwariant arferol, tanwariant o (£469k) ar gludiant eleni, gyda'r tanwariant wedi cynnyddu ymhellach yn dilyn i'r ysgolion fod ar gau am gyfnod pellach yn ystod y flwyddyn. Tanwariant o (£371k) ar fysus ysgol, (£249k) ar gludiant tacsis a threnau, ond sydd yn cael ei leihau gan ddiffyg o £151k ar werthiant tocynnau Cludiant Ôl-16 dros y cyfnod clo.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, gyda'r angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - colledion incwm prydau ysgol yn y sector cynradd ac arbennig ac am yr elfen gofal o'r clybiau brechwast yn deillio o'r argyfwng, ynghyd â chynnydd yn y niferoedd sydd yn hawlio cinio am ddim. Gofynion glanhau ychwanegol ysgolion cysylltiedig â Covid19 hefyd yn amlwg, gyda'r colledion incwm a'r gwariant ychwanegol a hawli'r gan y Llywodraeth am y Gwasanaeth Atodol dros £1.3 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill - llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol yn arbennig felly yn ystod y cyfnod clo.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth - derbyniad grant a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol o'r gyllideb.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol, tra fod amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £199k.

Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol **argymhellir** cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Addysg gadw (£100k) o'i danwariant, gan symud (£159k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adran sydd wedi gorwario yn 2020/21.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Economi a Chymuned	Cyllideb 2020/21	Sefyllfa 2020/21	Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2020
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	347	332	(15)	0	(15)	(12)
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	415	464	49	0	49	(1)
Morwrol a Pharciau Gwledig	(181)	(181)	0	0	0	20
Cytundebau Hamdden	918	918	0	0	0	(25)
Rhaglenni Chwaraeon	54	32	(22)	0	(22)	(26)
Rhaglenni Datblygu Economiadd	(83)	(82)	1	0	1	(2)
Marchnata a Digwyddiadau	258	242	(16)	0	(16)	3
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,375	1,260	(115)	0	(115)	(77)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	716	751	35	0	35	20
Cyfanswm Economi a Chymuned	3,819	3,736	(83)	0	(83)	(100)
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>					(17)	
<u>Cyfanswm Addasedig Economi a Chymuned</u>					(100)	

Economi a Chymuned

Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau - gorwariant ar gostau yn ymwneud â staffio.

Morwrol a Pharciau Gwledig - sefyllfa niwtral erbyn diwedd y flwyddyn gyda Pharciau Gwledig yn tanwario (£20k) a Morwrol yn gorwario £20k. Diffyg incwm yn sgil argyfwng Covid19 wedi cael effaith sylweddol ar y maes yma gyda chyfanswm o £421k wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru am y flwyddyn, gyda'r golled incwm amlycaf i'w weld yn Hafan, Pwllheli a'r harbyrau.

Cytundebau Hamdden - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Gan fod y canolfannau wedi bod ar gau am ran helaeth o'r flwyddyn o ganlyniad i Covid19, bu lleihad un-tro ar gostau rhedeg y canolfannau hamdden gydag arian i ddigolledu am gostau ychwanegol Covid wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, sydd yn £2.7 miliwn ar gyfer y golled incwm, costau ychwanegol a Furlough i Byw'n Iach.

Llyfrgelloedd Gwynedd - nifer o swyddi gwag, derbyniad grantiau a lleihad mewn gwariant tra bu llyfrgelloedd ar gau dros y cyfnod clo.

Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd - y gwaith o adnewyddu Neuadd Dwyfor wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ac felly dim modd cynhyrchu incwm eleni, tra fod effaith Covid19 wedi arwain at golled incwm gan Amgueddfa Lloyd George. Problemau yn parhau yn Storiol gyda diffyg o £55k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cwtogi ar wariant wedi arwain at danwariant gan y Celfyddydau ac Archifau. Derbyniad grantiau Covid, Grantiau Cyngor y Celfyddydau a chynllun saib swyddi yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Cyllideb 2020/21	Sefyllfa 2020/21	Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2020
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	9,359	9,699	340	0	340	(273)
Gwasanaethau Peirianeg	324	311	(13)	0	(13)	74
Gwasanaethau Bwrdeistrefol						
Gwastraff	10,350	10,998	648	0	648	534
Eraill	3,675	3,954	279	0	279	311
Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol	23,708	24,962	1,254	0	1,254	646
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>					(1,254)	
<u>Cyfanswm Addasedig Priffyrdd a Bwrdeistrefol</u>					0	

Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Priffyrdd - cynnydd nodedig yn y gorwariant ar y gyllideb gwaith cynnal y gaeaf erbyn diwedd y flwyddyn ynghyd ag oediad i wireddu cynlluniau arbedion. Cyfyngiadau Covid19 yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn yn golygu fod cyllideb gweithiau ffyrdd yn tanwario eleni, swyddi gwag a thanwariant ar benawdau amrywiol hefyd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Gwasanaethau Peirianeg - tanwariant o ganlyniad i oediad yn y rhaglen cynnal teledu cylch cyfyng, sydd yn cael ei leihau gan gynlluniau arbedion nad oes modd eu gwireddu, ond trafodaethau'n parhau i geisio datrysiaid.

Gwastraff - nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu gwastraff, bu oediad mewn gweithredu. Mae'r trefniadau newydd bellach wedi dod i rym yn Nwyfor ac yn fwy diweddar yn Arfon ond llithriad pellach yn amserlen gweithredu'r drefn newydd ym Meirionnydd i ddechrau'r flwyddyn ariannol 2021/22, felly costau trosiannol cysylltiedig â chostau staffio a salwch eleni.

Y gwasanaeth wedi wynebu costau ychwanegol a cholledion incwm yn deillio o Covid19 a gwelwyd hefyd leihad sylweddol yn y prisiau a dderbynnir am werthiant deunyddiau ailgylchu. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael trafferthion gwireddu arbedion. Ond, derbyniad grant hwyr o £216k gan Lywodraeth Cymru i'r maes ailgylchu ar ddiwedd y flwyddyn yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill - sgil effeithiau Covid19 wedi arwain at golledion incwm gan gynnwys yn y maes gwastraff masnachol wrth i fusnesau fod ar gau dros y cyfnod clo. Gofynion ychwanegol a newidadau i drefniadau gweithio er mwyn cydymffurfio efo rheolau Covid19 ac ymbellhau cymdeithasol yn gost ychwanegol. Methiant i wireddu cynlluniau arbedion amrywiol hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa.

Mae ardrawiad Covid19 wedi cael cryn effaith ar yr adran, gyda gwerth bron i £2.4m wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, £1.1m ohono am golledion incwm yn y maes gwastraff masnachol ac ar werthiant deunyddiau ailgylchu a £1.3m am wariant ychwanegol.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Amgylchedd	Cyllideb 2020/21	Sefyllfa 2020/21	Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2020
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth yr Adran	480	336	(144)	0	(144)	(91)
Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	378	556	178	0	178	170
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	649	23	(626)	0	(626)	(322)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(2,106)	(1,649)	457	0	457	401
Cludiant Integredig	1,680	1,986	306	0	306	271
	223	360	137	0	137	350
Cefn Gwlad a Mynediad	618	619	1	0	1	(7)
Gwarchod y Cyhoedd	1,689	1,567	(122)	0	(122)	(53)
<u>Cyfanswm Amgylchedd</u>	3,388	3,438	50	0	50	369
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>					(150)	
<u>Cyfanswm Addasedig Amgylchedd</u>					(100)	

Amgylchedd

Rheolaeth - tanwariant cyffredinol ac arbedion ymlaen llaw gan yr adran wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu - y tueddiad cyffredinol o ddiffyg incwm yn parhau eto eleni sydd yn cael ei leddfu rhywfaint gan danwariant staff a gwariant is ar amrywiol gyllidebau gan gynnwys rhybuddion statudol ac apeliadau.

Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth

Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) - cynnydd sylweddol yn yr incwm ffioedd gwaith stryd ers yr adolygiad diwethaf, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys ar weithiau yn y maes Cynllunio Ymlaen.

Parcio a Gorfodaeth Parcio - effaith sylweddol cyfyngiadau Covid19 yn gyfrifol am ddiffyg incwm parcio, gyda gwerth dros filiwn wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru am y flwyddyn. Yn gydamserol, tanwariant ar gyllidebau amrywiol gan gynnwys costau cyflogi ac ar y gyllideb gorfodaeth parcio.

Cludiant Integredig - gorwariant ar gytundebau bysus cyhoeddus, er fod yr adran yn y broses o gynnal adolygiad o gludiant cyhoeddus, gyda'r Brifysgol eisoes wedi ei gomisiynu i adolygu'r ddarpariaeth, bu oediad o ganlyniad i'r argyfwng Covid19.

Gwarchod y Cyhoedd - gwariant is ar nifer o benawdau'r gyllideb eleni gan gynnwys samplau bwyd a dŵr ac hysbysebu.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Ymgynghoriaeth	Cyllideb 2020/21	Sefyllfa 2020/21	Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2020
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg	(464)	(580)	(116)	0	(116)	(122)
Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS)	(5)	(5)	0	0	0	0
Uned Rheoli Risg Llifogydd	335	318	(17)	0	(17)	0
Gwasanaeth Adeiladu	(100)	(31)	69	0	69	22
<u>Cyfanswm Ymgynghoriaeth</u>	(234)	(298)	(64)	0	(64)	(100)
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>					0	
<u>Cyfanswm Addasedig Ymgynghoriaeth</u>					(64)	

Ymgynghoriaeth

Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg - yn dilyn i incwm misoedd cyntaf y flwyddyn ariannol gael eu llesteirio oherwydd effaith Covid19, llwyddwyd i adfer y sefyllfa gan or-gyflawni incwm erbyn diwedd y flwyddyn drwy ddenu rhagor o incwm ar amrywiol gynlluniau gan sefydliadau allanol, megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru.

Uned Rheoli Risg Llifogydd - cwtogiad mewn gwariant ar drafndiaeth, teithio ac ar gostau staff.

Gwasanaeth Adeiladu - cynnydd yn y diffyg incwm ond sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar staff.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Tai ac Eiddo	Cyllideb 2020/21	Sefyllfa 2020/21	Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2020
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	46	217	171	0	171	(16)
Gwasanaethau Tai						
Digartrefedd	1,078	1,663	585	0	585	284
Tai Sector Breifat	429	484	55	0	55	2
Eraill	383	359	(24)	0	(24)	(41)
	1,890	2,506	616	0	616	245
Gwasanaethau Eiddo						
Eiddo	1,421	1,394	(27)	0	(27)	(96)
Gofalu, Arlwyo a Glanhau	(8)	1	9	0	9	7
	1,413	1,395	(18)	0	(18)	(89)
Tai ac Eiddo	3,349	4,118	769	0	769	140
Cynnal a Chadw Corfforaethol	*	*	(848)	848	0	0
Cyfanswm Tai ac Eiddo	3,349	4,118	(79)	848	769	140
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>					(844)	
Cyfanswm Addasedig Tai ac Eiddo					(75)	

Tai ac Eiddo

Rheolaeth - gwariant un-tro adrannol ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd â chynllun arbedion amgen bellach wedi disodli cynllun hanesyddol nad oedd yn gwireddu.

Gwasanaethau Tai - tanwariant ar gostau staff yn Digartrefedd ac yn y maes Sipsiwn a Theithwyr dan 'Eraill'. Yn Digartrefedd pwysau sylweddol ar y gyllideb Llety Dros Dro yn ystod y flwyddyn yn sgil Covid19, gyda chyfran helaeth ohono yn deillio o'r argyfwng i symud y digartref oddi ar y stryd, gan fod Llywodraeth Cymru yn digolledu'r Cyngor am y gwariant ychwanegol perthnasol, golyga hyn ei fod yn lleddfu'r gorwariant a adroddir ar Digartrefedd.

Gwasanaethau Eiddo - swyddi gwag a secondiadau sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant a ragwelir, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol a cholled incwm yn y maes glanhau.

Cynnal a Chadw Corfforaethol - derbyniad grantiau ychwanegol ac oediad yn y rhaglen gynnal o ganlyniad i effaith Covid19 yn gyfrifol am danwariant ar y rhaglen cynnal a chadw eleni ac felly awgrymir y dylid trosglwyddo'r arian i gronfa benodol i ariannu'r gwariant i'r dyfodol.

Argymhellir caniatáu i'r Adran Tai ac Eiddo drosglwyddo (£848k) cynnal a chadw corfforaethol i gronfa cynnal a chadw i ariannu'r gwariant i'r dyfodol.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - CYFRIFON TERFYNOL

Adrannau Canolog	Cyllideb 2020/21	Sefyllfa 2020/21	Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2020
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,753	1,647	(106)	6	(100)	(56)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	5,852	5,766	(86)	0	(86)	(78)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,242	7,150	(92)	0	(92)	(52)
Cyfanswm Adrannau Canolog	14,847	14,563	(284)	6	(278)	(186)
<i>Derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu gwariant/colled incwm yn sgil argyfwng COVID-19</i>						
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)					0	
Cefnogaeth Gorfforaethol					(8)	
Cyfanswm Addasedig Adrannau Canolog					(286)	

Adrannau Canolog

Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - cynnydd o (£50k) yn y tanwariant, gyda chyfran o'r tanwariant sydd yn deillio o swydd wag y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cael ei ddargyfeirio i gyllido gwell darpariaeth lles yn swyddfeydd y Cyngor. Er fod effaith yr argyfwng wedi amharu ar yr incwm a dderbyniwyd gan Chyfreithiol ar ddechrau'r argyfwng, mae'r lefelau incwm bellach wedi eu hadfer ac yn gyson gyda'r incwm a dderbynir mewn blwyddyn arferol bellach.

Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant, gan gynnwys tanwariant un-tro oherwydd swyddi gwag, secondiadau a derbyniad incwm a grantiau mewn nifer o feysydd. Gwelwyd pwysau ychwanegol gan yr adran yn deillio o'r argyfwng yn y maes technoleg gwybodaeth ac yn y maes gweinyddu grantiau busnes.

Cefnogaeth Gorfforaethol - cyfyngiadau Covid19 wedi arwain at golled incwm o (£130k) yn y maes cofrestru priodasau. Effaith Covid19 hefyd wedi cael goblygiadau negyddol ar incwm mewnol yr Argraffdy, ond sydd wedi lleihau i ddiffyg o £80k erbyn diwedd y flwyddyn. Incwm ychwanegol mewn nifer o feysydd gyda'r Uned Gyfieithu wedi rhagori ar eu lefelau incwm erbyn diwedd y flwyddyn. Nifer o swyddi gwag a thanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau ar draws yr adran yn cyfrannu at y sefyllfa tanwariant cyffredinol.

Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol **argymhellir** cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol gadw (£100k) o'i danwariant, gan symud (£6k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adran sydd wedi gorwario yn 2020/21.

CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - CYFRIFON TERFYNOL						
Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Cyllideb 2020/21	Sefyllfa 2020/21	Gor / (Tan) Wariant Gros 2020/21	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2020/21	Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2020
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth Cyngor a Premiwm Treth y Cyngor	*	*	(843)	843	0	0
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	(413)	413	0	0
Costau Cyfalaf	*	*	(2,047)	2,047	0	0
Derbyniad Llog	*	*	83	(83)	0	320
Darpariaeth Gwireddu Arbedion ac Arbedion Ymlaen Llaw	*	*	(145)	145	0	(1,644)
Grantiau Penodol Covid ar gyfer materion Corfforaethol	*	*	(889)	889	0	(49)
Eraill gan gynnwys Cyllidebau a ddychwelwyd gan Adrannau	*	*	(2,885)	2,885	0	(320)
<u>Cyfanswm Corfforaethol</u>	*	*	(7,139)	7,139	0	(1,693)
<i>Grant penodol covid i ariannu materion oedd eisoes wedi eu hariannu gan y Cyngor</i>					(1,753)	
<i>Defnydd o'r grant i ail-gyflenwi cyllidebau'r Cyngor</i>				1,753	1,753	
<u>Cyfanswm Addasedig Corfforaethol</u>				8,892	0	

Corfforaethol

Treth Cyngor a Premiwm Treth Cyngor - yn wyneb yr argyfwng Covid19 ac felly i osgoi caledi ariannol posib, cafodd pob gweithred adennill ar filiau Treth Cyngor heb eu talu eu hatal am gyfnod o 3 mis tan ddechrau Gorffennaf. Yn ystod y flwyddyn, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatau 506 eiddo i drosglwyddo o Dreth Cyngor i Drethi Annomestig (397 yn 2019/20, 453 yn 2018/19). Er hyn oll, derbyniwyd £2.7m o Breimiwm Treth y Cyngor yn ystod 2020/21 i'w neilltuo i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai, tra fod sefyllfa ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol o (£843k) ar Dreth Cyngor oherwydd rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2020/21 ynghyd â derbyniad grant o £1.2 miliwn yn hwyr ar ddiwedd y flwyddyn yn sgil yr argyfwng Covid19 gan Lywodraeth Cymru.

Gostyngiadau Treth Cyngor - er y bu cynnydd o 5% yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yma o ganlyniad i'r argyfwng Covid19, adroddir ar danwariant o (£413k) yn dilyn derbyniad grant penodol o £513k yn hwyr ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd â gosod amcangyfrifon darbodus.

Costau Cyfalaf - o ganlyniad i lithriadau ar gynlluniau yn y rhaglen cyfalaf yn deillio o effaith Covid19, golyga hyn fod angen llithro arian refeniw ynghyd â chyfnewid dulliau ariannu gan drosglwyddo gwerth £2,047k o arian refeniw i gronfa er mwyn ariannu'r rhaglen gyfalaf yn 2021/22.

Derbyniad Llog - yn dilyn ardrawiad Covid19 ar y marchnadoedd arian, lleihad yn y derbyniad llog disgwylidig.

Darpariaeth Gwireddu Arbedion ac Arbedion Ymlaen Llaw - yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, y ddarpariaeth gorfforaethol o £1,644k wedi ei ddyrannu gan y Cabinet 26 Ionawr 2021.

Grantiau Penodol Covid ar gyfer materion Corfforaethol - derbyniad grantiau yn sgil yr argyfwng ynghyd â defnydd o'r grantiau sydd yn cynnwys cyfrannu £1.1 miliwn tuag at gynllun Prentisiaethau a Chynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory, cyllido arbedion heb eu gwireddu a dileu'n rhannol orwariant adrannol hanesyddol fel a amlinellir yn Atodiad 4.

Eraill gan gynnwys Cyllidebau ddychwelwyd gan Adrannau - y pwysau ar nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni.

Argymhellir y dylid cynorthwyo'r Adran Plant sydd yn gorwario £1,261k yn 2020/21 gan ei gyllido o'r ffynonellau canlynol:

- tanwariant net o (£926k) ar gyllidebau Corfforaethol
 - tanwariant o (£159k) gan yr Adran Addysg a (£6k) gan y Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol
 - defnydd o'r (£170k) o'r ymarferiad cynaeafu cronfeydd a fanylir yn **Atodiad 4**
-
- fod (£2,047k) cynlluniau cyfalaf sydd i'w hariannu o refeniw i'w trosglwyddo i gronfa i alluogi ailbroffilio'r adnodd
 - fod £600k yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor
 - gyda gweddill y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol ynghyd â'r balansau cyffredinol o £600k yn cael ei neilltuo i ddwy gronfa benodol fel a ganlyn:
 - (£4,000k) yn cael ei neilltuo i'r Gronfa Trawsffurfio i gefnogi gwaith trawsffurfiol ac o natur un-tro.
 - (£2,519k) yn cael ei neilltuo i gronfa ar gyfer trefniadau adfer yn sgil Covid19.

		Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru					Saib Swyddi (Furlough)				
		Digolledu Gwariant Ychwanegol		Digolledu Colled Incwm			Cyfraniad at Gyflogau				
Mis	Cais	Gwerth y Cais	Grant Wedi Dderbyn	Cais	Gwerth y Cais	Grant Wedi Dderbyn	Cais	Gwerth y Cais		Grant Wedi Dderbyn	
		Byw'n lach	Gweddill y Cyngor		Byw'n lach	Gweddill y Cyngor					
		£'000	£'000		£'000	£'000		£'000	£'000		
Mawrth	1	20	20	1	3,675	3,523	1	133	5	133	5
Ebrill	2	508	425				2	12	12		
Mai	3	904	887				3	119	31	119	31
Mehefin	4	1,118	1,068				4	124	32	124	32
Gorffennaf	5	1,171	1,165	2	1,436	1,304	5	128	26	128	26
Awst	6	830	826				6	106	20	106	20
Medi	7	866	825				7	59	11	59	11
Hydref	8	792	781	3	1,621	1,507	8	43	7	43	7
Tachwedd	9	898	898				9	41	3	41	3
Rhagfyr	10	730	701				10	61	5	61	5
Ionawr	11	883	885	4	593	1,385	11	127	43	127	43
Chwefror	12	1,491	1,330				12	108	138	108	138
Mawrth	13	1,389					13	119	38	119	38
CYFANSWM		11,600	9,811		7,325	7,719		1,168	371	1,168	371

Tud. 147

Trosgolwg o'r Holl Geisiadau:

	Gwerth y Cais £'000	Grant Wedi Dderbyn £'000
CYFANSWM	20,464	19,068
Elfen Byw'n lach	2,677	2,677
Gweddill y Cyngor	17,787	16,391

Noder: Mae'r swm a nodir yn Atodiad 1 yn cynnwys colled incwm a gwariant ychwanegol adrannol eu natur, gyda symiau ar faterion corfforaethol a chynlluniau penodol (er enghraifft cynllun Saib Swyddi a chinio ysgol am ddim) eisoes wedi eu dyrannu i'r adrannau perthnasol.

Adnoddau wedi'u Cynaeafu o Adolygu Cronfeydd

Yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, argymhellir rhyddhau'r symiau canlynol:

Cronfa	Swm i'w ryddhau £'000
Tanwariant Cefnogaeth Gorfforaethol (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol)	100
Tanwariant yr Adran Cyllid (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol)	70
Cyfanswm	170

gan eu defnyddio i:

Cronfeydd a gynaeafwyd	Swm £'000
Cyllido gorwariant yr Adran Plant a Theuluoedd sydd yn gorwario yn 2020/21	170
Cyfanswm	170

Dileu Gorwariant Adrannol Hanesyddol

Yn dilyn adolygiad o gronfeydd adrannol, argymhellir dileu yn rhannol y gorwariant hanesyddol sydd wedi croni yn flynyddol ers 2017/18:

Cronfa	Swm £'000
Gorwariant Hanesyddol Plant a Theuluoedd	225
Gorwariant Hanesyddol Priffyrdd a Bwrdeistrefol	225
Cyfanswm	450

ADRODDIAD I'R CABINET 18 MAI 2021

Aelod Cabinet: Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

Pwnc: Rhaglen Gyfalaf 2020/21 –
Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2021)

Swyddog Cyswilt: Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2021) o'r rhaglen gyfalaf.
 - Nodi'r gwariant o £27,667,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21, fydd yn cael ei ddefnyddio yn y datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2020/21.
 - Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
 - £3,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
 - £10,561,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
 - Dim newid mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
 - £234,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
 - Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
 - £200,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill
-

1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2020/21. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £114.644m am y 3 blynedd 2020/21 – 2022/23.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £10.998m ers yr adolygiad diwethaf.

Rhan 5: Manyllder grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2020/21 i 2021/22

2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Llwyddodd y Cyngor i wario oddeutu £27.7m yn 2020/21 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £18.2m (66%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol a £4.1m o grant cyffredinol cyfalaf.
- Mae effaith argyfwng Covid19 a'r cyfnod clo ar y rhaglen gyfalaf i'w weld yn glir. Yn ychwanegol i'r £14.1m adroddwyd arno yn adolygiadau blaenorol 2020/21 mae £19.3m pellach o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2020/21 i 2021/22, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

3. Rhaglen Gyfalaf 2020/21 i 2022/23

Gweler isod y rhaglen gyfalaf derfynol am 2020/21 ar ddiwedd Mawrth 2021, gyda'r sefyllfa ddiwygiedig arfaethedig i'r blynyddoedd dilynol.

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH				CYFANSWM	CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF
	2020/21	2021/22	2022/23			
	£'000	£'000	£'000	£'000		
Addysg	7,464	10,413	9,540	27,417	(1,107)	
Amgylchedd	3,468	8,912	199	12,579	7,460	
Cefnogaeth Gorfforaethol	161	-	-	161	42	
Cyllid	749	1,332	768	2,849	(110)	
Economi a Chymuned	1,175	2,107	245	3,527	408	
Tai ac Eiddo	4,689	17,777	5,052	27,518	1,849	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	1,914	4,635	1,450	7,999	518	
Plant a Chefnogi Teuluoedd	744	1,018	250	2,012	145	
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	4,798	7,895	4,765	17,458	512	
Ymgynghoriaeth	2,505	6,998	287	9,790	(19)	
Corfforaethol	-	2,834	500	3,334	1,300	
CYFANSWM	27,667	63,921	23,056	114,644	10,998	

4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £10.998m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu terfynol ar gyfer 2020/21 ar ddiwedd Mawrth 2021, gyda'r sefyllfa ddiwygiedig arfaethedig i'r blynnyddoedd dilynol:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH				Addasiad Technegol £'000	CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF £'000
	2020/21	2021/22	2022/23	CYFANSWM		
	£'000	£'000	£'000	£'000		
Benthycu gyda chefnogaeth	4,053	6,610	6,610	17,273	(4,063)	0
Benthycu Arall	75	6,000	12	6,087	-	3
Grantiau a Chyfraniadau	22,264	17,714	6,835	46,813	4,063	10,561
Derbyniadau Cyfalaf	43	799	13	855	-	0
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	-	59	-	59	(2,526)	234
Cronfa Cyfalaf	-	9,228	1,145	10,373	4,876	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	1,232	23,511	8,441	33,184	(2,350)	200
CYFANSWM	27,667	63,921	23,056	114,644	0	10,998

5. Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf ddiwedd Tachwedd, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £12,030k. Mae nifer o addasiadau gan gynnwys lleihad ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £10,561k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £7,190k Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a Llwybrau Diogel
- £2,249k Grant Cynnal a Chadw Ysgolion
- £568k Grant Tai Arloesol – Cartrefi Clyd (Podiau)
- £505k Grant Cronfa Gofal Canolraddol – addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill
- £376k Amrywiol grantiau Adfywio
- £267k Grantiau gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol a Chyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynlluniau gwledig a datblygiadau amgylcheddol
- £250k Grant Cronfa Rhyddhau Tir
- £207k Grant Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Economi Gylchol

- £125k Grant Cronfa Ffyrdd Cadarn
- £117k Grant cyfalaf Cyfleon Chwarae Cymru
- £83k Grant Capasiti Ymchwydd (COVID) i gynorthwyo datblygiadau cartrefi preswyl a gofal dydd
- £65k Grant Digartrefedd Gwedd II gan Llywodrath Cymru
- £28k Grant COVID Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cymru

6. Argymhellion

Gofynnir i'r Cabinet:

- dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2021) o'r rhaglen gyfalaf,
- nodi'r gwariant o £27,667,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21, a
- cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).

7. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2020/21 – 2022/23.

8. Ystyriaethau Perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

9. Camau Nesaf ac Amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Barn yr Aelod Lleol

Dim yn berthnasol.

Barn y Swyddogion Statudol**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiad A – Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad B – Manylion Ail-broffilio

Manylion y Prif Newididau

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

	2020/21	2021/22- 2022/23
	£'000	£'000
Grantiau a Chyfraniadau		
• Grant Cynnal a Chadw Ysgolion (<i>Adran Addysg ac Adran Tai ac Eiddo</i>).	2,249	
• Ail asesu cynlluniau Grant Ysgolion Ganrif 21 (<i>Adran Addysg</i>).		(1,208)
• Amrywiol grantiau adfywio gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	376	
• Grant COVID Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Plant a Theuluoedd</i>).	28	
• Grant Cyfalaf Cyfleon Chwarae Cymru (<i>Adran Plant a Theuluoedd</i>).	117	
• Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) - grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).	505	
• Grant Capasiti Ymchwydd (COVID) i gynorthwyo datblygiadau cartrefi preswyl a gofal dydd (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).	83	
• Cywiro ariannu cynllun Ad-leoli Segontium (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).	(74)	
• Grant Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Economi Gylchol tuag at welliannau i Ganolfan Ailgylchu Bangor, cynlluniau Hwb Rhannu Bwyd Cymunedol a Cartgylchu (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).	112	95
• Grant Cronfa Ffyrdd Cadarn (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).	39	86

<ul style="list-style-type: none"> Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a Llwybrau Diogel gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau (<i>Adran Amgylchedd</i>). 	238	6,952
<ul style="list-style-type: none"> Grant gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol a Chyfoeth Naturiol Cymru tuag at gynlluniau gwledig a datblygiadau amgylcheddol (<i>Adran Amgylchedd</i>). 	266	1
<ul style="list-style-type: none"> Grant Tai Arloesol - Cartrefi Clyd (Podiau) gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>). 	291	277
<ul style="list-style-type: none"> Grant digartrefedd gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>). 	65	
<ul style="list-style-type: none"> Grant Cronfa Rhyddhau Tir ar gyfer datblygiadau tai gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>). 	66	184
<ul style="list-style-type: none"> Addasiad grant HWB Seilwaith Ysgolion - elfen gyfalaf yr arian uniongyrchol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer offer TG i ysgolion (<i>Adran Cyllid</i>). 	(201)	
Refeniw Adrannol		
<ul style="list-style-type: none"> Cyfraniadau tuag at ambell gynllun yn ymwneud ag ysgolion (<i>Adran Addysg</i>). 	152	
<ul style="list-style-type: none"> Cyfraniadau tuag at amrwyiol gynlluniau Priffyrdd a Bwrdeistrefol (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>). 	61	
<ul style="list-style-type: none"> Ariannu Cyfatebol tuag at Safle Sipsiwn Llandygai a chynllun arall Tai (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>). 	16	
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill		
<ul style="list-style-type: none"> Adnewyddu Cerbydau o gronfeydd adnewyddu (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Adran Ymgynghoriaeth; Adran Cyllid</i>). 	155	
<ul style="list-style-type: none"> Cyfraniad tuag at y cynllun Technoleg Gwybodaeth HWB seilwaith ysgolion (<i>Adran Cyllid</i>). 	62	

Manylion Ail-broffilio

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2020/21 £'000	2021/22 £'000
Grant Cynnal a Chadw Ysgolion (disodli ariannu yn 20/21, sy'n llithro i 21/22) (<i>Adran Addysg; Adran Tai ac Eiddo; Corfforaethol</i>)	(2,249)	949
Grant Cynnal a Chadw Ysgolion (disodli ariannu yn 20/21, sy'n llithro i 21/22) – swm i'w ddyrannu (<i>Corfforaethol</i>)		1,300
Cynlluniau Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) (<i>Adran Addysg</i>)	(4,489)	4,489
Adfywio Bangor a Chaernarfon (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(758)	758
Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(409)	409
Cynllun Buddsoddiad Neuadd Dwyfor (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(555)	555
Cynllun Grant Gofal Plant (<i>Adran Plant a Theuluoedd</i>)	(768)	768
Cynlluniau Sefydliadau Preswyl Oedolion (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>)	(924)	924
Hwb Iechyd a Gofal Penygroes (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>)	(750)	750
Cynlluniau Sefydliadau Gofal Dydd Oedolion (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>)	(561)	561
Cynlluniau Goleuadau Traffig a Stryd LED (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>)	(301)	301
Cynlluniau Priffyrdd a Phontydd (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>)	(1,531)	1,531
Cynlluniau Bwrdeistrefol (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>)	(340)	340
Adnewyddu Cerbydau (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Adran Ymgynghoriaeth; Adran Amgylchedd</i>)	(3,315)	3,315
Cynlluniau Atal Llifogydd (<i>Adran Ymgynghoriaeth</i>)	(1,639)	1,639
Cei Aberdyfi (<i>Adran Ymgynghoriaeth</i>)	(1,748)	1,748
Cynlluniau Trafnidiaeth (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(766)	766

Cynlluniau Gwledig (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(171)	171
Ail-wynebu Meysydd Parcio (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(219)	219
Pwyntiau Gwefru Cerbydau (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(456)	456
Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(72)	72
Cynlluniau Grantiau Tai ac Eraill (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(1,672)	1,672
Cynlluniau Strategaeth Tai (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(3,595)	3,595
Cynlluniau Digartrefedd (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(2,113)	2,113
Cynlluniau Addasiadau Swyddfeydd (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(170)	170
Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(1,142)	1,142
Cynllun Gwaredu Asbestos (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(580)	580
Cynlluniau Ysgogi'r Economi (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(925)	925
Adnewyddu Cyfarpar TG (<i>Adran Cyllid</i>)	(95)	95
Adnoddau Cynllun Asedau heb ddyrannu tan 21/22 (<i>Corfforaethol</i>)	(1,034)	1,034

Noder:

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

Eitem 13

BLAENRAGLEN WAITH

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet	Eitemau i'w trafod	Aelod Cabinet
Chwarter 1 2021/22 1 Ebrill – 30 Mehefin 2021		
15 Mehefin	Hwyluso datblygiad preswyl ar safle Adeiladau'r Goron, a lleihau costau cynnal a chadw'r Cyngor o faes parcio aml lawr Penrallt.	Cyng. Craig ab Iago
	Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor	Cyng. Dyfrig Siencyn
	Adolygiad o Amrywiol Amodau Gwaith	Cyng. Nia Jeffreys
Chwarter 2 2021/22 1 Gorffennaf – 30 Medi		
6 Gorffennaf	Polisi Cydraddoldeb a Mynediad	Cyng. Nia Jeffreys
	Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol	Cyng. Nia Jeffreys
	Adroddiad Perfformiad yr Adran Blant a Cefnogi Teuluoedd	Cyng. Dilwyn Morgan
	Adroddiad Perfformiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyng. Dafydd Meurig
7 Medi	Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch	Cyng. Nia Jeffreys
	Adroddiad Blynyddol Cyflogaeth	Cyng. Nia Jeffreys

	Adroddiad Perfformiad Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	Cyng. Catrin Wager
	Adroddiad Perfformiad yr Adran Amgylchedd	Cyng. Gareth Griffith
28 Medi	Adroddiad Perfformiad Adran Addysg	Cyng. Cemlyn Williams
	Adroddiad Perfformiad yr Adran Gyllid	Cyng. Ioan Thomas
Chwarter 3 2021/22 1 Hydref – 31 Rhagfyr		
12 Hydref	Cyllideb Refeniw 2021/22 - Adolygiad diwedd Awst	Cyng. Ioan Thomas
	Rhaglen Gyfalaf 2021/22 - Adolygiad diwedd Awst	Cyng. Ioan Thomas
	Trosolwg Arbedion – Adroddiad Cynnydd ar wireddu Cynlluniau Arbedion	Cyng. Ioan Thomas
	Strategaeth Cyllideb 2022-23	Cyng. Ioan Thomas
	Adroddiad Hanner Blwyddyn – Gwella Gwasanaeth	Cyng. Nia Jeffreys
	Adroddiad Perfformiad Adran Economi a Chymuned	Cyng. Gareth Thomas
	Adroddiad Perfformiad Adran Cefnogaeth Gorfforaethol	Cyng. Nia Jeffreys